# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 22AIN MEDI, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 14 Medi 2015)

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
E. Selwyn Griffiths
Elin Walker Jones
Ann Williams
R. H. Wyn Williams

Alan Jones Evans
Christopher Hughes
W. Tudor Owen
R. Hefin Williams

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen

Beth Lawton
Eirwyn Williams

## Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

Peter Read

Sedd Wag

## Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorwyr Linda Ann Jones

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

## Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

*Dylan Davies*
Rita Price
Rhian Roberts
Canon Parchedig Robert Townsend

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 1 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2015.

## 5. CYNLLUN TRAC — 10 - 16

I dderbyn adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ar yr uchod.

## 6. AMODAU ARWEINYDDIAETH A MODELAU AMGEN — 17 - 20

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ar yr uchod.

## 7. YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG — 21 - 146

I ystyried adroddiad Cadeirydd yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg, Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, ar yr uchod.

## 8. YMCHWILIAD CRAFFU GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG - BRIFF DRAFFT — 147 - 148

I ystyried briff ar gyfer cynnal ymchwiliad o'r uchod.

**9.** **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014-15</u>** 149 - 162

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion a Iechyd ar yr uchod.

**10.** **<u>DECHRAU I'R DIWEDD OEDOLION</u>** 163 - 217

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion a Iechyd ar yr uchod.

**11.** **<u>PROSIECT YR HER GOFAL</u>** 218 - 225

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion a Iechyd ar yr uchod.

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
# 04.06.15

**Yn bresennol**:

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Peter Read, Ann Williams, Eirwyn Williams a Hefin Williams.

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:**

**Ar gyfer Eitemau 5, 6, a 7 isod**

Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd
Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Aled Davies, Pennaeth Dros Dro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Nia Elis-Williams, Uwch Reolwr Gweithredol Dros Dro

**Ar gyfer Eitem 6 isod**

Olwen Ellis-Jones, Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu
Iona Griffith, Rheolwr Gwasanaeth Plant a Theuluoedd

**Ar gyfer eitem 7 isod**

Meinir Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifygol Betsi Cadwaladr

**Ar gyfer Eitem 8 isod**

Y Cynghorydd GarethThomas, Aelod Cabinet Addysg
Gwern ap Rhisiart, Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
Eleri Llewelyn Owen, Rheolwr Prosiect

**Estynnwyd croeso i Marc Roberts, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol a Fflur Jones, Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod.**

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Dewi Owen, Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Neil Foden (Undeb Athrawon).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Peter Read yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones fuddiant personol yn Eitem 8 – Newidiadau yn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu ond ni fyddai'n gadael y Siambr oni bai bod trafodaeth benodol ynghylch anabledd dysgu yn ystod trafodaeth ar yr eitem.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2015.

## 5. GWELEDIGAETH A CHYFEIRIAD GWASANAETHAU OEDOLION I'R DYFODOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd yn amlinellu gweledigaeth a chyfeiriad newydd ar gyfer y Gwasanaeth Oedolion gan ganolbwyntio'n benodol ar faes gofal pobl hŷn.

Amlinellodd yr Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd y cefndir gan nodi bod newid enfawr i ddigwydd nid yn unig yng Ngwynedd ond drwy Gymru gyfan. Nododd bod newid cyfeiriad yn hynod bwysig ac mai gyrrwr allweddol y newidiadau ydoedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ynghyd â barn pobl hŷn am y math o wasanaethau a darpariaethau maent am eu gweld ar gyfer cyfnod eu henaint hwy. Bydd angen cynnal gwaith cynhwysfawr gyda'r defnyddwyr ac yr un pryd ni ellir anwybyddu'r toriadau cyllidol ac os am geisio amddiffyn y sefyllfa bresennol golygai arbedion ariannol mewn meysydd eraill.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(a) Trafodwyd cofrestriad deublyg yn y gorffennol ar sawl achlysur a mynegwyd pryder ynglŷn â'r drefn bresennol gyda chleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbytai i gartrefi preswyl ar gyfer gofal canolradd a'r staff heb gymwysterau priodol i warchod anghenion y cleifion. Teimlwyd ymhellach bod hyn yn fodd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gael cleifion allan o'r ysbytai ynghynt.
(b) Anfodlonrwydd bod unigolion sydd wedi gweithio a chyfrannu yn ariannol ar hyd eu bywydau yn gorfod talu am ofal a rhai eraill yn ei dderbyn yn rhad ac am ddim.
(c) Bod pobl hŷn yn awyddus i fod yn annibynnol am gyn hired â phosibl a bod eu hiechyd yn dirywio erbyn y diwedd.
(d) Cytunwyd â'r sylw uchod gan ychwanegu nad oedd yr isadeiledd yn gywir a bod unigolion yn dod at y gwasanaeth pan fyddent mewn argyfwng.

(e) Awgrymwyd y byddai o fudd i Aelodau'r Pwyllgor hwn dderbyn copi o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ynghyd â hyfforddiant ar oblygiadau'r ddeddf.
(f) Bod cynnwys yr adroddiad yn ddiystyriol ac mewn rhai rhannau yn gwamalu o safbwynt anghenion pobl hŷn
(g) Tra'n cydnabod bod egwyddorion o'r weledigaeth yn wych, rhannwyd pryder ar sut y byddir yn ei weithredu ar lawr gwlad a sut y byddir yn sicrhau atebolrwydd
(h) Tra'n cytuno bod unigolion yn awyddus i fyw yn annibynnol rhaid cydnabod bod cyfrifoldeb ar y gwasanaeth os ydynt yn dioddef hefyd ac yn y pen draw yn fwy costus
(i) Pryder nad yw meddygon ifanc yn awyddus i weithio fel meddygon teulu yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
(j) Mynegwyd bod yr angen am ddarpariaeth gofal yn cynyddu ar gyfer mewnfudwyr sy'n symud i gefn gwlad ac angen darpariaeth gofal oherwydd nad oes ganddynt gefnogaeth deuluol yn byw yn agos
(k) Bod gwasanaeth teleofal yn hanfodol i lawer o bobl hŷn
(l) Nad oedd darpariaeth gofal ysbaid digonol yn ardal Arfon a bod gwir angen darpariaeth o'r fath ar gyfer y gofalwyr
(m) Pwysigrwydd i gydweithio gyda'r trydydd sector a chyfeiriwyd at gynlluniau megis "Cynllun Ffrindiau" sydd yn ddarpariaeth lwyddiannus

Ymatebodd yr Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd a'r swyddogion i'r sylwadau uchod fel a ganlyn:

(i) Cydymdeimlir bod unigolion sydd wedi cynilo ar hyd eu hoes yn gorfod talu am ddarpariaeth ond rhaid cydymffurfio â rheoliadau deddf gwlad yn hyn o beth.
(ii) ceisir peidio gwarchod oedolion yn ormodol gyda'r canlyniad iddynt waethygu a'r syniad sydd gerbron fel rhan o'r newidiadau ydyw i oedolion fod yn fwy bywiog yn gorfforol a meddyliol / cadw'n iach ac o ganlyniad yn lleihau dirywiad i'r ymennydd
(iii) rhaid parchu dymuniadau pobl hŷn sydd yn awyddus i aros yn eu cartrefi
(iv) mai darlun o'r math o wybodaeth a gasglwyd a gyflwynir yn yr atodiadau i'r adroddiad fel enghreifftiau a cheisir pwysleisio bod rhaid ymdrin hefo achosion mewn ffurf wahanol yn sgil y newidiadau ac y byddai'r newid yn effeithio nid yn unig ar staff ond ar fudiadau'r trydydd sector
(v) bod safle gwefan Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd i roi sylw i ddymuniad yr unigolyn a bod hyn yn cydymffurfio â strategaeth "Ffordd Gwynedd"
(vi) Bod y Ddeddf yn creu newid pellgyrhaeddol a mynegwyd pwysigrwydd i warchod yr unigolion mwyaf bregus. Nodwyd ymhellach bod perygl i warchod rhai sydd ddim angen y ddarpariaeth a'i bod yn bwysig gwrando ar unigolion a darparu yn unol â'u hanghenion. Ni ellir cael unigolion yn derbyn gwasanaeth statudol cyn iddynt fod ei angen ac felly nodwyd pwysigrwydd i gael yr hafaliad yn gywir drwy warchod y rhai mwyaf bregus gyda chyfres o wasanaethau ataliol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd i bawb chwarae rôl yn Aelodau etholedig a swyddogion ac i gydweithio er mwyn llwyddo.
(vii) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn ag union ffigwr o safbwynt niferoedd gwelyau yng Nghartrefi Preswyl Gwynedd, addawyd anfon manylion yn uniongyrchol i'r Aelod ynghyd â gwybodaeth am restr aros.
(viii) Nad oedd cynllun penodol ar gyfer darpariaeth gofal ysbaid ac y byddir yn edrych ar sut gall y datblygiad gyfrannu at hyn.
(ix) Y cam cyntaf ydoedd cwblhau darn o waith "Dechrau i'r Diwedd" ac y byddir mewn sefyllfa i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu hwn ym mis Medi

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Pennaeth Dros Dro Oedolion, Iechyd a Llesiant drefnu mewn ymgynghoriad â'r Uned Hyfforddiant bod aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn yn derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

**(b) Gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno:**

**(i) manylion ynglŷn â'r cynlluniau sydd wedi eu paratoi o fewn y Cynllun Strategol i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn i'w gynnal ar 28 Gorffennaf 2015.**
**(ii) adroddiad ar y cynllun "Dechrau i'r Diwedd" i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu hwn i'w gynnal ar 22 Medi 2015.**

**6. NEWIDIADAU YN Y GWASANAETHAU ANABLEDD DYSGU**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd mewn ymateb i gyfres o gwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor Craffu yn deillio o'r newidiadau yn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu.

(b) Adroddodd yr Aelod Cabinet bod angen trawsffurfio'r gwasanaeth uchod er mwyn sicrhau bod unigolion ag anabledd dysgu yn cyrraedd eu potensial gan sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir yng Ngwynedd yn arloesol. Yn ogystal bod angen cyflwyno newidiadau sydd yn mynd i ganfod arbedion ond yn bwysicach yn gwella'r canlyniad ar gyfer yr unigolyn. Bydd y cyfathrebu a hyrwyddo'r newidiadau a sicrhau cefnogaeth a dealltwriaeth unigolion a'u teuluoedd, staff a darparwyr mewnol ac allanol yn allweddol ac yn arwain at gydweithio effeithiol tuag at gyrraedd y nod er mwyn sicrhau gwell gwasanaethau ar gyfer anghenion unigolion.

(c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Dylid pwyso am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru am gyllid i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer unigolion awtistig
(ii) Pwysigrwydd i hysbysebu rhieni / unigolion / defnyddwyr y gwasanaeth pan mai'n ofynnol i ail-drefnu cyfarfodydd
(iii) Tra'n cefnogi'r weledigaeth i hybu unigolion i fod yn annibynnol, pryderwyd am yr effaith ar lawr gwlad ac yn benodol cefnogi unigolion ag anabledd dysgu sydd yn mynd i fyd gwaith ac o ganlyniad yn colli budd-daliadau
(iv) Gofynnwyd beth mae Cyngor Gwynedd yn mynd i wneud yn sgil bod deilydd swydd (Gweithiwr Allweddol Awtistiaeth) wedi ymddiswyddo, i sicrhau bod yr unigolion gydag anabledd dysgu yn cael gwasanaeth teilwng
(v) Croesawir yr adroddiad ond nodwyd bod gwersi i'w dysgu a chyfeiriwyd at weithgareddau a gynigwyd yn flaenorol ar gyfer unigolion gydag anabledd dysgu yn benodol yn Ysgol Botwnnog â'r feithrinfa goed yng Nglyn Llifon a oedd yn rhoi hunanwerth ac yn fuddiol i'r unigolion.
(vi) Byddai toriadau i wasanaeth anableddau dysgu yn cael effaith andwyol i unigolion
(vii) Dylid annog pob Aelod i dderbyn hyfforddiant ar awtistiaeth a sut i ddelio ag unigolion
(viii) Nad oedd cyfeiriad at rieni / teuluoedd yn yr adroddiad a theimlwyd eu bod yn cael eu diystyru.

(ix) Cais i gynrychiolwyr gydag anabledd dysgu / iechyd meddwl / awtistiaeth i gwrdd â'r Pwyllgor Craffu er mwyn clywed barn a dod i ddeall a chodi ymwybyddiaeth y pwyllgor o'u hanghenion
(x) Pryder yn sgil newidiadau rhwng Gwynedd / Ynys Môn, i unigolion golli allan ar wasanaethau.

(ch) Ymatebodd yr Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd a'r swyddogion i'r sylwadau a wnaed gan Aelodau unigol fel a ganlyn:

(a) Esboniwyd bod model "Key Ring" yn un cenedlaethol ac yn caniatáu cefnogaeth hyd fraich gan wirfoddolwyr i unigolion gydag anabledd dysgu a'u bod ar gael pe byddai argyfwng yn codi. Nid oedd y cynllun yn weithredol yng Ngwynedd ond nodwyd ymhellach bod angen i fod mwy blaengar mewn cynlluniau sydd ar gael ond rhaid cofio nad yw pob un yn addas ar gyfer Gwynedd oherwydd natur ddaearyddol y Sir.
(b) Eglurwyd o safbwynt cyllid pellach i ariannu swydd Cefnogaeth a Monitro Cymunedol, cydnabuwyd bod y sefyllfa'n anodd a bod neges wedi ei anfon i Lywodraeth Cymru am wybodaeth fuan yn hyn o beth.
(c) Nodwyd ymhellach i'r uchod bod £40,000 yn cael ei drosglwyddo i Wynedd a gobeithir defnyddio rhan o'r arian ar gyfer swydd hyd at 31 Mawrth, gyda gweddill yr arian yn cael ei gyfeirio i'r gwasanaeth plant i hyfforddi staff ar sut i ymdrin â phlant ar y sbectrwm awtistiaeth. Ychwanegwyd y byddai modd mynegi barn o safbwynt y sefyllfa ariannol fel rhan o'r Gweithdai Toriadau sydd ar hyn o bryd yn mynd rhagddynt.
(d) Cydnabuwyd bod rhaid adeiladu ar gryfderau yn ogystal â pharchu barn yr unigolion wrth ddatblygu'r modelau newydd dros y tair blynedd nesaf
(e) O safbwynt asesu anghenion unigolion sy'n blant ac wedi iddynt dyfu'n oedolion, sicrhawyd bod perthynas dda iawn gyda'r Gwasanaeth Oedolion a bod sustemau mewn lle ynghyd â chanllawiau sydd yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Cyfrifoldeb y Tîm Plant yw cyfeirio plant yn 14 oed i'r Fforymau er mwyn i'r Gwasanaeth Oedolion gynllunio ymlaen ar eu cyfer. Cadarnhawyd ei bod yn anodd ymdrin ag achosion lle mae anghenion cymhleth iawn a bod angen ystyriaeth bellach oherwydd bod cyllid yn cael ei gyfeirio o ffynonellau gwahanol.
(f) Bod y Gwasanaeth Adfocatiaeth yn cynorthwyo pobl fregus i ddewis yswiriant tŷ a materion cyffelyb
(g) Bod 243 oedolion ag anabledd dysgu wedi defnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a bod grwpiau yn cyfarfod yn rheolaidd ar draws y sir
(h) Sicrhawyd bod y Tîm Allan o Oriau / Penwythnosau ar gael am bedair awr ar hugain pe byddai unigolion yn y ddalfa gan yr Heddlu
(i) Y byddir, yn dilyn ymgynghori gyda'r Gwasanaeth, yn trafod yng nghyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu ar sut orau i ymgysylltu a chwrdd defnyddwyr y gwasanaeth.
(j) O safbwynt morâl staff, bod yr ansicrwydd a phryder ynglŷn â'r dyfodol yn ymwneud fwy â'r sefyllfa ariannol yn gyffredinol yn hytrach na'r newidiadau sydd ar y gweill i'r gwasanaeth. Nododd y Pennaeth Gwasanaeth tra ei fod wedi bod yn y swydd am gyfnod byr yn unig, bod brwdfrydedd a dealltwriaeth y staff ar gyfer newid wedi ei galonogi.
(k) Cydnabuwyd nad oedd trefniadau monitro ffurfiol mewn trefn a bod angen rhoi sylw i hyn ond sicrhawyd y ceisir adnabod sefyllfaoedd os oes pryder drwy rwydweithiau'r Timau rheoli o fewn gwasanaethau unigol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Gwasanaeth ddarparu cynllun drafft er trafodaeth yng nghyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn ar drefniadau ymgysylltu gyda'r defnyddwyr i glywed eu barn.**

**7. YMCHWILIAD CRAFFU O'R YSBYTY I'R CARTREF RHAN 2**

(a) Bu i'r Is-gadeirydd gadeirio'r eitem uchod er mwyn i'r Cadeirydd, Y Cynghorydd Peter Read, gyflwyno'r adroddiad uchod a chroesawyd Meinir Williams a Ffion Johnstone o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod i ymateb i ymholiadau / sylwadau'r Pwyllgor Craffu.

(b) Cyflwynwyd adroddiad terfynol drafft gan y Cynghorydd Peter Read, Cadeirydd yr Ymchwiliad Craffu O'r Ysbyty i'r Cartref, a oedd yn canolbwyntio ar drefniadau rhyddhau a throsglwyddo cleifion o'r ysbyty i'r cartref. Diolchodd y Cadeirydd am y cydweithrediad ardderchog gyda staff y Bwrdd Iechyd ynghyd â swyddogion gwahanol Adrannau'r Cyngor a oedd wedi ychwanegu gwerth at ganlyniadau ac argymhellion yr Ymchwiliad.

(c) Nododd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu bod yr adroddiad drafft gerbron yn ffrwyth llafur yr Ymchwiliad Craffu a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Craffu hwn a thynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Bod natur yr adroddiad yn wahanol i'r arferol oherwydd yn bennaf dau adroddiad ynglŷn â darpariaeth a gwaith craffu diffygiol a ddaeth yn amlwg yn Lloegr. Derbyniwyd arweiniad i dreialu ffyrdd gwahanol o gynnal ymchwiliadau craffu i geisio uchafu llais pobl sydd yn y gwasanaeth ac fe welir o'r adroddiad bod mwy o ddadansoddi a dehongli gwahanol ddata sydd yn arwain at y prif argymhellion i'w cyflwyno i'r Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd ac i'r Bwrdd Iechyd.
- Ymddiheurwyd am hepgor cyfeiriad yn yr adroddiad at ymweliad dau aelod o'r Ymchwiliad i Ganolfan Heneiddio'n Dda yng Nghricieth

(ch) Croesawyd unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Craffu ar y prif ganfyddiadau amlinellir yn yr adroddiad ac fe nodwyd y pwyntiau isod:

1. Tra'n derbyn bod Gwynedd yn perfformio'n dda ar y cyfan o ran cymhariaeth genedlaethol ar y mesurydd **trosglwyddo cleifion** yn amserol o'r ysbyty i'r gymuned nodwyd bod problemau yn amlygu yn ystod y penwythnosau.

Mewn ymateb, eglurodd cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd bod y penwythnosau yn profi'n anodd o ran trosglwyddo cleifion yn ystod cyfnod yr haf oherwydd diffyg Gweithwyr Cymdeithasol yn yr ysbyty dros y penwythnos ond ei fod wedi gweithio'n dda yn ystod y gaeaf. Nodwyd ymhellach bod gwaith yn mynd rhagddo ar yr uchod ond bod gan y Bwrdd Iechyd fwy o sialensiau yn ymwneud â chartrefi yn methu derbyn cleifion yn ôl dros y penwythnosau oherwydd lefelau staffio ynghyd â throsglwyddo cleifion i'r ysbytai cymunedol.

2. Cydnabuwyd gan gynrychiolydd y Bwrdd Iechyd bod llunio **cynllun gofal** yn flaenoriaeth ganddi'r flwyddyn yma.

3. Yr angen am gydweithio gyda'r **Trydydd Sector** yn enwedig yn ardaloedd Dwyfor / Meirionnydd.

4. Cytunwyd bod lle i wella o safbwynt **rhyddhau claf ar y penwythnosau.**

5. Bod angen cysoni'r trefniadau a chael cynllun o safbwynt rhyddhau claf, a phecynnau iddynt fynd adref o Ysbyty Bronglais i Dde Gwynedd

6. O safbwynt **prinder meddygon teulu a nyrsys,** mynegwyd:

   - anfodlonrwydd nad oedd cydymffurfiaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o'r polisïau ysgrifenedig i'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Darganfuwyd bod protocol newydd lle rhyddheir y claf o'r ysbyty ac os yw'r claf angen gofal nyrsio mae'n ofynnol i'r unigolion sy'n gofalu chwilio, o fewn 5 diwrnod, am gartref gofal nyrsio i'r claf hefo o leiaf un gwely gwag yn un o'r cartrefi er efallai nad yw yn gartref o ddewis cyntaf y claf.
   - Beth ydoedd criteria a chymwysterau'r staff nyrsio o safbwynt gofal canolradd mewn cartrefi preswyl?
   - Pryder nad yw staff yn yr ysbytai yn ymwybodol o'r polisi rhyddhau.
   - Pryder nad oedd nyrsys yn mynd i gartrefi preswyl mewn rhai ardaloedd ac nad oedd meddygon ar gael ychwaith ac yn ddibynnol ar locwm sydd ddim yn adnabod y cleifion.
   - A yw'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio gyda'r Colegau ar gyfer recriwtio meddygon teulu / nyrsys
   - Bod yr awdurdod wedi cefnogi i gael Uned Hyfforddi Meddygon yn y Brifysgol ond fe ddargyfeiriwyd yr arian a oedd wedi ei glustnodi gan Lywodraeth Cymru
   - Pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg o safbwynt bod claf yn cael dewis yr iaith maent yn hyderus ynddo

   Ymatebodd cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd i'r uchod drwy esbonio:

   - bod y polisi rhyddhau yn un cenedlaethol a bod y Bwrdd Iechyd yn cael amser caled i sicrhau bod claf yn cael y gofal iawn unwaith maent allan o'r ysbyty. Nodwyd dros Ogledd Cymru bod gwelyau cartrefi preswyl a nyrsio yn cau yn wythnosol a bod y sefyllfa yn argyfyngus. Noda'r polisi os yw'r claf yn awyddus i fynd i gartref nyrsio am dymor hir mae'n ofynnol iddynt fynd i ysbyty cymunedol. Cydnabuwyd nad oedd yn hawdd ymateb i'r sefyllfa ond dymunir bod claf yn cael y ddarpariaeth o'u dewis.
   - bod asesiad o'r claf yn cael ei gwblhau o safbwynt anghenion nyrsio neu ofal preswyl. Mewn rhai achlysuron lle nad oes angen cymaint o ofal nyrsio, gall nyrsys y gymuned fod o gymorth ond yn sicr rhaid cael cynllun i gwrdd ag anghenion gofal y claf.
   - Bod y Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â meddygon Dwyfor / Meirionnydd ac wedi penderfynu defnyddio ychydig o arian ar gyfer recriwtio mewn dull gwahanol i geisio denu meddygon ifanc gyda'r addewid i'w datblygu i arbenigo mewn gwahanol feysydd boed hyn yn arbenigedd gofal a / neu gweithio hefo ymgynghorwyr arbenigol. Ar gyfer nyrsys, hyderir y gallent weithio ar y cyd gyda rhai yn yr ardal ac eraill yn y feddygfa teulu. Sicrhawyd bod y mater uchod yn flaenoriaeth i geisio denu mwy o rhai ifanc i'r ardal.

7. Cytunwyd bod gormod o **fiwrocratiaeth** ond ychwanegodd cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd bod cydweithio da yn lleol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y ddau gorff yn herio ei gilydd. Hyderir drwy "Ffordd Gwynedd" y gellir gwaredu'r fiwrocratiaeth a rhoi'r claf yn ganolog.

(d) Tynnwyd sylw at brif argymhellion yr Ymchwiliad Craffu fel amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe nodwyd y sylw ychwanegol canlynol:

- Bod angen cryfhau'r argymhelliad yn ymwneud â phrinder meddygon a nyrsys oherwydd bod y sefyllfa'n argyfyngus a phryderwyd bod myfyrwyr yn tueddol i astudio meddygaeth yn Lloegr ac o ganlyniad yn aros yno wedi cymhwyso

(dd) Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr weithredu ar yr argymhellion drwy lunio Cynllun Gweithredu ar y cyd erbyn mis Gorffennaf 2015 gyda disgwyliad am adroddiad cynnydd ym mis Ionawr 2016.

(e) Mewn ymateb, diolchodd yr Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd am yr adroddiad gan nodi mai'r ffordd orau ymlaen ydoedd i'w gyfeirio at y Fforwm Sirol i gael sylw. Ychwanegodd cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd y byddir yn anodd darparu Cynllun Gweithredu erbyn Gorffennaf oherwydd nad oedd y Fforwm Sirol yn cwrdd yn fuan. Byddir yn trafod amserlen gytunedig o safbwynt y Cynllun Gweithredu yn y Fforwm Sirol. Cadarnhawyd yn ogystal y byddir yn gwahodd y Cynghorydd Peter Read, Cadeirydd yr Ymchwiliad Craffu, ynghyd â'r Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu i'r cyfarfodydd. Mewn ymateb i ymholiad ynglyn ag aelodaeth y Fforwm Sirol, esboniwyd ei fod wedi ei gyfyngu o ran niferoedd rhag iddo fynd yn anferth o faint ac ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar drawsnewid y gwasanaeth pobl hŷn ond sicrhawyd petai eitemau penodol ynglyn ag iechyd meddwl / anabledd dysgu fe wahoddir aelodau ac arbenigwyr yn ôl y galw.

(f) Er gwybodaeth bellach, nododd:

- y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod ynghyd â'r Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd yn gwasanaethu ar Fwrdd Iechyd Canolbarth Cymru ac y byddai modd ymateb rhai o'r argymhellion drwy gydweithrediad y Bwrdd hwnnw.
- Y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu bod trefniadau yn mynd rhagddynt i gynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu hwn ym mis Gorffennaf i drafod ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Bwrdd Iechyd

Diolchwyd i'r Ymchwiliad Craffu am ei gwaith ac yn benodol i'r Cynghorydd Peter Read a'r Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu a'i dim am arwain yr ymchwiliad.

**Penderfynwyd:** **(a)** **Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b)** **Cymeradwyo:**

**(i)** **Yr argymhellion amlinellir yn adroddiad yr Ymchwiliad Craffu o'r Ysbyty i'r Cartref ynghyd â'r sylwadau wnaed yn (ch) a (d) uchod.**

**(ii)** **I gyflwyno adroddiad terfynol i'r Aelod Cabinet Oedolion, ac Iechyd, Oedolion ac Iechyd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer gweithredu'r argymhellion drwy lunio Cynllun Gweithredu ar y cyd erbyn amserlen i'w gytuno gan y Fforwm Sirol.**

## 8. DIWEDDARIAD – ADOLYGIAD STRATEGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD

(a) Cyflwynwyd diweddariad cryno gan yr Aelod Cabinet Addysg yn deillio o'r adolygiad yn y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad.

(b) Eglurodd yr Aelod Cabinet Addysg bod cynnydd da wedi ei gyflawni gyda chefnogaeth i'r adolygiad. Er hynny, roedd o'r farn bod angen cyflawni mwy o waith o safbwynt cyflwyno eglurder i'r gweithlu ynglyn â'r model. Roedd bwriad i gyflwyno adroddiad i'r Cabinet ym mis Mehefin ond teimlwyd bod yr amserlen yn gynamserol a bellach bwriedir cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ym mis Medi 2015. Yn y cyfamser, nodwyd bod cyfarfod arbennig wedi ei drefnu ar 11 Mehefin 2015 gyda gwahoddiad wedi ei estyn i aelodau'r Grŵp Tasg Anghenion Dysgu Ychwanegol (a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau) ynghyd ag aelodau Gwynedd o'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a rhai o Aelodau'r Cabinet. Nodwyd ymhellach bod dyddiad wedi ei bennu ar gyfer 15 Mehefin 2015 i'r Grwp Tasg Anghenion Dysgu Ychwanegol i ystyried unrhyw sylwadau pellach y dymunent drafod yn deillio o'r cyfarfod ar 11 Mehefin.

(c) Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Addysg bod adolygiad y strategaeth yn amserol a bod angen rhoi sylw i'r tair elfen isod:

- Uwchsgilio athrawon i ddarparu ar gyfer anghenion y disgyblion er mwyn gwneud gwahaniaeth
- Cydweithio gyda rhieni i'w galluogi i gynorthwyo mewn rhyw fodd
- Cefnogi'r plant ar lawr y dosbarth

(ch) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod o ran niferoedd a fynychwyd y ffeiriau gwybodaeth ac mai siomedig oedd y presenoldeb, nodwyd bod cyfuniad o resymau am hyn.

(d) O safbwynt aelodaeth y Grwp Tasg Anghenion Dysgu Ychwanegol, cymeradwywyd i'r Cynghorydd Gweno Glyn barhau yn aelod yn dilyn ei hymadawiad diweddar o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Cymeradwyo i'r Cynghorydd Gweno Glyn barhau yn aelod ar y Grwp Tasg Anghenion Dysgu Ychwanegol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 12.45 p.m.

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **22 Medi 2015** |
| **TEITL YR EITEM** | **Cynllun TRAC** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| | |

**1. Cyflwyniad & Chefndir TRAC**

1.1 Mae TRAC yn gynllun sy'n cael ei harwain gan y 6 awdurdod lleol ar gyfer darparu y sgiliau a'r gefnogaeth addas i ddisgyblion a phobl ifanc mwyaf bregus y sir. Gwneir hyn ar gyfer harfogi'r garfan i lwyddo a chyrraedd eu potensial mewn addysg, hyfforddiant neu gwaith ac felly yn lleihau'r niferoedd NEET ac y rhai mewn peryg o fod yn NEET yn y Rhanbarth.

1.2 Cyngor Sir Dinbych yw'r corff arweiniol parthed rheolaeth a monitro cynllun busnes rhanbarthol ac yn gyswllt uniongyrchol gyda swyddogion WEFO ar ran y 6 awdurdod lleol. Mae'r cynllun TRAC wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Sgiliau & Chyflogaeth Rhanbarthol ac hefyd wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru.

1.3 Bydd TRAC yn cael ei gyllido trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (West Wales and the Valleys Programme, Priority Axis 3(Youth Employment and Attainment), Specific Objective 2 (Reducing the number of young people aged 11-24 at highest risk of becoming NEET).

1.4 Anelir i gychwyn y cynllun Medi 2015 hyd at Awst 2018 gyda'r posibilrwydd o ymestyniad hyd at Awst 2020.

1.5 Nod y cynllun fydd "mabwysiadu dull weithredu o adnabod disgyblion bregus yn gynnar ac ymateb i'w anghenion trwy ddarparu cwricwlwm a chefnogaeth addas ar eu cyfer."

1.6 Mae'r cynllun TRAC rhanbarthol / AL yn gorfod ymateb i ofynion penodol sydd wedi ei nodi o fewn Y Fframwaith Ymgysylltu & Datblygu Ieuenctid ( YEPF). Mae'r fframwaith yn rhoi rôl strategol ac allweddol i awdurdodau lleol i gynllunio , datblygu a gweithredu systemau ar gyfer sicrhau bod pobl ifanc yn ymgysylltu'n well mewn addysg, hyfforddiant, gwaith. Mae'r cynllun TRAC yn cyfrannu at dargedau canlynol yn y fframwaith:

- Nifer y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 9% erbyn 2017.
- Cyfran bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru o gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd erbyn 2017.

1.7 Mae prosiect TRAC Gwynedd yn yr ysgolion wedi ei anelu at ddysgwyr ym mlynyddoedd 7-13 sydd wedi eu hadnabod fel y rhai sydd yn fwyaf agored i golli diddordeb mewn addysg. Disgwylir bydd gan y dysgwyr hyn anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â'u problemau cymdeithasol, ymddygiad, anghenion addysg yn ogystal ag lles emosiynol ac iechyd meddwl. Trwy alluogi dysgwyr i gael mynediad at gefnogaeth a darpariaeth / rhaglenni amgen wedi eu teilwra, bydd TRAC yn ail-ennyn diddordeb ac yn ysgogi dysgwyr, cynyddu hyder a hunan-barch dysgwyr, a hybu dyheadau dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial o ran dysgu, ac felly leihau'r perygl iddynt ddod yn NEET. (dim mewn addysg/hyfforddiant/gwaith).

1.8 Mae nifer fach o ddisgyblion yng Ngwynedd sydd allan o addysg prif lif ar ddiwedd blwyddyn 11 oherwydd nifer o ffactorau gwahanol gan gynnwys gwaeledd. Bydd y cynllun hwn yn darparu mwy o gyfleuoedd a chefnogaeth i'r disgyblion yma mewn ymgais i leihau'r nifer o ddisgyblion sydd yn dadrithio.

## 2. System Adnabod y Grŵp Targed & Chyfeirio i TRAC:

2.1 Caiff y grŵp targed eu hadnabod trwy 2 gam (gweler tabl isod).


2.2 Cam 1 yw System Adnabod Cynnar (SAC) yr Awdurdod Lleol (AL). Mae Gwynedd ac Ynys Môn wedi datblygu System Adnabod Gynnar drwy ddefnyddio set o ddangosyddion sydd yn systematig yn adnabod y dysgwyr hynny sydd yn wynebu'r perygl mwyaf o ymddieithrio oddi wrth addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae'r system wedi ei rhedeg ymhob ysgol uwchradd yn ystod 2014-15 a bellach mae pob awdurdod ar draws y gogledd wedi mabwysiadu'r system.

2.3 Mae'r system yn cael ei liwio gan ddata sydd ar gael yn barod drwy SIMS, ac mae'r 6 ALI ar draws y rhanbarth wedi comisiynu cwmni CAPITA i roi'r system ar fas data'r adran addysg sef ONE. Bydd hyn yn sicrhau bod gan yr awdurdod rheolaeth lawn yn nhermau adnabod a monitro'r grwp targed.

2.4 Mae'r System Adnabod Gynnar (SAC) yn rhan o broses fydd yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion a'r awdurdod , er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth / darpariaeth ychwanegol / arbenigol cyn iddynt gyrraedd y cyfnod trosglwyddo ôl 16. Bwriedir i'r system adnabod gynnar drwy'r Rheolydd Ymgysylltu gael ei ddefnyddio i gefnogi

partneriaid i ddatblygu ymyriadau mwy perthnasol ac effeithiol yn ogystal â nodi bylchau mewn darpariaeth leol.

2.5 Bydd ysgolion, AL a'r Rheolydd Ymgysylltu hefyd yn defnyddio gwybodaeth ychwanegol a gaiff ei ganfod trwy gyfrwng dull partneriaethau amlasiantaethol (Paneli Mynediad Ardal) ac mae hwn yn ffurfio Cam 2 o'r broses o adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o beidio ymgysylltu ôl 16 a cholli diddordeb:




2.6 Nifer grŵp targed ar gyfer y cynllun yw 480 o ddysgwyr.

## 3. <u>Sefyllfa Bresennol:</u>

### 3.1 <u>Darpariaeth Bresennol</u>

Ar hyn o bryd, caiff dysgwyr sydd mewn perygl o golli diddordeb ystod o gefnogaeth ac ymyriadau trwy gyfrwng y ddarpariaeth prif lif canlynol:

1. Gweithwyr Ieuenctid mewn nifer fechan o ysgolion uwchradd
2. Cwnsela wedi ei leoli mewn ysgol
3. Gwasanaethau Lles Addysg
4. Rhaglen Profiad Gwaith Estynedig wedi ei chyd-gomisiynu gyda Llywodraeth Leol Ynys Môn
5. Cwricwlwm Amgen 14-19
6. Unedau cynhwysiad o fewn ysgolion uwchradd
7. Swyddog Cynhwysiad Cymdeithasol
8. Mentrau Grant Amddifadedd Disgyblion

3.2 Fodd bynnag, nodwyd trwy ymgynghori/mapio gydag ysgolion uwchradd yn ogystal a thrafodaethau ac phartneriaid allweddol , bod cefnogaeth ychwanegol ac ymyriadau'n hanfodol, ond nad ydynt ar gael ar gyfer carfan sylweddol o ddysgwyr sydd wedi ymddieithrio. Tra'n elwa o'r mentrau uchod, mae arnynt angen cefnogaeth bellach un i un sydd wedi ei deilwra oherwydd y math o rwystrau maent yn eu hwynebu yn sgil eu profiadau bywyd anhrefnus, problemau emosiynol a problemau iechyd meddwl.

3.3 Mae trefn cyllido o flwyddyn academaidd 2015/16 ymlaen yn golygu gostyngiad yng nghyllidebau'r awdurdod a'r grantiau sy'n targedu'r disgyblion bregus megis Rhwydwaith 14-19. O ganlyniad i hyn, mae'n dwysau'r angen i TRAC allu gynllunio'n gydlynus gyda holl adrannau ac asiantaethau sy'n cynnig darpariaeth i'r disgyblion yma. Bydd TRAC yn gwneud hyn drwy'r elfennau allweddol o fewn y fframwaith ymgysylltu (YEPF);

**System Adnabod Cynnar (SAC)**

- Defnyddio system safonol & chyson ar draws y sir /rhanbarth ar gyfer adnabod y disgyblion mwyaf bregus trwy'r SAC, cynllun Pass ynghyd a gwybodaeth broffesiynnol.

**Broceriaeth**

- Broceru a chydlynu'r gwasanaethau a'r darpariaethau addas ar gyfer dysgwyr drwy tim TRAC canolog.
- Sefydlu Paneli Mynediad Ardal

**Tracio**

- Monitro, adrodd a thystiolaethu mwy cadarn mewn cynnydd, data a chanlyniadau dysgwyr trwy'r SAC a'r Paneli Mynediad Ardal.
- Sefydlu system tracio yn ystod cyfnod trosglwyddo cyn 16 i ôl 16 .

**Darpariaeth**

- Bydd TRAC yn ffocysu ar 3 elfen penodol o ddarpariaeth

  1. Cyfoethogi'r Darpariaeth Cwricwlwm Amgen  drwy'r fframwaith lleol.
  2. Ehangu'r Pecyn Cefnogi
  3. Cefnogi'r broses yn ystod adegau pontio

**Atebolrwydd**

- Mae'r Cynllun TRAC yn cael ei arwain ac ei rheoli o fewn gwasanaethau addysg.
- Bydd trefniadau atebolrwydd yn digwydd ar lefel lleol a rhanbarthol.
- Mesuryddion llwyddiant

**Cynaliadwyaeth**

- Cyflawni rhaglen uchelgeisiol ar gyfer parhau a datblygu'r gwasanaeth ôl nawdd Ewropeaidd 2018-2020 i barhau gyda'r cynllun
- Datblygu protocolau ac  systemau aml asiantaethol ar gyfer rhannu adnoddau a rhoi gwerth am arian.
- Buddsoddi mewn systemau sydd yn gallu cael eu cynnwys o fewn darpariaeth prif lif.
- System Adnabod Cynnar yn rhan o systemau prif lif yr awdurdod/ysgolion

4. Canlyniadau y Cynllun TRAC:

| Allbwn | Targed |
|---|---|
| **Nifer o gyfranogwyr mewn risg o fod yn NEET (11-24)** | 480 |
| | |
| **Nifer o gyfranogwyr mewn risg o fod yn NEET (11-24) – Gwrywaidd** | 244 |
| | |
| **Nifer o gyfranogwyr mewn risg o fod yn NEET (11-24) – Benywaidd** | 236 |
| | |
| Cyfranogwyr oed 11-13 | 180 |
| | |
| Cyfranogwyr oed 14-16 | 255 |
| | |
| Cyfranogwyr oed 16-19 | 45 |
| | |
| O dan Lefel 2 (NQF)<br>(Sgiliau Sylfaenol & Lefel 1) | 175 |
| | |
| Lefel 2 | 45 |
| | |
| Cyfranogwyr yn Ennill Canlyniadau Cadarnhaol eraill | 270 |
| | |
| Cyfranogwyr gydag anabledd / Cyflwriechyd sy'n cyfyngu ar waith | 26 |
| | |
| Ymfudwyr / BME / Lleiafrifoedd | 18 |
| | |
| Cyfranogwyr gyda cyfrifioldebau gofal / gofal plentyn | 10 |
| **Canlyniadau (o fewn 4 wythnos o adael)** | |
| **Nifer o gyfranogwyr mewn risg o fod yn NEET (11-24) yn ennill cymwysterau wrth adael .** | 72 |
| | |
| **Nifer o gyfranogwyr mewn risg o fod yn NEET (11-24) mewn addysg neu hyfforddiant wrth adael** | 215 |
| | |
| **Nifer o gyfranogwyr mewn risg llai o fod yn NEET wrth adael** | 238 |

5. Cyllid Cynllun TRAC:

| Penawd Gwariant | Cyfanswm Gost | Arian Cyfatebol | Swm Grant |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau Dynol** | 24,794.66 | 0.00 | 24,794.66 |
| **Marchnata** | 6,000.00 | 0.00 | 6,000.00 |
| **Costau Cyffredinol** | 219,728.48 | 194,416.69 | 25,311.79 |
| **Costau Rheoli Rhanbarthol** | 39,934.32 | 3,427.24 | 36,507.08 |
| **Staff** | 1,464,856.51 | 439,888.51 | 1,024,968.00 |
| **Hyfforddiant (Cyrsiau Disgyblion)** | 223,617.47 | 0.00 | 223,617.47 |
| **Cludiant a Theithio** | 78,270.00 | 0.00 | 78,270.00 |

**Cyfanswm Gwariant** 2,057,201.44

**Arian Cyfatebol** 637,732.44
**Grant** 1,419,469.00

**Cyfradd Ymyrraeth** 69.00

| | |
|---|---|
| **ENW’R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **22 Medi 2015** |
| **TEITL YR EITEM** | **Amodau Arweinyddiaeth a Modelau Amgen** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Gareth Thomas** |
| | |

**Prosiect Gwella Amodau Arweinyddiaeth – Papur Briffio**

**1 Cefndir, egwyddorion a gweledigaeth**

1.1 Pwrpas y Prosiect uchod yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Bydd y prosiect yn gweithredu ar gynigion fydd yn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda’r bwriad o anelu tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt.

1.2 Yn y dyfodol, bydd gwell ansawdd o ran arweinyddiaeth o fewn ysgolion y sir. Yn ogystal, bydd strwythur gyrfa mwy eglur yn ei le ar gyfer athrawon. Bydd hyn yn allweddol os am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn elwa o safonau mwy cyson yn ein hysgolion. Bydd effaith arweinyddiaeth yn cael effaith positif ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc o fewn y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd.

1.3 Mae gan y prosiect hwn bum maes penodol, sef:

- Comisiynu adroddiad ar amodau arwain a rheoli ysgolion y sir a gweithredu ar yr argymhellion cytunedig;
- Monitro a herio pob ysgol a defnyddio’r holl bwerau sydd ar gael i’r awdurdod wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy’n tanberfformio;
- Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol;
- Datblygu cyfundrefn ysgol i ysgol rymus a sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn rhannu arfer gorau i osgoi dyblygu; a
- Sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf yn arwain at wella amodau arweinyddiaeth a rheolaeth.

1.4 Diben y papur briffio hwn yw adrodd i’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar fwriadau’r Adran Addysg mewn perthynas â’r maes cyntaf yn benodol, sef ‘Comisiynu adroddiad ar amodau arwain a rheoli ysgolion y sir a gweithredu ar yr argymhellion cytunedig’. Mae hyn mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau am wybodaeth benodol ynglŷn â:

- Beth yw'r problemau presennol o ran recriwtio ac arwain ysgolion ac addysgu mewn meysydd arbenigol yn y sir?
- O fod wedi derbyn gweledigaeth lefel uwch y Pennaeth, beth, yn ymarferol, yw'r cynigion penodol ar gyfer cyfarch yr her yn y maes (ar gyfer arwain ysgolion a dysgu mewn meysydd arbenigol)?

- A yw'r cynlluniau 'Ysgol-i-Ysgol' a phatrymau rhannu penaethiaid am fod yn 'norm' ar gyfer y sir i'r dyfodol?
- O fewn y weledigaeth ar gyfer y dyfodol, beth fydd y camau nesaf ar gyfer Trefniadaeth Ysgolion. Yn benodol, beth yw'r sefyllfa o ran y Gweithgor Trefniadaeth Ysgolion?

**2 Y sefyllfa bresennol a'r camau nesaf**

2.1 Mae cyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal (16 Mehefin – Alun Morgan a Leyton Jones (ymgynghorwyr annibynnol sydd â phrofiad rhyngwladol), Arwyn Thomas a Garem Jackson) i drafod diben, cynnwys ac amserlen y gwaith, ac mae Alun Morgan a Leyton Jones wedi cytuno i wneud y gwaith ar ran Gwynedd.

2.2 Mae Arwyn Thomas a Garem Jackson wedi cynnal cyfarfodydd pellach i drafod gofynion a strwythur y gwaith a chwblhau'r fanyleb, a'i thrafod gyda Alun Morgan a Leyton Jones.

2.3 Mae Swyddog Cefnogi'r Adran Addysg a'r Arweinydd Tîm Uned Cyflogau a Chontractau Ysgolion wedi cydweithio i gynhyrchu pecyn data (nifer disgyblion, strwythurau timau rheoli a.y.y b.) i Alun Morgan a Leyton Jones er mwyn cwblhau gwaith cychwynnol ac adnabod ysgolion i'w targedu ar gyfer ymholiadau/ymweliadau.

2.4 Ymholiadau/ymweliadau i ddigwydd fel a ganlyn, gydag adroddiad ac argymhellion i'r Adran Addysg erbyn Tachwedd:

- **Hydref 7-9:** cyfarfod gyda swyddogion ALl, ac ymweld ag ysgolion uwchradd gydag arfer da iawn (Ysgol Y Moelwyn, Ysgol Dyffryn Ogwen).
- **Hydref 12-15:** cyfarfod gyda sampl o benaethiaid adrannau craidd (mewn ysgolion), a chyfarfod gyda phenaethiaid grwpiau clwstwr ysgolion uwchradd gyda llai na 500 o ddisgyblion.
- **Hydref 20-21:** bwriedir cyfweld yr Arweinydd/Prif Weithredwr/Aelod Cabinet/**Aelod(au) o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau**/UDRh ALl/UDRh Consortiwm.

2.5 Bydd yr adroddiad yn fodd i ymateb i'r tri chwestiwn cyntaf sydd yng nghais y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau am wybodaeth benodol, sef:

- Beth yw'r problemau presennol o ran recriwtio ac arwain ysgolion ac addysgu mewn meysydd arbenigol yn y sir?
- O fod wedi derbyn gweledigaeth lefel uwch y Pennaeth, beth, yn ymarferol, yw'r cynigion penodol ar gyfer cyfarch yr her yn y maes (ar gyfer arwain ysgolion a dysgu mewn meysydd arbenigol)?
- A yw'r cynlluniau 'Ysgol-i-Ysgol' a phatrymau rhannu penaethiaid am fod yn 'norm' ar gyfer y sir i'r dyfodol?

2.6 Byddai Alun Morgan a/neu Leyton Jones yn croesawu'r cyfle i gyfweld aelod neu aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau fel rhan o'u hymchwil. **Bydd cyfle hefyd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau gynnig cwestiynau i'w cynnwys yn yr ymchwil yn y cyfarfod a gynhelir ar 22 Medi.**

2.7 Mae’r fanyleb ar gyfer y gwaith ymchwil yn cynnwys yr hyn a restrir isod:

- Arfarnu patrymau gwahanol o ysgolion;
- Effaith maint dosbarthiadau ar ddysgu;
- Sylw penodol i unrhyw effaith cadarnhaol y mae ysgolion neu adeiladau newydd yn ei gael ar safonau a deilliannau;
- Edrych i mewn i enghreifftiau o gydweithio strategol sydd wedi gweithio’n dda, ac enghreifftiau o gydweithio na fu’n llwyddiannus, a pham;
- Ymchwilio i unrhyw batrwm o ran y math/maint o sefydliadau sy’n cael eu dyfarnu fel rhai cryf o ran arweinyddiaeth gan Estyn, ac unrhyw batrwm tebyg gyda chategorïau cynhaliaeth Yr Awdurdod/GwE;
- Cyd-destun yr ysgolion, sef:
  - Nifer plant/ysgolion;
  - Penaethiaid – nifer/oedran;
  - Timau rheoli – nifer/oedran; a
  - Llywodraethwyr;
- Trefniant yr isadeiledd presennol;
- Cyllideb sirol;
- Darlun o’r amodau presennol;
- Casgliadau, sef:
  - Amodau newydd posibl;
  - Patrymau arwain gwahanol; a
  - Rhaglen hyfforddi penaethiaid a darpar benaethiaid.

2.8 Cyflwynir y wybodaeth isod mewn perthynas â’r pedwerydd cwestiwn sydd yng nghais y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau am wybodaeth benodol, sef:

- O fewn y weledigaeth ar gyfer y dyfodol, beth fydd y camau nesaf ar gyfer Trefniadaeth Ysgolion. Yn benodol, beth yw'r sefyllfa o ran y Gweithgor Trefniadaeth Ysgolion?

2.9 Dyfodol y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion:

Ers 2012, mae'r Rhaglen wedi gwireddu'r rhaglen waith a osodwyd gan y Cabinet, sef:

- Gwneud gwaith cefndirol a datblygu modelau darparu addysg;
- Sicrhau cwblhau’r prosesau statudol perthnasol trwy ymgysylltu ac ymgynghori; a
- Denu adnoddau cyfalaf wrth greu achosion busnes a chyfraniadau gan y Llywodraeth.

Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Rhaglen wedi:

- denu dros £18.9m o arian cyfalaf oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- sicrhau arbedion o £430,000 eisoes (gydag arbedion pellach, o leiaf £365,000, o brosiectau sydd yn cael ei gwireddu ar hyn o bryd);
- ymateb i’r her a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â llefydd gweigion; a

- sicrhau fod pob cais a gyflwynwyd i'r Llywodraeth wedi'i gymeradwyo. Mae’r Awdurdod wedi llwyddo, gyda’i holl achosion busnes, i ddenu bron i £39 miliwn er gwella cyfundrefn addysg y Sir.

Dywedodd adolygiad annibynnol Tîm *Gateway* yn Nhachwedd 2014, “Canfu’r Tîm Adolygu bod y Rhaglen wedi gwneud cynnydd rhagorol tuag at gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer ad-drefnu ysgolion yng Ngwynedd.
Y strategaeth ar gyfer gweddill y Rhaglen bydd gofalu fod y llwyddiant hyd at hyn yn parhau yng nghyd-destun ariannol heriol iawn. Mae trefniadaeth ysgolion wedi'i hadnabod fel ffrwd gwaith a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at dargedau’r Adran. Bydd hefyd yn gwella’r amgylchedd ar gyfer penaethiaid fel eu bod yn medru rheoli ac arwain mewn ffordd effeithiol, ac yn gallu canolbwyntio ar wella profiadau disgyblion.

2.10 Camau Nesaf:

Prosiectau cyfredol y Rhaglen sydd ar y gweill:

- Ysgol Bro Llifon: mae'r gwaith wedi ei gwblhau yn unol â’r amserlen. Agorwyd yr ysgol newydd am y tro cyntaf ym Medi.
- Ysgol Hafod Lon, Dalgylch y Gader ac Ysgol Glangegin: mae gwaith wedi dechrau ar safle ysgol Hafod Lon newydd a bydd gwaith yn dechrau’n fuan ar safleoedd prosiectau Dalgylch y Gader a Glancegin.
- Dalgylch y Berwyn: bydd adroddiad yn mynd ger bron y Cabinet ar 15/09/15 yn ymwneud â dyfodol Dalgylch y Berwyn sy’n cynnwys buddsoddiad arfaethedig o £10.27 miliwn yn yr ardal.

Bydd y broses ad-drefnu yn parhau i wella effeithlonrwydd ysgolion y Sir. Mae’r Rhaglen yn parhau i geisio cyfrannu'n effeithiol at yr arbedion angenrheidiol a adnabuwyd ar gyfer yr Adran Addysg; proses fydd hefyd yn sicrhau gwell adnoddau ar gyfer addysg plant a phobl ifanc Gwynedd.

Cynllun Band B Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain:

Mae’r Llywodraeth yn cychwyn ar waith cefndirol i gynllunio Band B – ffenestr gyllido nesaf Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer y cyfnod 2019 i 2024. Nid yw’r union ddyddiad cychwyn ar gyfer Band B wedi'i gyhoeddi gan y Llywodraeth ac mae posibilrwydd y gall ddechrau cyn 2019. Bydd union ffigwr ar gyfer y Sir yn amodol ar gynlluniau i’r dyfodol a faint o gyfraniad a ddisgwylir gan lywodraeth leol fel rhan o’r Rhaglen. Ond, bydd angen manteisio ar y cyfleoedd hyn i sicrhau gwelliant i’n hysgolion, ond hefyd elwa drwy sgil-effaith y buddsoddiad i’r economi leol. Bydd angen sicrhau fod gan y Cyngor gynhwysedd, dealltwriaeth a phrofiad o gyfundrefnau ariannu’r llywodraeth er mwyn sicrhau’r buddsoddiad gorau i Wynedd yn y dyfodol.

2.11 Gweithgor Trefniadaeth

Sefydlwyd y Gweithgor Trefniadaeth ar ddechrau'r Rhaglen er mwyn derbyn cyngor eang ynglŷn â'r cyfeiriad a sgôp y gwaith. Mae'r Gweithgor wedi ymweld â safleoedd a rhoi mewnbwn sydd wedi cynorthwyo gyda'r broses o lywio'r Rhaglen a datblygu cynlluniau gweithredol cynhwysfawr. Erbyn hyn, gan adeiladu ar y gwersi sydd wedi'u dysgu, mae'r ddealltwriaeth o waith strategol a gweithredol y Rhaglen yn llawer mwy aeddfed. Felly, mae rôl wreiddiol y Gweithgor bellach wedi'i gyflawni.

Bydd yr ymchwiliad yn:

i. manylu ar weithrediad Polisi Iaith yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.
ii. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisïau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.
iii. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg"* ymhob ysgol.
iv. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*"

Mae'r Pennaeth Addysg wedi dweud wrthym fod disgwyl i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu polisi iaith yr ysgol yn rheolaidd. Pwysleisiodd mai cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y polisi iaith. Nodwyd bod 5 carfan o blant o fewn gweithrediad y polisi a'r nod ydoedd cael pob plentyn yng ngharfan A - disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Cwestiynau ar gyfer Penaethiaid Ysgolion Uwchradd**

1. Diffiniwch eich ysgol yn ieithyddol

2. Eglurwch y rhwystrau i wella diffiniad yr ysgol yn ieithyddol
    a. O adnabod y rhwystrau, sut gall yr awdurdod eich cefnogi chi, yr ysgol a'r gymuned?

3. Polisi'r Ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol
    i. Eglurwch sut yr ydych wedi rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn y Cynllun Datblygu Ysgol?
    ii. Eglurwch pa mor aml ydych yn adolygu polisi iaith yr ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol?
    iii. Eglurwch i ni sut ydych yn mynd ati i adolygu polisi iaith yr ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol, gan egluro'r gwaith cefndir ar gyfer yr adolygiadau.
    iv. Eglurwch pwy sydd yn adolygu polisi iaith yr ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol?
    v. Eglurwch sut mae'r gwahanol bobl yn cymryd rhan yn yr adolygiadau hyn?

4. Rolau
    a. Eglurwch sut ydych yn sicrhau bod gan y canlynol rolau clir?
        i. llywodraethwyr,
        ii. athrawon,
        iii. rhieni a
        iv. staff

| HAF 2013 - Tracio Lefelau CA3 (disgyblion B9) – disgyblion fu yn y canolfannau iaith | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 6 | Lefel 7 |
| Dolgellau | | | 2 | 6 | 2 | 6 wedi gadael |
| Llangybi | 1 | 1 | 1 | 8 | 3 | 1 |
| Maesincla | | 2 | 1 | 8 | 2 | |
| Penrhyndeudraeth | | 1 | 2 | 5 | 3 | |
| **HAF 2013 - Tracio Lefelau CA3 (disgyblion B9) – disgyblion fu yn y canolfannau iaith (ail iaith)** | | | | | | |
| | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 6 | |
| Dolgellau | | | | | | |
| Llangybi | | | | | | |
| Maesincla | | | | | | |
| Penrhyndeudraeth | | 1 | 1 | 1 | | |

**TGAU 2014 – Cefn Coch**

Iaith Gyntaf

| A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 7 | 5 | 4 | 1 |

Ail Iaith

| A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | 1 | | | |

**TGAU 2014 – Llangybi**

Iaith Gyntaf

| A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 1 | 4 | 4 | 2 | 0 |

**ATODIAD 19**

| NIFEROEDD DISGYBLION CANOLFAN IAITH UWCHRADD GWYNEDD<br>Haf 2013, Hydref 2013 a Gwanwyn 2014 | | | |
|---|---|---|---|
| TYMOR | **HAF 2013** | **HYDREF 2013** | **GWANWYN 2014** |
| **BLWYDDYN 7** | **3** | **2** | **6** |
| **BLWYDDYN 8** | **7** | **4** | **4** |
| **BLWYDDYN 9** | **6**<br>**Blwyddyn 10- 1** | **7** | **2**<br>**Blwyddyn 11 - 1** |
| Cyfanswm | **17** | **13** | **13** |
| | | | |
| **Cyfanswm Haf 2013, Hydref 2013, Gwanwyn 2014:** | | | |
| Nifer sesiynau | 1 | 1 | 1 |

| Niferoedd disgyblion Haf a Hydref 2014 + rhestr aros | |
|---|---|
| Haf 2014 | **6** |
| Hydref 2014 | **16** |
| Gwanwyn 2015 | |

| NIFER + CANRAN YMATEBION PENAETHIAID YSGOLION UWCHRADD (100%) | |
|---|---|
| Haf 2013 | 100% |
| Hydref 2013 | 100% |
| Gwanwyn 2014 | 100% |
| CYFANSWM<br>Nifer + canran | 100% |


| NIFER + CANRAN YMATEBION RHIENI'R DISGYBLION (80% o leiaf) | |
|---|---|
| Haf 2013 | 82% = 14 ymateb |
| Hydref 2013 | 77% = 10 ymateb |
| Gwanwyn 2014 | 85% = 11 ymateb |
| CYFANSWM<br>Nifer + canran | = 35/43 = 81% |


# ATODIAD 20

**Gwersi Cymraeg i Rieni gan y Canolfannau Iaith**

Mae'r cwrs yn cael ei gynnig bob tymor.
Mae daearyddiaeth a chyrsiau Cymraeg i oedolion a phlant 'fengach yn y cartrefi yn arwain at broblem gwarchod, a diffyg diddordeb yn resymau amlwg ambell dymor.

| Tymor | Dolgellau | Cefn Coch | Llangybi | Maesincla | Sylwadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Haf 2012 | | 3 | | | Doim diddordeb yn Nolgellau. Manylion Maesincla i ddilyn | 3 |
| Hydref 2012 | 7 | | | | Manylion Maesincla i ddilyn | 7 |
| Gwanwyn 2013 | 5 | | | | Manylion Maesincla i ddilyn | 5 |
| Haf 2013 | | | 2 | | Dolgellau - dim diddordeb Manylion Maesincla i ddilyn | 2 |
| Hydref 2013 | | 4 | 5 | 3 | Manylion Maesincla i ddilyn | 12 |
| Gwanwyn 2014 | 5 | | | 6 | Dolgellau - dim diddordeb Manylion Maesincla i ddilyn | 11 |
| Haf 2014 | ôl-ofal | | 2 | | Heb gynnal cwrs ym Maesincla oherwydd mai dim ond 1 rhiant oedd wedi dangos diddordeb. | 2 |
| Hydref 2014 | 5 | 4 | 3 | 5 | | 17 |
| Gwanwyn 2015 | | | | 2 | Dolgellau - dim diddordeb | 2 |
| Haf 2015 | | | | | Dolgellau - Rhy bell gan y rhieni i deithio. Ni chynaliwyd cwrs ym Maesincla oherwydd natur staffio'r Ganolfan. Rhoddwyd manylion am gyrsiau dydd a nos i'r rhieni a siaradodd Stell Farrar i'r rhieni yn ystod y bore agored. | |
| **Cyfanswm** | **22** | **11** | **12** | **16** | | **61** |







## LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH ARDUDWY


**(yn cynnwys disgyblion sydd yn trosglwyddo i ysgolion Uwchradd all-ddalgylch)**

Lefelau CA2 (Cymraeg)

| Lefel | 2013 % | 2014 % |
|---|---|---|
| *Heb roi lefel* | | 1 |
| 1 | 1.2 | |
| 2 | | 1 |
| 3 | 9.9 | 6 |
| 3 cadarn | 1.2 | 10 |
| 4 | 66.7 | 60 |
| 5+ | 21 | 22 |
| Nifer | 81 | 79 |





| Canran | 2013 % | 2014 % |
|---|---|---|
| A | 80.2 | 58.2 |
| B | 1.2 | |
| C1 | 16.1 | 36.7 |
| C2 | | 2.5 |
| CH | 2.5 | 2.5 |
| | | |
| Nifer | 81 | 79 |





**(disgyblion sydd yn trosglwyddo i Ysgol Ardudwy)**

Lefelau CA2 (Cymraeg)

| Lefel | 2013 % | 2014 % |
|---|---|---|
| 1 | 2.1 | |
| 2 | | |
| 3 | 8.6 | 9 |
| 3 cadarn | 2.1 | 11 |
| 4 | 61.7 | 52.7 |
| 5+ | 25.2 | 27.3 |
| Nifer | 47 | 55 |





| Canran | 2013 % | 2014 % |
|---|---|---|
| A | 78.7 | 76 |
| B | | |
| C1 | 17 | 20 |
| C2 | | |
| CH | 4.3 | 4 |
| | | |
| Nifer | 47 | 55 |




# LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH BANGOR

## Lefelau CA2 (Cymraeg)

| | 2013 % | 2014 % |
|---|---|---|
| **1** | 0.5 | 2.76 |
| **2** | 8.04 | 2.76 |
| **3** | 8.04 | 7.18 |
| **3 cadarn** | 1 | 1.1 |
| **4** | 58.3 | 56.35 |
| **5** | 22.61 | 29.83 |
| **6** | 1.51 | 0 |
| **Nifer** | **199** | **181** |




| Canran | 2013 % | 2014 % |
|---|---|---|
| **A** | 84 | 72 |
| **B** | | 0.01 |
| **C1** | 11 | 22 |
| **C2** | 0.02 | |
| **CH** | 0.06 | 0.06 |
| | | |
| **Nifer** | **202** | **181** |




## Lefelau CA2 (Cymraeg Ail-iaith) - Ysgol Ein Harglwyddes


| Lefel | 2014 % |
|---|---|
| **1** | 10.53 |
| **2** | 26.31 |
| **3** | 36.84 |
| **3 cadarn** | 0 |
| **4** | 15.79 |
| **5** | 10.52 |
| **Nifer** | **19** |

| Canran | 2014 % |
|---|---|
| **A** | |
| **B** | |
| **C1** | 53 |
| **C2** | 11 |
| **CH** | 37 |
| **Nifer** | **19** |


## LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH BOTWNNOG

### Lefelau CA2 (Cymraeg)

| | 2013 % | 2014 % |
|---|---|---|
| **1 neu is** | 1.15 | |
| **2** | | 3.08 |
| **3** | 4.5 | 4.62 |
| **3 cadarn** | 1.5 | |
| **4** | 50 | 58.46 |
| **5** | 41 | 33.84 |
| **6** | 1.6 | |
| **Nifer** | **66** | **65** |




| Canran | 2013 % | 2014 % |
|---|---|---|
| **A** | 91.3 | 93.55 |
| **B** | | 3.23 |
| **C1** | 6.52 | |
| **C2** | 2.17 | 1.61 |
| **CH** | | 1.61 |
| **Nifer** | **46** | **62** |



## LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH ARDUDWY Haf 2013

**(yn cynnwys disgyblion sydd yn trosglwyddo i ysgolion Uwchradd all-ddalgylch)**

**Lefelau CA2 (Cymraeg)**

| **Ysgol** | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 3 + | Lefel 4 | Lefel 5 | **Nifer** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ardudwy | 1 | | 4 | | 5 | 4 | **14** |
| Y Traeth | | | 3 | | 21 | | **24** |
| Talsarnau | | | | | 1 | 2 | **3** |
| Llanbedr | | | | 1 | 2 | 1 | **4** |
| Tanycastell | | | 1 | | 12 | 1 | **14** |
| Cefn Coch | | | | | 13 | 8 | **21** |
| Y Garreg | | | | | | 1 | **1** |
| **Cyfanswm** | **1** | | **8** | **1** | **54** | **17** | **81** |
| **Canran** | **1.20%** | | **9.90%** | **1.20%** | **66.70%** | **21%** | **100.00%** |

**Carfanau Ieithyddol**

| **Ysgol** | Carfan A | Carfan B | Carfan C1 | Carfan C2 | Carfan Ch | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Dyffryn Ardudwy | 9 | | 4 | | 1 | **14** |
| Y Traeth | 20 | | 4 | | | **24** |
| Talsarnau | 3 | | | | | **3** |
| Llanbedr | 4 | | | | | **4** |
| Tanycastell | 7 | 1 | 5 | | 1 | **14** |
| Cefn Coch | 21 | | | | | **21** |
| Y Garreg | 1 | | | | | **1** |
| **Cyfanswm** | **65** | **1** | **13** | | **2** | **81** |
| **Canran** | **80.20%** | **1.20%** | **16.10%** | | **2.50%** | **100%** |

**Disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Ardudwy**

**Lefelau CA2 (Cymraeg)**

| **Ysgol** | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 3 + | Lefel 4 | Lefel 5 | **Nifer** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ardudwy | 1 | | 2 | | 4 | 2 | **9** |
| Y Traeth | | | 1 | | 4 | | **5** |
| Talsarnau | | | | | 1 | 1 | **2** |
| Llanbedr | | | | 1 | | 1 | **2** |
| Tanycastell | | | 1 | | 10 | 1 | **12** |
| Cefn Coch | | | | | 10 | 7 | **17** |
| **Cyfanswm** | **1** | | **4** | **1** | **29** | **12** | **47** |
| **Canran** | **2.10%** | | **8.60%** | **2.10%** | **61.70%** | **25.50%** | **100%** |

**Carfanau Ieithyddol**

| **Ysgol** | Carfan A | Carfan B | Carfan C1 | Carfan C2 | Carfan Ch | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Dyffryn Ardudwy | 6 | | 2 | | 1 | **9** |
| Y Traeth | 4 | | 1 | | | **5** |
| Talsarnau | 2 | | | | | **2** |
| Llanbedr | 2 | | | | | **2** |
| Tanycastell | 6 | | 5 | | 1 | **12** |
| Cefn Coch | 17 | | | | | **17** |
| **Cyfanswm** | **37** | | **8** | | **2** | **47** |
| **Canran** | **78.70%** | | **17.00%** | | **4.30%** | **100.00%** |

## LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH BANGOR 2013

### Lefelau CA2 (Cymraeg)

| Ysgol | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 3 + | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 6 | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llandygai | 0 | 1 | 2 | 0 | 14 | 3 | 0 | **20** |
| Glancegin | 0 | 0 | 4 | 0 | 12 | 1 | 0 | **17** |
| Hirael | 0 | 0 | 0 | 2 | 18 | 6 | 0 | **26** |
| Ein Harglwyddes | 0 | 9 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | **12** |
| Glanadda | 0 | 0 | 3 | 0 | 5 | 0 | 0 | **8** |
| Cae Top | 1 | 4 | 2 | 0 | 18 | 3 | 0 | **28** |
| Garnedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 29 | 16 | 3 | **48** |
| Y Faenol | 0 | 1 | 2 | 0 | 13 | 9 | 0 | **25** |
| Y Felinheli | 0 | 1 | 2 | 0 | 5 | 7 | 0 | **15** |
| **Cyfanswm** | **1** | **16** | **16** | **2** | **116** | **45** | **3** | **199** |
| **Canran** | **0.50%** | **8.04%** | **8.04%** | **1%** | **58.30%** | **22.61%** | **1.51%** | **100%** |

### Carfanau Ieithyddol

| Ysgol | Carfan A | Carfan B | Carfan C1 | Carfan C2 | Carfan Ch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llandygai | 17 | 0 | 1 | 0 | 2 | **20** |
| Glancegin | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | **17** |
| Hirael | 24 | 0 | 0 | 0 | 2 | **26** |
| Ein Harglwyddes | 0 | 0 | 10 | 1 | 2 | **13** |
| Glanadda | 6 | 0 | 2 | 0 | 1 | **9** |
| Cae Top | 21 | 0 | 1 | 1 | 5 | **28** |
| Garnedd | 48 | 0 | 0 | 0 | 0 | **48** |
| Y Faenol | 19 | 0 | 6 | 1 | 0 | **26** |
| Y Felinheli | 13 | 0 | 2 | 0 | 0 | **15** |
| **Cyfanswm** | **165** | **0** | **22** | **3** | **12** | **202** |
| **Canran** | **84%** | **0%** | **11%** | **0.02%** | **0.06%** | **100%** |

## LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH BOTWNNOG 2013

### Lefelau CA2 (Cymraeg)

| Ysgol | Lefel 1 neu is | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 3 cadarn | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 6 | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nefyn | 1 | | 1 | | 9 | 4 | | **15** |
| Crud y Werin | | | | | 6 | 2 | | **8** |
| Pont y Gof | | | | | | 5 | | **5** |
| Llanbedrog | | | | | 5 | 4 | | **9** |
| Llidiardau | | | | | 1 | | | **1** |
| Sarn Bach | | | 1 | | 5 | 2 | | **8** |
| Foel Gron | | | | 1 | 3 | 2 | | **6** |
| Edern | | | 1 | | 4 | 5 | 1 | **11** |
| Tudweiliog | | | | | | 3 | | **3** |
| **Cyfanswm** | **1** | | **3** | **1** | **33** | **27** | **1** | **66** |
| **Canran** | **1.50%** | | **4.50%** | **1.50%** | **50%** | **41%** | **1.50%** | **100%** |

### Carfanau Ieithyddol

| Ysgol | Carfan A | Carfan B | Carfan C1 | Carfan C2 | Carfan Ch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nefyn | 14 | | | 1 | | **15** |
| Crud y Werin | 8 | | | | | **8** |
| Pont y Gof | 5 | | | | | **5** |
| Llanbedrog | 7 | | 2 | | | **9** |
| Llidiardau | 1 | | | | | **1** |
| Sarn Bach | 7 | | 1 | | | **8** |
| **Cyfanswm** | **42** | | **3** | **1** | | **46** |
| **Canran** | **91.30%** | | **6.52%** | **2.17%** | | |

**LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH ARDUDWY Haf 2014**

**( yn cynnwys disgyblion sydd yn trosglwyddo i ysgolion Uwchradd all-ddalgylch)**

**Lefelau CA2 (Cymraeg)**

| **Ysgol** | Heb roi lefel | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 3 + | Lefel 4 | Lefel 5 | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ardudwy | | | 1 | | | | | **1** |
| Y Traeth | 1 | | | | 4 | 23 | | **28** |
| Talsarnau | | | | | | 1 | 3 | **4** |
| Llanbedr | | | | 3 | 1 | 7 | | **11** |
| Tanycastell | | | | 2 | 2 | 6 | 4 | **14** |
| Cefn Coch | | | | | 1 | 10 | 10 | **21** |
| Y Garreg | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **1** | | **1** | **5** | **8** | **47** | **17** | **79** |
| **Canran** | **1%** | | **1%** | **6%** | **10%** | **60%** | **22%** | |

**Carfanau Ieithyddol**

| **Ysgol** | Carfan A | Carfan B | Carfan C1 | Carfan C2 | Carfan Ch | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ardudwy | | | | 1 | | **1** |
| Y Traeth | | | 27 | 1 | | **28** |
| Talsarnau | 4 | | | | | **4** |
| Llanbedr | 10 | | | | 1 | **11** |
| Tanycastell | 12 | | 1 | | 1 | **14** |
| Cefn Coch | 20 | | 1 | | | **21** |
| Y Garreg | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **46** | | **29** | **2** | **2** | **79** |
| **Canran** | **58.20%** | | **36.70%** | **2.50%** | **2.50%** | |

**Disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Ardudwy**

**Lefelau CA2 (Cymraeg)**

| **Ysgol** | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 3 + | Lefel 4 | Lefel 5 | **Nifer** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ardudwy | | | | | | | **0** |
| Y Traeth | | | | 2 | 7 | | **9** |
| Talsarnau | | | | | 1 | 3 | **4** |
| Llanbedr | | | 3 | 1 | 7 | | **11** |
| Tanycastell | | | 2 | 2 | 6 | 4 | **14** |
| Cefn Coch | | | | 1 | 8 | 8 | **17** |
| **Cyfanswm** | | | **5** | **6** | **29** | **15** | **55** |
| **Canran** | | | **9%** | **11%** | **52.70%** | **27.30%** | |

**Carfanau Ieithyddol**

| **Ysgol** | Carfan A | Carfan B | Carfan C1 | Carfan C2 | Carfan Ch | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ardudwy | | | | | | **0** |
| Y Traeth | | | 9 | | | **9** |
| Talsarnau | 4 | | | | | **4** |
| Llanbedr | 10 | | | | 1 | **11** |
| Tanycastell | 12 | | 1 | | 1 | **14** |
| Cefn Coch | 16 | | 1 | | | **17** |
| **Cyfanswm** | **42** | | **11** | **0** | **2** | **55** |
| **Canran** | **76%** | | **20%** | | **4%** | |

## LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH BANGOR

### Lefelau CA2 (Cymraeg)

| **Ysgol** | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | **Lefel 3 +** | Lefel 4 | Lefel 5 | **Nifer** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llandygai | 0 | 0 | 2 | 0 | 9 | 2 | **13** |
| Glancegin | 0 | 2 | 4 | 2 | 13 | 5 | **26** |
| Hirael | 0 | 2 | 3 | 0 | 9 | 7 | **21** |
| Glanadda | 1 | 1 | 2 | 0 | 5 | 0 | **9** |
| Cae Top | 4 | 0 | 0 | 0 | 23 | 1 | **28** |
| Garnedd | 0 | 0 | 1 | 0 | 16 | 22 | **39** |
| Y Faenol | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 | 8 | **24** |
| Y Felinheli | 0 | 0 | 1 | 0 | 11 | 9 | **21** |
| **Cyfanswm** | **5** | **5** | **13** | **2** | **102** | **54** | **181** |
| **Canran** | **2.76%** | **2.76%** | **7.18%** | **1.10%** | **56.35%** | **29.83%** | **99.98%** |

### Carfanau Ieithyddol

| **Ysgol** | Carfan A | Carfan B | Carfan C1 | Carfan C2 | Carfan Ch | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llandygai | 11 | 0 | 0 | 0 | 2 | **13** |
| Glancegin | 20 | 0 | 6 | 0 | 0 | **26** |
| Hirael | 16 | 0 | 2 | 0 | 3 | **21** |
| Glanadda | 6 | 1 | 0 | 0 | 2 | **9** |
| Cae Top | 24 | 0 | 0 | 0 | 4 | **28** |
| Garnedd | 38 | 0 | 1 | 0 | 0 | **39** |
| Y Faenol | 2 | 0 | 22 | 0 | 0 | **24** |
| Y Felinheli | 13 | 0 | 8 | 0 | 0 | **21** |
| **Cyfanswm** | **130** | **1** | **39** | **0** | **11** | **181** |
| **Canran** | **72%** | **0.01%** | **22%** | **0%** | **0.06%** | **100%** |

## LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH BANGOR 2014

### Lefelau CA2 (Cymraeg Ail-Iaith)

| **Ysgol** | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | **Lefel 3 +** | Lefel 4 | Lefel 5 | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ein Harglwyddes | 2 | 5 | 7 | 0 | 3 | 2 | 19 |
| **Cyfanswm** | **2** | **5** | **7** | **0** | **3** | **2** | 19 |
| **Canran** | **10.53%** | **26.31%** | **36.84%** | | **15.79%** | **10.53%** | 100% |

### Carfanau Ieithyddol

| **Ysgol** | Carfan A | Carfan B | Carfan C1 | Carfan C2 | Carfan Ch | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ein Harglwyddes | 0 | 0 | 10 | 2 | 7 | 19 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **10** | **2** | **7** | **19** |
| **Canran** | **0%** | **0%** | **53%** | **11%** | **37%** | **100%** |

**LEFELAU A CHARFANAU IAITH DALGYLCH BOTWNNOG 2014**

**Lefelau CA2 (Cymraeg)**

| **Ysgol** | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 3 + | Lefel 4 | Lefel 5 | **Nifer** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Crud y Werin | | | | | 3 | | **3** |
| Edern | | | | | 1 | 4 | **5** |
| Foel Gron | | | | | 3 | 1 | **4** |
| Llanbedrog | | 1 | | | 7 | | **8** |
| Nefyn | | 1 | 3 | | 12 | 5 | **21** |
| Pontygof * | | | | | 8 | 5 | **13** |
| Sarn Bach | | | | | 2 | 4 | **6** |
| Tudweiliog | | | | | 2 | 3 | **5** |
| **Cyafnswm** | | **2** | **3** | | **38** | **22** | **65** |
| **Canran** | | **3.08%** | **4.62%** | | **58.46%** | **33.84%** | **100** |

Nefyn - Dim yn berthasol ar gyfer 1 plentyn.
Pontygof * Dim yn berthnasol ar gyfer 1 plentyn.

**Carfanau Ieithyddol**

| **Ysgol** | Carfan A | Carfan B | Carfan C1 | Carfan C2 | Carfan Ch | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Crud y Werin | 3 | | | | | **3** |
| Edern | 5 | | | | | **5** |
| Foel Gron | 4 | | | | | **4** |
| Llanbedrog | 7 | | | 1 | | **8** |
| Nefyn | 21 | | | | 1 | **22** |
| Pontygof | 14 | | | | | **14** |
| Sarn Bach | 4 | 2 | | | | **6** |
| **Cyfanswm** | **58** | **2** | | **1** | **1** | **62** |
| **Canran** | **93.55%** | **3.23%** | | **1.61%** | **1.61%** | **100%** |

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymchwil i'r maes Addysg Gymraeg.

Gofynnwn yn garedig i Gorff Llywodraethwyr yr ysgol gwblhau'r holiadur hwn a'i ddychwelyd erbyn 30 Mehefin 2015.

Rydym yn gwerthfawrogi eich amser.

………………………..

Bydd yr ymchwiliad yn:

i. manylu ar weithrediad Polisi Iaith yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.
ii. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisïau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.
iii. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg"* ymhob ysgol.
iv. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*"

Mae Canllawiau Gweithredu'r Polisi Iaith yn nodi:- "Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu Polisi Iaith yr ysgol yn rheolaidd. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; mae disgwyl i'r Pennaeth ddarparu arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nod y polisi ac i sicrhau bod ymdrechion athrawon dosbarth yn cael eu hatgyfnerthu drwy sicrhau bod ethos Gymraeg a Chymreig priodol yn yr ysgol."

Mae 5 carfan o blant o fewn gweithrediad y polisi a'r nod ydi cael pob plentyn yng ngharfan A - disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Cwestiynau ar gyfer Llywodraethwyr**

**1. Enw'r Ysgol**

**2. Diffiniwch eich ysgol yn ieithyddol**

**3. Mae Cynllun Addysg Gymraeg Gwynedd yn annog y Cyrff Llywodraethwyr i ddynodi aelod i fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol. A oes aelod o Gorff Llywodraethwyr yr ysgol wedi ei ddynodi yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol?**

**4. A yw'r Gymraeg wedi ei hadnabod fel blaenoriaeth yn y Cynllun Datblygu Ysgol?**

**5. Beth yw'r dystiolaeth bod y Llywodraethwyr wedi herio –**

i. Polisi Iaith yr ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol yn erbyn arweiniad a gofynion "Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg" a'r "Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd"?

ii. perfformiad disgyblion yn y Gymraeg ac yn y pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg?

iii. perfformiad athrawon (yn erbyn gofynion Polisi Iaith, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd)?

| |
|---|
| |

iv. cefnogaeth mae'r athrawon yn rhoi i'r rhieni o ran y Gymraeg?

| |
|---|
| |

**6. Yn eich barn chi, a ydych yn derbyn gwybodaeth ddigonol er mwyn eich galluogi i herio perfformiad addysgu Cymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg?**

| |
|---|
| |

**7. A wnewch gadarnhau bod y Llywodraethwyr wedi cael rhan yn adolygu polisi iaith yr ysgol a pha mor aml mae'r polisi iaith yn cael ei adolygu?**

| |
|---|
| |

**8. Unrhyw sylw arall**

| |
|---|
| |

***Diolch am eich amser.***

***A fyddwch gystal â dychwelyd yr holiadur erbyn <u>30 Mehefin 2015</u> at:***

Ann Roberts
Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol (Craffu)
Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd Council
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

01286 679780


Neu drwy e-bost at: annelizabethroberts@gwynedd.gov.uk

## CRYNODEB - HOLIADUR RHIENI


| | | |
|---|---|---|
| Nifer y recordiau yn yr ymholiad hwn | 233 | |

| Enw'r Ysgol Gynradd (Rhowch enw pob ysgol mae gennych blant ynddynt) | | |
|---|---|---|
| Ateb | 183 | 78.54% |
| Dim ateb | 50 | 21.46% |


| Enw'r Ysgol Uwchradd (Rhowch enw pob ysgol mae gennych blant ynddynt) | | |
|---|---|---|
| Ateb | 125 | 53.65% |
| Dim ateb | 108 | 46.35% |




| A ydych yn ymwybodol o Bolisi Iaith yr Ysgol ac yn ei ddeall? | | |
|---|---|---|
| Ydw | 181 | 77.68% |
| Nac Ydw | 47 | 20.17% |
| Dim ateb | 5 | 2.15% |




| A ydych yn ymwybodol ac wedi eich argyhoeddi o fanteision addysg ddwyieithog i'ch plentyn? | | |
|---|---|---|
| Ydw | 195 | 83.69% |
| Nac Ydw | 34 | 14.59% |
| Dim ateb | 4 | 1.72% |








| A ydych yn ymwybodol o'r Siarter Iaith sydd yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd? | | |
|---|---|---|
| Ydw | 134 | 57.51% |
| Nac Ydw | 97 | 41.63% |
| Dim ateb | 2 | 0.86% |




| Beth yw eich barn ar y Siarter Iaith? | | |
|---|---|---|
| Ateb | 68 | 50.75% |
| Dim ateb | 66 | 49.25% |





| Sut mae'r ysgol / ysgolion yn eich helpu chi i gefnogi eich plentyn / plant i gyrraedd y lefelau disgwyliedig yn y Gymraeg a'r Saesneg? | | |
|---|---|---|
| Darparu gwybodaeth ar lafar neu ohebiaeth ar fanteision dwyieithrwydd | 105 | 45.06% |
| Cynnal trafodaethau ar y lefelau disgwyliedig mae angen i'm plentyn / plant gyrraedd | 142 | 60.94% |
| Cynnal trafodaethau am y cymorth yr wyf angen er mwyn helpu fy mhlentyn / mhlant i gyrraedd y lefelau disgwyliedig | 97 | 41.63% |
| Arall | 52 | 22.32% |



| **Ydych chi wedi trafod y materion isod sy'n ymwneud â'r Gymraeg gyda'r ysgol / ysgolion?** | | |
|---|---|---|
| Y gefnogaeth sydd ar gael i'm plentyn / plant yn y Canolfannau Iaith | 30 | 12.88% |
| Y gefnogaeth sydd ar gael i'm plentyn / plant yn yr ysgol | 55 | 23.61% |
| Sgiliau Cymraeg fy mhlentyn / mhlant | 113 | 48.50% |
| Gwersi Cymraeg lleol ar gyfer rhieni | 34 | 14.59% |
| Polisi Iaith yr Ysgol | 71 | 30.47% |
| Y Siarter Iaith sydd gan yr ysgolion cynradd | 46 | 19.74% |
| Addysgu Cymraeg fel pwnc | 61 | 26.18% |
| Addysgu pynciau eraill drwy'r iaith Gymraeg | 60 | 25.75% |
| Arall | 48 | 20.60% |




| A ydych yn credu fod ysgolion yn llwyddo i gyflawni'r nod o sicrhau bod gan ddisgyblion sgiliau / allu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg? | | |
|---|---|---|
| Ydw | 93 | 39.91% |
| Nac Ydw | 96 | 41.20% |
| Ddim yn gwybod | 33 | 14.16% |
| Dim ateb | 11 | 4.72% |







| Oes gennych chi syniadau ar sut i wella'r ffordd y mae'r Polisi Iaith bresennol yn cael ei weithredu yn yr ysgolion, neu unrhyw syniadau ar gyfer diwygio'r Polisi Iaith yn y dyfodol? | | |
|---|---|---|
| Ateb | 122 | 52.36% |
| Dim ateb | 111 | 47.64% |



| Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y maes addysg Gymraeg? | | |
|---|---|---|
| Ateb | 125 | 53.65% |
| Dim ateb | 108 | 46.35% |



y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

IAITH

# Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg: Tystiolaeth Grwpiau Ffocws Disbyblion

Comisiynwyd gan: Cyngor Gwynedd

Dyddiad: 31 Gorffennaf 2015

## Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg: Tystiolaeth Grwpiau Ffocws Disgyblion

Awduron yr adroddiad
Kathryn Jones a Siwan Tomos

Gwaith maes
Siwan Tomos

**IAITH Cyf.**
Uned 2-4,
Parc Busnes Aberarad,
Castellnewydd Emlyn,
Sir Gâr, SA38 9DB

**Ff** 01239 711668
**E** post@iaith.eu
www.iaith.eu

## Cynnwys

Rhagarweiniad ........................................................................................................................ 4
Canfyddiadau ........................................................................................................................ 6
Casgliadau ac argymhellion .................................................................................................. 13
Atodiad 1 ............................................................................................................................. 17
Atodiad 2 ............................................................................................................................. 52
Atodiad 3………. .................................................................................................................. 53

## Rhagarweiniad

### 1.1 Nod

Bwriad yr ymchwil hwn yw cyfrannu tystiolaeth o bersbectif plant a phobl ifanc i'r Ymchwiliad Craffu ar weithrediad Polisi Iaith Cyngor Gwynedd gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau. Comisiynwyd IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith i gynnal grwpiau ffocws gyda disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn casglu gwybodaeth am eu profiadau a barn am addysg Gymraeg a'u defnydd o'r iaith o fewn yr ysgol. Cyflawnwyd y gwaith yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2015.

### 1.2 Dull gwaith

Cynhaliwyd cyfanswm o 18 o grwpiau ffocws (gw. Atodiad 1) gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2), Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6), Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9[1]) a Chyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 10[2]) mewn chwech ysgol gynradd a phedair ysgol uwchradd.

Dewiswyd yr ysgolion gan swyddogion y Cyngor mewn ymgynghoriad ag aelodau'r ymchwiliad i gynnig amrediad yn y sampl o ran maint yr ysgol, ardal a phroffil ieithyddol y disgyblion a'r gymuned leol, fel a ganlyn:

Dalgylch Bangor
- Ysgol Glancegin
- Ysgol Cae Top
- Ysgol Tryfan
- Ysgol Friars

Dalgylch Ardudwy
- Ysgol Cefn Coch
- Ysgol Tan y Castell
- Ysgol Ardudwy

Dalgylch Botwnnog
- Ysgol Nefyn
- Ysgol Sarn Bach
- Ysgol Botwnnog

Dewiswyd y disgyblion ar hap ar y cyd rhwng yr ysgolion a tîm IAITH. Cyfrannodd 63 disgybl i'r grwpiau ffocws cynradd. Roedd 38 ohonynt yn ferched a 25 yn fechgyn. Daeth 20 o'r disgyblion cynradd o gartrefi Saesneg[3], 16 o gartrefi Cymraeg; a 27 o gartrefi dwyieithog[4]. O'r 50 disgybl uwchradd, roedd 25 geneth a 25 bachgen.  Daeth 26 ohonynt o gartrefi Cymraeg, 15 o gartrefi Saesneg; a naw o gartrefi dwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Cynhaliwyd pob grŵp ffocws trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda chaniatâd y cyfranogwyr, gwnaed recordiad sain o'r drafodaeth fel sail i'r cofnod ysgrifenedig a welir yn Atodiad 1.

Paratowyd cyfres o gwestiynau a gweithgareddau i ysgogi trafodaeth a chofnodi arferion iaith,

[1] Yn achos Ysgol Ardudwy, cafwyd 3 disgybl o flwyddyn 7, 2 disgybl o flwyddyn 8 a 5 disgybl o flwyddyn 9 yn grŵp CA3.
[2] Ar adeg cynnal y gwaith maes, nid oedd disgyblion Blwyddyn 11, 12 ac 13 ar gael i'w cynnwys yn y prosiect.
[3] Rydym yn diffinio iaith y cartref yn ôl yr iaith a siaredir gan y rhieni neu rhiant (yn achos teuluoedd un rhiant).
[4] 24 Cymraeg a Saesneg; 1 Cymraeg a Hebraeg, 1 Saesneg a Sbaeneg, 1 Saesneg ac Arabeg.

canfyddiadau a barn y disgyblion am:

- batrymau defnydd iaith yn yr ysgol;
- canfyddiadau am eu gallu a'u hyder yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- canfyddiadau am fanteision dwyieithrwydd / amlieithrwydd;
- ymwybyddiaeth a chyfranogiad i'r Siarter Iaith a dylanwad hynny arnynt.

Tra bo cwestiynau craidd y grwpiau ffocws yn gyson i bob grŵp (gw. Atodiad 2), addaswyd y cwestiynau a'r tasgau i gyd-fynd ag oedran y disgyblion. Mae crynodeb o'r data a gasglwyd, fesul ysgol a chyfnod allweddol wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

Dylid cofio bod y dystiolaeth a gasglwyd gan y disgyblion yn dystiolaeth hunan-adroddedig. Er eu bod wedi cael eu dewis ar hap, nid yw'r disgyblion o reidrwydd yn gynrychioladol o boblogaeth yr ysgol. Yn ogystal, dylid ystyried nad yw'r disgyblion wedi rhoi darlun llawn a manwl o bob agwedd ar ddefnydd iaith yn yr ysgol o fewn cyfyngderau trafodaeth grŵp ffocws. Lle bo dyfyniadau o eiriau'r disgyblion, nid ydym wedi cywiro unrhyw wallau ieithyddol.

## Canfyddiadau

### 2.1 Rhagarweiniad

Dengys tystiolaeth y grwpiau ffocws fod sefyllfa ieithyddol pob ysgol yn unigryw ac amrywiol. Am ddarlun o'r patrwm defnydd iaith a gweithrediad y polisi addysg fesul ysgol, dylid cyfeirio at yr wybodaeth a gyflwynir yn Atodiad 1. Yn yr adran hon, cynigir gorolwg o'r prif ganfyddiadau.

### 2.2 Iaith yr ysgol

Gofynnwyd i'r disgyblion fapio arferion iaith yr ysgol trwy:

- adnabod pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith y maent yn ei siarad, a
- beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith.

Roedd tystiolaeth y disgyblion yn cadarnhau bod y **penaethiaid a'r athrawon** ym mhob ysgol ar wahân i Ysgol Friars yn arddel y Gymraeg. Yn Ysgol Friars, ymddengys bod rhai athrawon pwnc[5] penodol (tua 3 ohonynt) yn gwneud ymdrech arbennig i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ac yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg na gweddill staff yr ysgol.

Gwelir amrywiaeth yn yr iaith a ddefnyddir gan **gymorthyddion dosbarth**, **staff cefnogi** ac **athrawon cerddoriaeth**. Felly hefyd yn achos **staff ategol –** megis staff swyddfa, cogyddion, gofalwyr, technegydd, nyrs, goruchwylwyr amser cinio ac egwyl. Ysgolion Cefn Coch, Tan y Castell, Nefyn, Sarn Bach a Botwnnog yw'r mwyaf Cymraeg o ran iaith yr holl staff a gyflogir gan yr ysgol.

Ar y cyfan, Cymraeg yw'r iaith a siaredir gan y **disgyblion gyda'r athrawon** yn y dosbarth. Amrywia arferion iaith **disgyblion gyda'i gilydd** mewn gwersi. Dengys Tabl 1 prif batrwm defnydd iaith disgyblion tu hwnt i'r dosbarth.

Tabl 1: Iaith disgyblion tu hwnt i'r dosbarth

| Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg | Saesneg yn bennaf |
|---|---|---|
| Cefn Coch Bl 2 | Cae Top Bl 2 | Cae Top Bl6 |
| Cefn Coch Bl 6 | Sarn Bach Bl 6 | Glancegin Bl 2 |
| Nefyn Bl 2 | Tryfan Bl 9 a 10 | Glancegin Bl 6 |
| Nefyn Bl 6 | Ardudwy Bl 7,8,9 | Tan y Castell Bl 6[6] |
| Sarn Bach Bl 2 | | Ardudwy Bl 9 a 10 |
| Botwnnog Bl 9 a 10 | | Friars Bl9 a 10 |

[5] Nid oedd y rhain yn athrawon Cymraeg.
[6] Yn ôl y disgyblion, mae'r 'plant bach' yn siarad Cymraeg wrth chwarae.

Roedd iaith y cartref yn ddylanwad amlwg ar ddefnydd iaith y **disgyblion tu hwnt i'r dosbarth**. Roedd y disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn dueddol o ddefnyddio Saesneg yn bennaf, gyda hynny yn dueddol o droi'r siarad gyda disgyblion eraill i'r Saesneg. Yn achos disgyblion o gartrefi gyda un rhiant sy'n medru Cymraeg, disgyblion gyda mamau Cymraeg oedd yn fwy tueddol o arddel y Gymraeg na'r disgyblion gyda tadau Cymraeg.

"*Saesneg da ni'n siarad ar yr iard. Ond tipyn bach-ish o Gymraeg. Ond dan ni'n siarad Cymraeg gyda'r athrawon*" (Glancegin, Bl2)

"*Everybody hates Cymraeg. Well not everybody. But mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n dod i'r ysgol yma yn siarad Saesneg adref*" (Glancegin, Bl.6)

"*Hannar Saesneg a hannar Cymraeg. It depends pwy chi'n siarad gyda*" (Cae Top, Bl.2)

"*Dwi wedi clywed rhai pobl yn siarad Cymraeg. Ond dy e ddim yn language cyntaf y rhan fwyaf ohonom ni. Mae e'n haws siarad Saesneg achos di mam a dad fi ddim yn gwybod Cymraeg*" (Cae Top Bl. 6)

"*Mae'n dibynnu sut ti'n teimlo at yr iaith*" (Tryfan, Bl9&10)

"*Be sy'n digwydd ar yr iard ydi ... ti'n clywed mwy o eiria Saesneg yn ganol y Gymraeg. Ond Cymraeg ydio run fath*." (Cefn Coch, Bl.6)

## 2.3 Iaith gwersi

Yn ogystal â mapio'r defnydd iaith ar draws yr ysgol gyfan, holwyd y disgyblion ymhellach ar agweddau o iaith y gwersi mathemateg, gwyddoniaeth a gwersi eraill yn gyffredinol gan dalu sylw yn benodol i iaith:

- yr athro gyda'r dosbarth cyfan;
- yr athro gyda disgyblion unigol;
- y disgyblion â'r athro;
- disgyblion gyda'i gilydd mewn gwersi;
- gwerslyfrau a thaflenni gwaith;
- defnydd o'r we; a
- gwaith cartref.

Yn y grwpiau cynradd, casglwyd tystiolaeth am brif batrwm defnydd iaith y dosbarth cyfan. Yn y grwpiau uwchradd, gofynnwyd i bob disgybl gofnodi ei brofiad unigol o (d)defnydd iaith yn ei (g)wersi mathemateg, gwyddoniaeth a gwersi eraill. Golyga hyn bod y tablau Defnydd Iaith Gwersi Uwchradd yn Atodiad 3 (Tablau 5 – 13) yn cynnig darlun mwy manwl, fesul ysgol, o ddwyieithrwydd ar waith wrth ddysgu ac addysgu.

Ceir peth amrywiaeth yn y defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd mewn gwersi mathemateg cynradd, gyda'r duedd mewn rhai ysgolion i addysgu'r pwnc yn ddwyieithog yn CA2 (Tabl 2). Ceir patrwm tebyg yn achos gwersi gwyddoniaeth a phynciau eraill yn ogystal (gw. Atodiad 1). Awgrymog, fodd bynnag, yw'r data o ran cynnig darlun manwl o arferion iaith addysgu dwyieithog.

Tabl 2: Defnydd Iaith Gwersi Cynradd: mathemateg

| | Glan Cegin | | Cae Top | | Cefn Coch | | Tan y Castell | | Nefyn | | Sarn Bach | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl 2 | Bl 6 | Bl 2 | Bl 6 | Bl 2 | Bl 6 | Bl 2 | Bl 6 | Bl 2 | Bl 6 | Bl 2 | Bl 6 |
| **Athro gyda'r dosbarth** | C | D | C | D | C | C | - | C | C | C | C | C |
| **Athro gyda disgyblion unigol** | C | C | C | D | C | C | - | C | C | C | C | C |
| **Disgyblion gyda'r athro** | SB | C | C | C | C | C | - | C | C | C | C | C |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | CB | S | D | S | C | C | - | D | C | C | C | C |
| **Gwerslyfrau a thaflenni gwaith** | - | D | C | D | C | D | - | C | C | C | C | C |
| **Defnydd o'r we** | C | S | C | S | - | S | - | S | S | S | - | S |
| **Gwaith cartref** | *C/D | CB | C | D | D | CB | - | D | C | C | C | C |

Allwedd: **-** = dim data; **C** = Cymraeg; **D** = Dwyieithog; **S** = Saesneg; **CB**=Cymraeg yn bennaf; **SB**=Saesneg yn bennaf;
*C/D=Yn ysgol Cae Top roedd rhai o ddisgyblion bl.2 yn cael llyfr Cymraeg yn unig tra bod eraill yn derbyn un Cymraeg ac un Saesneg.

Yn achos yr ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd, defnyddir Saesneg yn bennaf ar gyfer defnydd o'r we a rhwng rhai plant a'i gilydd.

## 2.4 Canfyddiadau am allu a hyder

Nod y Polisi Iaith yw "sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg" gan roi'r cyfrifoldeb ar yr ysgolion i "sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog". Gofynnwyd i'r disgyblion adrodd ar eu canfyddiad o'u sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg; yn gyffredinol, wrth wneud gwaith ysgol, adref ac yn gymdeithasol.

Dengys adroddiadau'r grwpiau ffocws yn Atodiad 1 fod cryn amrywiaeth yn yr atebion a gafwyd. Lleiafrif o'r disgyblion ym mhob grŵp oedran sy'n teimlo bod eu sgiliau iaith yn gyfartal (Tabl 3).

Tabl 3: Nifer y disgyblion sy'n adrodd bod ganddynt sgiliau Cymraeg a'r Saesneg cyfartal

| | Yn gyffredinol | Gwaith ysgol | Adref | Yn gymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| CA1(n=25) | 9 | 6 | 10 | 10 |
| CA2 (n=38) | 10 | 13 | 7 | 13 |
| CA3 a 4 (n=50) | 4 | 13 | 3 | 11 |

Mae canfyddiadau'r disgyblion o 'sgiliau' iaith yn dueddol o gyd-fynd ag amlder eu defnydd o'r Gymraeg a Saesneg mewn cyd-destunau neu 'beuoedd' penodol. Yn y grwpiau ffocws, roedd pob disgybl yn gallu mynegi ei hunan yn rhugl ar lafar yn Gymraeg, gan gynnwys yr 'hwyrddyfodiad' yn eu plith. Felly hefyd disgyblion Ysgol Friars er eu bod yn troi i'r Saesneg wrth drafod gyda'i gilydd. Fodd bynnag, roedd yn nodwedd o iaith rhai plant ar draws y sampl eu bod yn plethu defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd wrth drafod ymhlith ei gilydd a chyfrannu i weithgareddau'r grŵp.

## 2.5 Manteision dwyieithrwydd

Er mwyn canfod ymwybyddiaeth disgyblion am ddwyieithrwydd, holwyd am fanteision ac anfanteision medru dwy iaith. Ni fynegwyd unrhyw anfanteision dros fod yn ddwyieithog. Roedd nifer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn methu ateb y cwestiwn. "*I don't know. Fi just yn*." (Bl2. Glan Cegin); "*Fi'n cal hwyl yn siarad Cymraeg*" (Bl2. Cae Top). I'r plant ieuengaf, medru 'cyfathrebu' yn y ddwy iaith yw'r mantais amlycaf, sef:

- Deall beth mae pawb yn ei ddweud
- Gallu siarad gyda pobl arall
- Dysgu pobl eraill sut i siarad Cymraeg.

Yn ogystal â 'chyfathrebu', roedd disgyblion Blwyddyn 6 yn rhagweld manteision wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd:

- Dewis ysgol rhwng Tryfan a Friars
- "*Ti'n cael head start yn yr ysgol uwchradd*"
- "*Wyt ti efo advantage yn ysgol uwchradd yn wersi iaith*"

Roedd disgyblion Bl 6 hefyd yn nodi'r cysylltiad rhwng iaith a hunaniaeth a bod statws a gwerth i'r Gymraeg.

- *"Mae e'n neud i ni deimlo ein bod ni'n rhan o'r wlad – so os da ni'n Saesneg a methu siarad Cymraeg da ni ddim yn teimlo yn rhan o betha*" (Cefn Coch)
- "*Mae pobl yn respecto ti*" (Cae Top)

Roedd disgyblion yr **ysgolion uwchradd** i gyd yn gallu trafod dwyieithrwydd, gyda disgyblion Friars y fwy ymwybodol o'r manteision na'r disgyblion uwchradd eraill. Roedd disgyblion Bl 9 a Bl 10 yn rhestru manteision cyfryngol (instrumental); affeithiol (affective) ac hunaniaethol am ddwyieithrwydd:

- gwell cyfle am swyddi yn gyffredinol a chyfle i ennill swyddi gwell;
- haws dysgu ieithoedd ychwanegol;
- medru cyfathrebu gyda grŵp eang o bobl;
- "*mae'n cŵl gallu siarad dwy iaith*";
- help cadw'r Gymraeg yn fyw ac yn dda i'n traddodiad ni yng Nghymru;
- edrych yn dda ar y CV;
- mwy clyfar os yn medru dwy iaith neu ragor;
- mae'r Gymraeg yn rhan o'n hanes ni;
- medru cyfieithu;
- magu hyder;
- bod yn fwy diddorol fel unigolyn;
- agor drysau a rhoi cyfleoedd gyda gwaith, ysgol, yn gymdeithasol;
- iaith gyfrinachol pan ti dramor.

## 2.6 Dewis cyfrwng iaith gwaith ysgol

Holwyd y disgyblion a fyddent yn dewis gwneud eu gwaith ysgol yn Gymraeg neu yn Saesneg petai'r dewis ganddynt.

Tabl 4: Nifer y disgyblion yn ôl eu dewis cyfrwng iaith gwaith ysgol

| | Cymraeg | Saesneg | Dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) | Amlieithog | Dim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CA1** | 20 | 2 | 3 | | | 25 |
| **CA2** | 21 | 6 | 9 | 2 | | 38 |
| **CA3 a 4**[7] | 12 | 11 | 5 | | 1 | 29 |
| **Cyfanswm** | 53 | 19 | 17 | 2 | 1 | 92 |

Byddai'r mwyafrif o'r disgyblion cynradd yn dewis dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg petai'r dewis ganddynt. Roedd rhai yn dewis o ganlyniad i arfer defnyddio Cymraeg a'r hyn sy hawsaf iddynt. Cafwyd tystiolaeth gan yr hwyrddyfodiaid yn y grwpiau ffocws eu bod hwythau yn fodlon gyda dilyn y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.

- *"Dwi wedi arfer siarad Cymraeg yn yr ysgol."* (Tryfan)
- *"Dwi'n licio siarad Cymraeg achos mae'n hawdd di'?"* (Cefn Coch)
- *"Y ganolfan iaith wedi newid popeth. Dwi'n gallu siarad Cymraeg."* (Nefyn)

Gwelwyd patrwm dewis iaith addysg mwy cymysg yn yr ysgolion uwchradd. Yn Ysgol Tryfan, dywedodd wyth o'r deg disgybl y buasent yn dewis dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym Motwnnog, pedwar o'r deg disgybl fyddai'n dewis Cymraeg a phump fyddai'n dewis dysgu yn ddwyieithog. Yn Ysgol Friars, dywedodd un o'r deg disgybl y byddai'n dewis gwneud gwaith ysgol yn ddwyieithog. Dywedodd y naw arall y buasent yn dewis Saesneg. Teimlai un o ddisgyblion Friars ei (f)bod yn colli'r Cymraeg oedd ganddo/i wrth astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn unig:

- *"Dwi'n teimlo ein bod ni'n colli ein Cymraeg gan bod ni ddim yn siarad e gyda ffrindiau nac mewn gwersi. Dydio ddim yn rhoi practice …. Ond os bydde ti'n cael gwersi yn Gymraeg bydde Cymraeg ti'n gwella. Os ti'n dechre gyda'r ddau iaith hanner a hanner yn Blwyddyn 7 bydd e'n iawn. Bydd ti'n gallu neud y ddau yr un fath.*"

## 2.7 Trafodaethau am ddefnyddio'r Gymraeg neu ddwyieithrwydd/amlieithrwydd yn yr ysgol

Prin oedd y dystiolaeth gan y disgyblion am drafodaethau am ddefnyddio'r Gymraeg neu ddwyieithrwydd/amlieithrwydd yn yr ysgol oedd yn eu cynnwys nhw. Adroddodd tri grŵp fod y cyngor ysgol wedi trafod a chynllunio ar gyfer cynyddu'r defnydd o Gymraeg yn yr ysgol. Gan amlaf, adroddwyd mai athrawon oedd yn gosod, monitro a mynnu cydymffuriaeth â rheol i siarad Cymraeg. Isod rhestrir yr agweddau 'newid ymddygiad' cadarnhaol a negyddol o safbwynt y disgyblion.

[7] Ar gais y prifathro, ni holwyd disgyblion Ysgol Ardudwy am eu dewis cyfrwng iaith addysg.

**Agweddau cadarnhaol**

- Athrawon yn dweud yn garedig am beidio siarad Saesneg (cynradd)
- Trafodaethau ar y cyngor ysgol ar sut i wella'r iaith a sefydlu 'buddies buarth' er mwyn i blant Blwyddyn 6 siarad gyda phlant bach (cynradd)
- Dadleuon o fewn cylchoedd ffrindiau yn fwy iach nag athrawon yn dweud y drefn (uwchradd)
- Clwb C – "*Netho nw ddechre clwb o'r enw Clwb C oedd yn rili dda' sef clwb oedd yn paru plant 'sydd yn dda am siarad Cymraeg gyda rhai sydd ddim mor gryf. Fatha buddies i bobl gal marfer. Odd y 6ed yno hefyd*". (uwchradd)

**Agweddau negyddol/ aneffeithiol**

- Cael ffrae am siarad Saesneg (cynradd)
- Sgipio a canu'n Gymraeg. Neb yn hoffi hynny – teimlad eu bod yn gorfod chwarae mewn ffordd arbennig (cynradd)
- "*Athrawon yn swnian ac yn gweiddi arnom ni i siarad Cymraeg*" (uwchradd)
- Gwasanaeth am ddefnyddio iaith. Teimlo bod yr ysgol yn siarad lawr â nhw (uwchradd)
- "*Ymwelwyr yn dod i'r neuadd i siarad gyda ni. Pobl o'r council a pethau. Dydi o ddim yn gweithio ac mae'n boring. Mae'n teimlo'n pushed*." (uwchradd)
- Posteri – "*neb yn talu sylw*", "*dyn nhw ddim yn helpu lot*" (uwchradd)

## 2.8 Siarter Iaith

Holwyd y plant os oeddent wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith. Roedd gan aelodau pob grŵp ffocws cynradd, heblaw grŵp Blwyddyn 2 yn Ysgol Glancegin, rhyw brofiad ac ymwybyddiaeth o'r Siarter Iaith.

I'r mwyafrif, caiff y Siarter ei gynrychioli gan ddarlun o fynydd ar y wal sy'n mesur a chofnodi eu hymdrech i siarad Cymraeg. Yn gyffredinol, roedd y disgyblion yn gefnogol i'r syniad ac yn teimlo ei fod yn annog plant i ddefnyddio Cymraeg. "*Dwi'n hoffi cyrraedd y top. It makes me feel like I've worked hard and done something good*" (Cae Top, Bl.2)

Gwnaed y sylw mai'r athrawon oedd yn penderfynu lle oedd y plant ar y mynydd a bod y cynllun y fwy perthnasol i ddisgyblion sydd ddim yn hollol hyderus neu rhugl. "*Dio ddim yn ddefnyddiol i rai fel ni sydd yn siarad Cymraeg drwy'r amser*." (Cefn Coch, Bl. 6). "*Netho ni neud o am flwyddyn ond nawr ma pawb di anghofio amdano fo*." (Nefyn, Bl. 6)

## Casgliadau ac Argymhellion

### 3.1 Casgliadau

Mae'r data o'r 18 grŵp ffocws a gynhaliwyd mewn chwech ysgol gynradd a phedair ysgol uwchradd gyda disgyblion CA1, CA2, CA3 a CA4 yn cynnig cipolwg o safbwynt disgyblion ar rai o'r materion sy'n ymwneud â gweithrediad polisi iaith addysg y Cyngor.

Tra bod y penaethiaid ac athrawon yn medru, ac yn arddel, y Gymraeg, ceir nifer o ysgolion ble mae amgylchedd ieithyddol Gymreig yr ysgol yn cael ei ddylanwadu gan ddiffyg gallu Cymraeg rhai cymorthyddion a staff eraill. Gellid cryfhau amgylchedd Cymreig rhai ysgolion trwy gynnig cefnogaeth i staff presennol ddysgu'r Gymraeg ac i sefydlu gofynion ieithyddol swyddi wrth benodi staff newydd.

Yn Ysgol Friars, roedd disgyblion Bl9 a Bl10 a gyfwelwyd yn medru cyfrannu'n llawn i grŵp ffocws a gynhaliwyd yn Gymraeg. Roedd rhai athrawon pwnc yn gwneud ymdrech i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg. Roedd pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd ac un, yn enwedig, yn difaru nad oedd yr ysgol yn cynnig cyfle i gynnal sgiliau Cymraeg disgyblion. Awgryma'r dystiolaeth, y byddai cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd Ysgol Friars yn fanteisiol i ddatblygiad sgiliau dwyieithog disgyblion yn unol â pholisi'r Cyngor.

Gwelwyd defnydd helaeth o'r Saesneg wrth i ddisgyblion ddefnyddio'r we. Dengys y dystiolaeth gan rai disgyblion bod modd i bob ysgol ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer yr agwedd hon o addysgu.

Mae'r arfer o siarad Saesneg gyda ffrindiau a phob cyfle tu hwnt i'r dosbarth yn gryf iawn gan rai disgyblion ac mewn rhai ysgolion yn fwy na'i gilydd. Mae'r duedd i blant o deuluoedd di-Gymraeg, yn enwedig, i gyfyngu eu defnydd o'r Gymraeg i ystod o gyd-destunau addysgu cyfyngedig yn ffenomenon gyffredin (e.e. Gruffudd 2000; Ó Riagáin et.al. 2008). Dengys ymchwil fod tuedd i fechgyn, yn enwedig, ymwrthod ag ymddygiad (gan gynnwys ymddygiad ieithyddol) sy'n cael ei orfodi arnynt gan bobl mewn awdurdod a bod hyn yn dwysáu yn ystod cyfnod yr arddegau (e.e. Hodges 2011; Thomas & Roberts 2011; Thomas et al. 2012).

Ar y cyfan, roedd y disgyblion yn gefnogol o'r Gymraeg. Awgryma data'r grwpiau ffocws bod gwerthoedd negyddol tuag at y Gymraeg gan rai disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg mewn rhai ysgolion. Amlygwyd, yn ogystal, nad yw disgyblion o reidrwydd yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am y Siarter Iaith nac yn cael cynnig eu syniadau eu hunain dros arferion ieithyddol yr ysgol. Gwelwyd hefyd bod beirniadu a chosbi disgyblion am siarad Saesneg yn wrthgynhyrchiol. Buasai cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith gyda disgyblion a rhieni ynghyd â chynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am arferion iaith yn yr ysgol yn fodd o ymateb i unrhyw werthoedd negyddol ac i feithrin perchnogaeth y disgyblion ar bolisi iaith yr ysgol.

Cymharol fychan yw'r nifer o ddisgyblion sy'n ystyried bod ganddynt sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob agwedd o'u bywydau. Nid yw hyn o reidrwydd yn arwydd o ddiffyg llwyddiant y Polisi Iaith. Caiff sgiliau ieithyddol disgyblion eu hogi trwy arferion cymdeithasol beunyddiol tu hwnt i'r ysgol yn ogystal â'u profiadau addysgol. Di-sail yw'r rhagdybiaeth y dylai pob person dwyieithog feddu ar yr un 'lefel' yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob cyd-destun megis y byddai unigolyn uniaith Saesneg (gweler, er enghraifft, Baker 2011). Serch hynny, mae lle i athrawon ynghyd â disgyblion a'u rhieni i dalu sylw penodol at sut y gellir datblygu sgiliau sydd mor hyfedr â phosib yn y ddwy iaith tra yn yr ysgol. Byddai modd cysylltu hyn â gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.[8]

Cymysg yw'r defnydd o'r Gymraeg a Saesneg wrth addysgu a dysgu, gyda rhai ysgolion a rhai athrawon yn gwneud mwy o ddefnydd o'r ddwy iaith na'i gilydd. Mae'r ddadl am addysgu'n ddwyieithog a'r angen i ddatblygu addysgeg sy'n addas ar gyfer gymdeithas sy'n fwyfwy amlieithog yn fater rhyngwladol yn ogystal â bod yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd ( gweler e.e. May 2013; Cenoz & Gorter 2015). Awgryma dystiolaeth yr ymchwil hwn fod angen cysoni yr hyn a olygir wrth addysg dwyieithog a gwirio i ba raddau y mae athrawon yn trawsieithu[9]'n fwriadol ac effeithiol i ddatblygu medrau dwyieithog pob disgybl.

## 3.2 Argymhellion

1. Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg rhai ysgolion, dylai'r Cyngor i) sicrhau cefnogaeth i gymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter Iaith a derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith drwy gynnal cyrsiau addas; a ii) gryfhau'r drefn o sefydlu gofynion ieithyddol swyddi mewn ysgolion wrth benodi staff newydd.

2. Er mwyn cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion yn unol â pholisi y Cyngor, dylai Ysgol Friars, gyda chefnogaeth y Cyngor, adnabod cyfleoedd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws cwricwlwm a bywyd yr ysgol.

3. Er mwyn gwella cyfleoedd disgyblion i ddefnyddio'r we trwy gyfrwng y Gymraeg, dylai ysgolion wneud defnydd mwy helaeth o'r gwefannau, deunyddiau ac adnoddau ar-lein Cymraeg. Dylai'r Cyngor gefnogi'r ysgolion i gyflawni hyn, lle bo'n briodol.

4. Er mwyn cefnogi disgyblion o gartrefi di-Gymraeg i arddel y Gymraeg, dylai ysgolion a'r Cyngor ddatblygu dulliau (megis sesiynau ymwybyddiaeth iaith, sgyrsiau gyda darpar disgyblion/rhieni, ac ati) i sefydlu agweddau sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg a dwyieithrwydd. Dylid sicrhau bod arferion da sy'n bodoli eisoes yn cael eu rhannu.

5. Er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei wthio ar ddisgyblion mewn modd gorfodol, dylai'r ysgolion gynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am Bolisi Iaith y Cyngor, Y Siarter Iaith ac arferion iaith yr ysgol gan sicrhau eu perchnogaeth hwythau ar y polisi. Dylai pob ysgol sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion deall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg.

[8] *learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/?lang=cy*
[9] Gweler, er enghraifft, Garcìa (2009) am ddatblygiad pellach o'r cysyniad o 'drawsieithu' a fathwyd gan Cen Williams (1996; 2000).

6 Dylid rhannu arferion da sy'n bodoli o safbwynt cefnogi ac annog defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn modd adeiladol, gan osgoi arferion gan rai athrawon sydd yn creu adwaith negyddol, wrthgynhyrchiol.

7 Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gyd-weithio gydag ysgolion i: i) blethu'r polisi i ddatblygu sgiliau dwyieithog hyfedr gyda gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol; a ii) sefydlu'r arfer bod pob athro pwnc yn y cyfnod cynradd ac uwchradd yn monitro ac yn adrodd ar ddatblygiad sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl mewn adroddiadau cynnydd ac yn trafod eu datblygiad gyda'r disgybl a'u rhieni ar achlysur nosweithiau rhieni.

8 Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gyd-weithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg dwyieithog gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg y staff.

## Cyfeiriadau


Baker, C. 2011 *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism* (5th edition), Clevedon: Multilingual Matters.

Cenoz, J. and Gorter, D. (eds) 2015 *Multilingual Education: Between Language Learning and Translanguaging*, Cambridge: Cambridge University Press.

Garcìa, O. 2009 *Bilingual Education in the 21st Century: A Global Perspective*, Chichester: Wiley-Blackwell.

Gruffudd, H. 2000 'Planning for the use of Welsh by young people'. In C.H. Williams (ed.) *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, pp. 173 -207.

Hodges, Rh. 2011 'Towards the Light / Tua'r Goleuni?' Welsh Medium Education for the non-Welsh-speaking in South Wales: A Parent's Choice in *International Conference of Minority Languages Tartu, Estonia 2009 Conference Proceedings,* Esuka-Jeful 2-1.

May, S. (ed.) 2013 *The Multilingual Turn: Implications for SLA, TESOL, and Bilingual Education*, New York: Routledge.

Ó Riagáin, P., Williams, G. & Moreno, F.X.V. 2008 *Young People and Minority Languages: Language Use Outside the Classroom*, Dublin: Centre for Language and Communication Studies, Trinity College, Dublin.

Thomas, E. M. and Roberts, D. B. 2011 'Exploring bilinguals' social use of language inside and out of the the minority language classroom', *Language and Education*, 25(2), 89-108.

Thomas, E. M., Lewis, W. G., Apolloni, D. 2012 'Variation in language choice in extended speech in rimary schools in Wales: implications for teacher education', *Language and Education,* 16(3), 245-261.

Williams, Cen. 1996 'Secondary education:teaching in the bilingual situation'. In C. Williams, G. Lewis & Cen Williams (eds) The Language Policy: Taking Stock, Llangefni: CAI.

Williams, Cen. 2000 'Welsh-medium and bilingual teaching in the further education sector', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 3 (2), 129-148.

## Atodiad 1

Manylion y grwpiau ffocws

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 17.6.15 | Ysgol Glancegin | 5 o flwyddyn 2<br>6 o flwyddyn 6 | 5 o gartrefi uniaith S<br>1 o gartref uniaith C<br>5 o gartref C/S (tadau yn siarad Cymraeg) |
| 17.6.15 | Ysgol Tryfan | 5 o flwyddyn 9<br>5 o flwyddyn 10 | 6 o gartrefi C<br>2 o gartref S<br>2 o gartref C/S |
| 18.6.15 | Ysgol Cae Top | 5 o flwyddyn 2<br>5 o flwyddyn 6 | 5 o gartrefi uniaith S<br>5 o gartrefi dwyieithog (ieithoedd yn cynnwys Sbaeneg/Arabeg/) |
| 19.6.15 | Ysgol Cefn Coch | 6 o flwyddyn 2<br>5 o flwyddyn 6 | 2 o gartref Cymraeg<br>7 o gartrefi C/S<br>2 o gartref S |
| 19.6.15 | Ysgol Tan y Castell | 9 o flwyddyn 6 | 5 o gartref uniaith C<br>1 o gartref uniaith S<br>3 o gartref C/S |
| 19.6.15 | Ysgol Ardudwy | 3 o flwyddyn 7<br>5 o flwyddyn 9<br>2 o flwyddyn 8<br>10 o flwyddyn 10 | 14 o gartrefi uniaith C<br>3 o gartrefi C/S<br>3 o gartrefi S |
| 25.6.15 | Ysgol Nefyn | 5 o flwyddyn 2<br><br>5 o flwyddyn 6 | 1 o gartref uniaith S<br>4 o gartref uniaith C<br><br>1 o gartref uniaith S<br>1 o gartref C/S<br>3 o gartref uniaith C |
| 25.6.15 | Ysgol Sarn Bach | 4 o flwyddyn 2<br><br>8 o flwyddyn 6 | 2 o gartref C/S<br>2 o gartref uniaith S<br><br>1 o gartref uniaith C<br>3 o gartref uniaith S<br>3 o gartref C/S<br>1 o gartref C/Hebraeg |
| 6.7.15 | Ysgol Friars | 5 o flwyddyn 9<br><br>5 o flwyddyn 10 | 2 o gartref C/S<br>8 o gartref uniaith S |
| 7.7.15 | Ysgol Botwnnog | 5 o flwyddyn 9<br><br>4 o flwyddyn 10 | 2 o gartref C/S<br>6 yn dod o gartref C<br>2 yn dod o gartref S |

## Ysgol Glancegin

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 17.6.15 | Ysgol Glancegin | 5 o flwyddyn 2<br>6 o flwyddyn 6 | 5 o gartrefi uniaith S<br>1 o gartref uniaith C<br>5 o gartref C/S (tadau yn siarad Cymraeg) |

**Grŵp bl. 2 (Glancegin)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Pennaeth - Bob amser yn siarad Cymraeg, erioed wedi ei glywed yn siarad Saesneg.
- Athrawon - Bob amser yn siarad Cymraeg.
- Staff y swyddfa - Cymraeg gyda'r plant ond ymwybodol eu bod yn siarad yn Saesneg rhan amlaf gyda'r rhieni.
- Staff sy'n helpu amser chwarae - Pob un ond un yn siarad Cymraeg.
- Amser cinio - Hanner y gwragedd cinio yn siarad Cymraeg a hanner arall ddim. Plant yn dueddol o ofyn yn Saesneg gan mai Saesneg yw iaith arferol y gegin.
- Disgyblion yn siarad Saesneg gyda'i gilydd fel arfer. Rhai yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd ond y rhan fwyaf yn Saesneg.

*"Saesneg da ni'n siarad ar yr iard. Ond tipyn bach-ish o Gymraeg. Ond dan ni'n siarad Cymraeg gydag athrawon."*

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Gwaith ysgol - *"Da ni'n neud gwaith yn Gymraeg ond weithia yn Saesneg."*
- Cofrestr - Cymraeg bob tro.
- Amser chwarae - Saesneg
- Chwarae yn y dosbarth - Cymraeg
- Amser cinio - Saesneg.
- Gwasanaeth - Cymraeg. "*Weithia chydig bach o Saesneg*".
- Darllen yn y dosbarth - Hanner a hanner sef un llyfr Cymraeg ac un Saesneg.

**Iaith Gwersi**

Disgyblion blwyddyn 2 ddim yn adnabod gwyddoniaeth fel pwnc ac felly ddim wedi ateb ar hwnnw.

- Yr athro bob amser yn siarad Cymraeg gyda'r dosbarth mewn Mathemateg a phynciau arall.

- Athro bob amser yn siarad Cymraeg gyda disgyblion unigol mewn Mathemateg a phynciau arall.
- Y disgyblion yn siarad 'dipyn bach' o Gymraeg gyda'r athro. Os yn gofyn cwestiwn gwneud hynny yn Saesneg ond ymateb yn Gymraeg o bryd i'w gilydd. Ond Saesneg yn bennaf.
- Y disgyblion yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn y dosbarth fel arfer. Ond weithiau yn gwneud yn Saesneg.
- Defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol Cymraeg – dim ond yn Gymraeg. (Ond adref yn Saesneg "*Dwi'n hoffi gwefan CBeebies*.")
- Gwaith cartref yw darllen i ddisgyblion blwyddyn 2. Rhai disgyblion yn cael llyfrau Cymraeg yn unig ond rhai yn cael Cymraeg a Saesneg. Disgyblion yn synnu bod yna lyfrau Saesneg i rai plant.
  "*What...you have y llyfr darllen Saesneg?"*

**2. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 5/5 yn well am siarad Saesneg
- 3/5 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg - 2/5 well yn Saesneg
- 5/5 yn well am siarad Saesneg adref
- 5/5 yn well am siarad Saesneg yn gymdeithasol (er yn nodi nad oedden nhw'n cymdeithasu y tu allan i'r ysgol oni bai gyda'r teulu.)

**3. Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

O gael llonydd i weithio mewn grwpiau roedd y criw yn llithro yn rhwydd iawn o'r Gymraeg i'r Saesneg ac yn ôl. Roedd y drafodaeth yn hollol ddwyieithog.

- Deall beth mae pawb yn ei ddweud
- *"I don't know. Fi just yn"*

**4. Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

5/5 eisiau gwneud gwaith ysgol yn Gymraeg. Un yn nodi ei bod yn hoffi gallu ysgrifennu yn Gymraeg. A phawb arall yn cytuno.

**5. Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

Dim unrhyw ymwybyddiaeth o drafodaeth am iaith yn yr ysgol.

**6. Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

Dim gwybodaeth na phrofiad ymwybodol o'r Siarter Iaith.

**Grŵp bl. 6 (Glancegin)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Pennaeth a dirprwy – Cymraeg bob amser
- Athrawon i gyd yn siarad Cymraeg bob amser
- Merched cinio – Un yn medru siarad Cymraeg ond un methu siarad Cymraeg felly pawb yn dueddol o siarad Saesneg gyda nhw.
- Plant fel arfer yn siarad Saesneg gyda'i gilydd – ond yn siarad Cymraeg pan maent yn y dosbarth.

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Gwersi – Cymraeg
- Prosiect 21 (gweithdai perfformio a sioe) – Cymraeg
- Gwasanaeth – Cymraeg
- Cofrestr Cymraeg
- Canu yn y neuadd – Cymraeg
- Sioe Ysgol (Nadolig) – Cymraeg
- Mathemateg – Saesneg
- Amser Aur (gwobrwyo ymddygiad da – dewis y disgyblion) – Saenseg
- Amser dangos – Cymraeg a Saesneg yn dibynnu ar beth ma nhw eisiau.

*"Weithiau neud e'n Saesneg achos mae e'n easier. Pan chi'n chwilio am information ar y we, mae e'n Saesneg." Disgyblion wedi cael gofyn i wneud yn Saesneg.*

- Ar ôl i mi gwestiynu pam bod iaith y dosbarth yn wahanol i iaith yr iard *"Everybody hates Cymraeg. Well not everybody. But mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n dod i'r ysgol yma yn siarad Saesneg adref."*

**Iaith gwersi**

- Athro gyda'r dosbarth mewn Gwyddoniaeth yn Gymraeg
- Athro gyda'r dosbarth mewn Mathemateg yn ddwyieithog
- Athro gyda'r dosbarth mewn gwersi cyffredinol yn ddwyieithog. (egluro tasgau)
- Athro gyda unigolion yn Gymraeg mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg.
- Disgyblion gyda'r athro yn Gymraeg bob amser
- Disgyblion yn Saesneg bob amser
- Taflenni/Gwerslyfrau – dwyieithog bob amser
- Unrhyw ddefnydd o'r we yn digwydd yn Saesneg
- Taflenni gwaith cartref a cyflawni gwaith cartref yn bennaf yn Gymraeg ond ag elfennau dwyieithog e.e. nodyn egluro yn Saesneg
- Darllen – dwyieithog. Dau lyfr ar un adeg bob tro.
- Wrth wneud gwaith grŵp - trafod yn Saesneg ond adrodd nol i'r dosbarth yn Gymraeg.

**2. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 2/6 yn meddwl bod ei sgiliau Saesneg a Cymraeg yn gyfartal
- 4/6 yn teimlo eu bod yn well am siarad Saesneg
- 3/6 yn well am wneud gwaith ysgol yn Saesneg
- 3/6 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 3/6 yn gyfartal am siarad Cymraeg adref
- 3/6 yn well am siarad Saesneg adref
- 6 yn well am siarad Saesneg yn gymdeithasol

**3. Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Y ffaith bod yn medru siarad 2 iaith.
- Gallu siarad i bobl Saesneg a Cymraeg
- *"Mae o'n dda oherwydd pan mae rhywun yn dod fyny i ti a mae nhw siarad Cymraeg ti gallu siarad Cymraeg yn ôl ac pam mae na rhywun yn dod i siarad Saesneg i ti mae ti'n gallu siarad nôl yn Saesneg."*
- Dewis ysgol uwchradd rhwng Tryfan a Friars.

**4. Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- Pawb yn hapus i wneud gwaith ysgol yn Gymraeg.

**5. Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

- Mae'r athro yn dweud *'You're lucky to be able to talk two languages because not many people can.'*

**6. Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

Ymwybodol o'r siarter iaith. Disgrifio fel mynydd sydd angen ei ddringo (darlun o fynydd ar y wal). *"Ti'n cael symud lan y llun o'r mynydd pan ti'n neud ymdrech i siarad Cymraeg. Mae pobl ar y top yn siarad Cymraeg drwy'r amser. Mae fel rhyw fath o scoring system. Mae pawb eisiau cyrraedd y top. Ti'n cael breichled coch am gyrraedd y top."*

## Ysgol Cae Top

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 18.6.15 | Ysgol Cae Top | 5 o flwyddyn 2<br>5 o flwyddyn 6 | 5 o gartrefi uniaith S<br>5 o gartrefi dwyieithog (ieithoedd yn cynnwys Sbaeneg ac Arabeg) |

**Grŵp bl. 2 (Cae Top)**

Roedd y grŵp yma yn fwy ymwybodol na un o'r grwpiau eraill am ieithoedd gwahanol. Roedd nifer o'r plant wedi treulio cryn dipyn o amser mewn gwledydd eraill ac â rhiant a oedd yn siarad iaith arall. Nododd y prifathro hefyd bod dau o'r plant wedi cael bwlch yn eu haddysg Gymraeg tra oeddent mewn ysgolion mewn gwledydd eraill.

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Pennaeth – Cymraeg
- Athrawon - Cymraeg
- Cymorthyddion – Cymraeg yn bennaf
- Staff swyddfa – Cymraeg
- Staff cinio – Saesneg

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Cofrestr – Cymraeg
- Gwasanaeth - Cymraeg (canu yn Gymraeg, cyflwyno yn Gymraeg)
- Mynd i'r parc – Cymraeg pan yn siarad gyda'r athrawon/cymorthyddion ond Saesneg gyda'i gilydd.
- Clwb brecwast - Saesneg neu Cymraeg. (Hanner yr gofalwyr yn Gymraeg a hanner yn Saesneg).
- Clybiau (Hanner awr, coginio, hwyl). Cymraeg bob tro.
- Chwarae – *"Hannar Saesneg a hanner Cymraeg. It depends pwy chi'n siarad gyda."*
- Cyfrifiaduron – Cymraeg
- Amser cinio – *"Saesneg achos dyw'r dinner ladies ddim yn siarad Cymraeg." "Little bit of Cymraeg ond mwy Saesneg."*
- Gwyddoniaeth a Mathemateg
- Seren yr Wythnos – Bob dydd Gwener – yn Gymraeg. Cael sticer am siarad Cymraeg.

**Iaith gwersi**

- Athro yn siarad Cymraeg gyda'r dosbarth Gwyddoniaeth
- Athro yn siarad Cymraeg gyda'r dosbarth Mathemateg

- Athro yn siarad Cymraeg gyda'r dosbarth mewn gwersi yn gyffredinol
- Athro yn siarad Cymraeg gyda unigolion mewn Gwyddoniaeth
- Athro yn siarad Cymraeg gyda unigolion mewn Mathemateg.
- Athro yn siarad Cymraeg gyda unigolion mewn gwersi yn gyffredinol
- Disgyblion yn siarad gyda'i gilydd yn ddwyieithog mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth a gwersi eraill.
- Mae gwerslyfrau a thaflenni gwaith bob amser yn Gymraeg
- Defnyddio cyfrifiaduron a'r we bob amser yn Gymraeg ym mhob pwnc
- Gwaith cartref yn Gymraeg fel arfer mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a Gwersi eraill ond mae taflen i egluro yn Saesneg ar gael i'r rheini sydd yn dymuno.

**2. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 1/5 yn well am siarad Saesneg
- 4/5 yn gyfartal
- 3/5 yn gyfartal wrth wneud gwaith ysgol
- 2/5 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 4/5 yn well am siarad Saesneg adref
- 1/5 yn well am siarad Cymraeg adref
- 4/5 yn well am siarad Saesneg yn gymdeithasol
- 1/5 yn well am siarad Cymraeg yn gymdeithasol

**3. Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Gallu siarad gyda pobl arall
- *"Fi'n cal hwyl yn siarad Cymraeg"*

**4. Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 5/5 eisiau gwneud gwaith ysgol yn Gymraeg.

**5. Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

- Athrawon yn dweud wrth y plant i siarad Cymraeg – ond ddim yn cal ffrae
- Athrawon yn dweud yn garedig i beidio siarad Saesneg (y plant yn hapus gyda hyn.)

**6. Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

- Camu tua'r copa/mynydd - Siarad Cymraeg.

*"Mae mynydd ar y wal yn y dosbarth ac mae lluniau i ni. Mae'r athrawon yn tynnu'r lluniau a'i roi mewn different places os ti'n siarad Cymraeg. Os ti'n siarad Cymraeg bob amser ti ar y top yn yr eira."*
*"Dwi'n hoffi cyrraedd y top. It makes me feel like i've worked hard and done something good."*

**Grŵp bl. 6 (Cae Top)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Pennaeth – Cymraeg
- Dirprwy - Cymraeg
- Athrawon cerddoriaeth – Saesneg yn bennaf
- Staff cefnogi – Saesneg
- Llywodraethwyr - dwyieithog
- Ysgrifenyddes - Cymraeg
- Athrawon – Dibynnu ar y gwersi ond Cymraeg fel arfer

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Cofrestr – Cymraeg
- Criw Celf – Saesneg
- Clwb chwaraeon – Saesneg
- Gwasanaeth – Cymraeg
- Darllen (amser darllen yn y dosbarth) – dwyieithog
- Chwarae – Saesneg
- Canu – Cymraeg
- Cinio – dwyieithog
- Mathemateg – dwyieithog
- Amser chwarae – dwyieithog

*"Dwi wedi clywed rhai pobl yn siarad Cymraeg. Ond dyw e ddim yn language cyntaf y rhan fwyaf ohonom ni. Mae e'n haws siarad Saesneg achos di mam a dad fi ddim yn gwybod Cymraeg."*

**Iaith gwersi**

- Athro yn siarad Cymraeg gyda'r dosbarth Gwyddoniaeth
- Athro yn ddwyieithog yn y dosbarth Mathemateg
- Athro yn siarad Cymraeg fel arfer mewn gwersi cyffredinol
- Athro yn siarad Cymraeg gyda'r disgyblion mewn gwers Wyddoniaeth
- Athro yn ddwyieithog gyda'r disgybl mewn gwers Mathemateg a gwersi cyffredinol
- Disgyblion yn siarad Cymraeg gyda'r athro mewn gwersi Mathemateg, Gwyddoniaeth ac yn gyffredinol.
- Disgyblion yn siarad Saesneg gyda'i gilydd bob amser
- Gwerslyfrau a thaflenni gwaith yn ddwyieithog bob amser.
- Gwybodaeth o'r we yn ddwyieithog bob amser
- Defnyddio'r we yn Saesneg ym mhob gwers

- Taflenni gwaith cartref yn ddwyieithog mewn gwersi Gwyddoniaeth
- Taflenni gwaith cartref yn Saesneg mewn gwersi Mathemateg
- Taflenni gwaith cartref yn ddwyieithog mewn gwersi yn gyffredinol.

**2. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 5/5 yn well am siarad Saesneg yn gyffredinol
- 4/5 yn teimlo'n gyfartal wrth wneud gwaith ysgol
- 1 yn gyfartal adref
- 3/5 yn well am siarad Saesneg adref
- 1/5 yn well mewn iaith arall (Sbaeneg)
- 3/5 yn well am siarad Saesneg yn gymdeithasol
- 2/5 yn gyfartal yn gymdeithasol.

**3. Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- *"Ti'n gallu siarad i lot mwy o bobl"*
- *"Wyt ti efo advantage yn ysgol uwchradd yn wersi iaith."*
- Ffrindiau newydd
- Helpu pobl arall i siarad Cymraeg
- *"Mae pobl yn respecto ti."*
- *"Ti'n cael head start yn yr ysgol uwchradd."*

**4. Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

*"Dwi eisiau cadw i stydio yn Gymraeg achos dwi ddim eisiau colli y iaith."*

*"Dwi eisiau cael lot o different ones. Lot o ieithoedd. Fel latin."*

- 3/5 eisiau astudio yn ddwyieithog
- 2/5 eisiau astudio yn amlieithog

**5. Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

Athrawon yn dweud yn eithaf aml wrth y plant i siarad Cymraeg

**6. Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

Nabod y siarter fel 'Camu tua'r Copa'. Y syniad o ddringo'r mynydd gyda bob ymdrech i siarad Cymraeg.

## Ysgol Tryfan

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 17.6.15 | Ysgol Tryfan | 5 o flwyddyn 9<br>5 o flwyddyn 10 | 6 o gartrefi C<br>2 o gartref S<br>2 o gartref C/S |

**Grŵp bl. 9 a 10 (Tryfan)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Pobl o ardaloedd penodol ond yn siarad Saesneg (ardaloedd o fewn Bangor)
- Disgyblion yn y dosbarth – Cymraeg
- Disgyblion tu allan i'r dosbarth – Saesneg. "Mae'n dibynnu sut ti'n teimlo at yr iaith."
- Athrawon Saesneg – dwyieithog
- Cogyddion – Saesneg
- Gofalwyr yn yr Hafan – Dwyieithog
- Cymorthyddion – Saesneg (rhan fwyaf)
- Y chweched dosbarth – Cymraeg

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Gwersi cyffredinol – Cymraeg
- Amser cinio ac amser egwyl – dwyieithog
- Clwb gwaith cartref – dwyieithog
- Gwersi addysg gorfforol – dwyieithog
- Y gofrestr - Cymraeg
- Clwb adolygu – dwyieithog
- Clwb garddio – Saesneg
- Clwb gwyddbwyll- Saesneg
- Clwb upwards - Saesneg
- Hafan (time out) - Saesneg (Hynny achos y disgyblion sydd yn mynd yno yn bennaf.
- Ymwelwyr - Dwyieithog (Rhai methu siarad Cymraeg e.e. dynas Samba)

**Iaith gwersi**

Gweler atodiad 3

2. **Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 6/10 yn teimlo eu bod yn well yn siarad Cymraeg yn gyffredinol
- 1/10 yn teimlo ei fod yn hollol gyfartal yn gyffredinol
- 3/10 yn teimlo eu bod yn well am siarad Saesneg yn gyffredinol
- 8/10 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 1/10 yn well am wneud gwaith ysgol yn Saesneg

- 1/10 ddim yn siŵr o ran gwaith ysgol

- Yn gymdeithasol a gartref: Yr un fath â'r cwestiwn cyntaf

3. **Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Medru cyfathrebu gyda grŵp eang o bobl
- Haws dysgu iaith arall
- Adnabod pobl gwahanol
- Gwell cyfle am swyddi
- Gwell swyddi yn y pendraw
- Gallu mynd i Goleg y tu allan i Gymru
- Mae'n cŵl gallu siarad dwy iaith
- Help i gadw'r iaith yn fyw
- Gwell cyfleoedd o safbwynt: swyddi, ysgol, ffrindiau, cymdeithasu

4. **Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 8/10 yn dewis Cymraeg
- 1/10 yn dewis Saesneg
- 1/10 ddim yn siŵr

Dewis Cymraeg - *"Mae digon o gyfle i siarad Saesneg y tu allan i'r ysgol dwi ddim ymarfer mwy yn yr ysgol."*
Dewis Cymraeg - *"Dwi wedi arfer siarad Cymraeg yn yr ysgol."*
Dewis Saesneg - "*Bydd Saesneg yn fwy defnyddiol i fi y tu allan i Gymru."*
Ddim yn siŵr - *Mae athrawon da yn effeithio fy newis i."*

5. **Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

*"Mae'r athrawon yn deud y dylen ni siarad Cymraeg." (yn gwasanaeth, ar y coridor, yn y dosbarth.*

*"'Ma na bosteri – ond dyn nhw ddim yn helpu lot."*

*"Dwi'n meddwl bod yr ysgol yma tua 60% Cymraeg. Ym mhob blwyddyn mae yna ganran uchel sy'n siarad Saesneg."*

*"Netho nw ddechre clwb o'r enw Clwb C oedd yn rili da. Odd gynno chi blant sy'n dda am siarad Cymraeg gyda rhai sydd ddim mor gryf. Fatha buddies i bobl gal marfer. Odd y 6ed yno hefyd."*

*"Ti sy'n gorfod newid i siarad Saesneg da nhw, nawn nhw ddim newid."*

*"Mae'n anodd weithia trïo siarad Cymraeg gyda rhywun ti di arfer siarad Saesneg efo nhw ers 10 mlynedd."*

6. **Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

Ddim yn gwybod un rhywbeth am y Siarter Iaith.

## Ysgol Friars

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 6.7.15 | Ysgol Friars | 5 o flwyddyn 9<br><br>5 o flwyddyn 10 | 2 o gartref C/S<br>8 o gartref uniaith S |

**Grŵp Bl. 9 a 10 (Friars)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

**Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Pennaeth – Dwyieithog
- Athrawon – Dwyieithog (Llawer ddim yn medru siarad Cymraeg)
- Staff y swyddfa – Saesneg
- Pobl coginio – Saesneg
- Staff cefnogi – Saesneg yn bennaf
- Mae yna rai athrawon penodol yn ymddangos fel eu bod yn gwneud ymdrech arbennig i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn defnyddio llawer mwy o'r iaith na phawb arall. Tua 3 ohonynt yn yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Gwasanaeth – Saesneg yn bennaf (Yr athro sy'n gyfrifol ddim yn medru siarad Cymraeg)
- Gwersi - Saesneg yn bennaf
- Amser egwyl – Saesneg
- Amser cinio – Saesneg
- Welsh Bac – Cymraeg
- Tocyn iaith – Cymraeg
- Rhai gwersi mae llawer o Gymraeg e.e. hanes a cerdd (hyn yn ddibynnol ar yr athrawon)
- Eisteddfod ysgol – Cymraeg.

*"Dwi ddim yn hoffi gwneud gwersi yn Gymraeg achos dwi'n well yn Saesneg. It makes it a Welsh exercise if we do it in Welsh, not the subject."*

*"Dwi'n teimlo ein bod ni'n colli ein Cymraeg gan bo ni ddim yn siarad e gyda ffrindiau nac mewn gwersi. Dydio ddim yn rhoi practice. Mae o'n pushed ddim yn naturiol."*

*"Dwi'n meddwl bod e'n bwysig dysgu'r gwersi yn Saesneg achos yn Frias ma rhan fwyaf o pobl efo'r Saesneg fel iaith cyntaf. Mae'n bwysig i ni ddeall beth mae'r athrawon yn dweud."*

*"Mae pobl iaith gyntaf yn mynd i Tryfan."*

**Iaith gwersi**

Gweler atodiad 3

2. **Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 10/10 yn well am siarad Saesneg yn gyffredinol
- 10/10 yn well am wneud gwaith ysgol yn Saesneg
- 10/10 yn well am siarad Saesneg adref
- 10/10 yn well am siarad Saesneg yn gymdeithasol

*"Dwi'n chwarae pêl rwyd i Eryri, dwi'n siarad Cymraeg gyda nhw."*

3. **Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Ffrindiau newydd
- Mwy clyfar
- Rhywbeth gwahanol i bobl eraill
- CV
- Dda i'n traddodiad yng Nghymru
- Haws dysgu iaith arall
- Hanes Cymru
- Cadw'r iaith yn fyw
- Mwy o waith ar gael ar ôl gadel addysg
- *"You can get a better job in Wales if you are bilingual."*
- *"It's easier to learn a new language if yor brain is used to switching between two languages."*

4. **Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 1/10 yn dewis astudio'n ddwyieithog
- 9/10 yn dewis astudio'n Saesneg

*"Mae'n haws achos ni'n siarad Saesneg adre. Mae gen i fwy o eiriau Saesneg."*

*"Ond os bydde ti'n cael gwersi yn Gymraeg bydde Cymraeg ti'n gwella! Os ti'n dechre gyda'r ddau iaith hanner a hanner yn blwyddyn 7 bydd e'n iawn. Bydd ti'n gallu neud y ddau yr un fath."*

*"Mae'n anodd i fi fel yr un person yn teulu fi sy'n gallu siarad Cymraeg."*

5. **Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

- Pobl yn dod i mewn i gwersi Ffrangeg ac ati
- Ymwelwyr yn dod i'r neuadd i siarad da ni. Pobl o'r council a pethau – *"Dydy e ddim yn gweithio ac mae'n boring. Mae'n teimlo'n pushed."*
- *"Sŵn i ddim yn dysgu fo swn i ddim efo fo yn barod - mae o'n rhy anodd."*

6. **Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

Na

## Ysgol Cefn Coch

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 19.6.15 | Ysgol Cefn Coch | 6 o flwyddyn 2<br>5 o flwyddyn 6 | 2 o gartref Cymraeg<br>7 o gartrefi C/S<br>2 o gartref S |

**Grŵp bl.2 (Cefn Coch)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

**Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Disgyblion – Cymraeg bob amser
- Athrawon – Cymraeg bob amser (ond gwersi Saesneg diwedd bob pnawn)
- Cymorthyddion a staff cefnogi – Cymraeg
- Pennaeth – Cymraeg
- Gofalwr – Cymraeg
- Gwragedd cinio – Cymraeg

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Cofrestru – Cymraeg
- Gwasanaeth – Cymraeg
- Radio – Cymraeg
- Amser chwarae – Cymraeg
- Amser cinio – Cymraeg
- Cyngor Ysgol – Cymraeg
- Amser Arian/Aur– Cymraeg
- Chwaraeon – Cymraeg
- Clwb brecwast – Cymraeg
- Tripiau – Cymraeg

**Iaith gwersi**

- Athro bob amser yn siarad Cymraeg gyda'r dosbarth mewn gwersi Mathemateg
- Athro bob amser yn siarad Cymraeg gyda'r dosbarth mewn gwersi yn gyffredinol
- Athro bob amser yn siarad yn Gymraeg gydag unigolion mewn gwersi Mathemateg a gwersi eraill.
- Disgyblion bob amser yn siarad yn Gymraeg gyda'r athro.
- Disgyblion bob amser yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd.

- Gwerslyfrau a thaflenni gwaith bob amser yn Gymraeg
- Gwaith cartref yw darllen – un llyfr Cymraeg / un Saesneg i bawb.

**2. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 4/6 yn teimlo bod ei sgiliau siarad Cymraeg/Saesneg yn gyfartal yn gyffredinol
- 1/6 yn teimlo ei bod yn well am siarad Saesneg yn gyffredinol
- 1/6 yn teimlo ei bod yn well am siarad Cymraeg yn gyffredinol
- 6/6 yn teimlo eu bod yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 4/6 yn teimlo eu bod yn gyfartal am siarad Cymraeg/Saesneg adref
- 1/6 yn well am siarad Saesneg adref
- 1/6 yn well am siarad Cymraeg adref
- 6/6 yn nodi bod ei sgiliau yn gyfartal yn gymdeithasol

*"Heblaw am pêl-droed – achos does neb yn siarad Saesneg yn clwb ni!"*

**3. Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Gallu deall pawb
- Hoffi siarad Cymraeg achos mae'n haws

*"Dwi'n licio siarad Cymraeg achos mae'n hawdd 'di?"*

**4. Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 6/6 yn dewis Cymraeg achos eu bod yn deall yn well.

"*Cymraeg rili achos dan ni ddim yn siarad Saesneg lot."*

**5. Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

Ddim wedi trafod y Gymraeg yn yr ysgol.

**6. Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

*"Os dach chi'n dweud ychydig bach o Gymraeg dach chi'n dringo bellach fyny'r mynydd."*

- Pan neud yn dda y disgyblion yn teimlo'n falch ac yn hapus. *"Oherwydd dan ni di cyrradd y top."*

**Grŵp Bl. 6 (Cefn Coch)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Cymorthyddion a staff amser cinio – Cymraeg
- Pennaeth – Cymraeg
- Athrawon – Cymraeg
- Gofalwr – Cymraeg
- Disgyblion – Cymraeg
- Ymwelwyr e.e. plismon– Cymraeg
- Ysgrifenyddes – Cymraeg
- Llywodraethwyr – Cymraeg
- Cyngor Ysgol (gweld hwn yn bwysig!) – Cymraeg
- Llysgenhadon (plant) – Cymraeg
- Myfyrwyr – Cymraeg

Ond plant o'r caban iaith (sydd ar y campws) – yn cael rhywfaint o Saesneg

*"Plant hŷn sy'n dod o rwle arall yn mynd yn syth i'r uned iaith ac yna ma nhw'n dod atom ni y tymor wedyn yn rhugl yn y Gymraeg. Yr un adeg gei di dipyn o amser gyda newydd ddyfodwyr 'di os ydyn nhw ym mlwyddyn 1 neu llai."*

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Gwasanaeth - Cymraeg
- Radio – Cymraeg
- Gwersi Cymraeg/Saesneg – Dwyieithog
- Clybiau ar ôl ysgol – Cymraeg
- Rygbi a phêl droed - Cymraeg ond lot o eiriau Saesneg. "Achos bo ni'n watshad o ar y teledu da ni'n gwbod lot yn Saesneg...fel 'hand ball' ond Cymraeg da ni'n siarad yn y canol.
- Amser darllen - Llyfra Cymraeg a Saesneg
- Rygbi tag / Pêl droed/Pêl rwyd "Be sy'n digwydd ar yr iard ydi...ti'n clywed mwy o eiria Saesneg yn ganol y Gymraeg. Ond Cymraeg ydio run fath."

**Iaith gwersi**

- Athro gyda'r dosbarth yn Gymraeg mewn gwersi Gwyddoniaeth, Mathemateg a gwersi yn gyffredinol.
- Athro gydag unigolion yn Gymraeg mewn gwersi Gwyddoniaeth, Mathemateg a gwersi yn gyffredinol.
- Disgyblion gyda'r athro yn Gymraeg mewn gwersi Gwyddoniaeth, Mathemateg a gwersi yn gyffredinol.
- Disgyblion gyda'i gilydd yn Gymraeg mewn gwersi Gwyddoniaeth, Mathemateg a gwersi yn gyffredinol.

- Gwerslyfrau a thaflenni gwaith yn ddwyieithog mewn gwersi Gwyddoniaeth, Mathemateg a gwersi yn gyffredinol. Dibynnu ar darddiad y gwaith.
- Gwybodaeth o'r we a defnydd o'r we yn Saesneg mewn gwersi Gwyddoniaeth, Mathemateg a gwersi yn gyffredinol.
- Taflenni gwaith cartref fel arfer yn ddwyieithog o ran mathemateg ac yn Gymraeg yn gyffredinol. *"Weithia 'ma 'chydig bach o help i bobl sy' a mam a dad yn siarad Saesneg."*
- Disgyblion yn cyflawni gwaith cartref yn Gymraeg i wersi Mathemateg a gwersi eraill.
- Grwpiau trafod yn Gymraeg mewn gwersi Gwyddoniaeth, Mathemateg a gwersi yn gyffredinol.

**2. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 1/5 yn well am siarad Cymraeg yn gyffredinol
- 1/5 yn well am siarad Saesneg yn gyffredinol
- 3 â sgiliau cyfartal yn gyffredinol
- 5/5 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 4/5 yn well am siarad Cymraeg adref
- 1/5 yn gyfartal adre
- 4/5 yn well am siarad Cymraeg yn gymdeithasol
- 1/5 yn teimlo bod ei sgiliau yn gyfartal yn gymdeithasol

*"Os da ni tu allan i'r ysgol dos na ddim rheola – da ni jest yn siarad yr iaith sy'n dod allan o ceg ni. Yn ysgol da ni siarad rhan fwyaf Cymraeg achos dyna be da ni di dysgu da ni fod i siarad yn yr ysgol. A dwi'n hapus efo hynna."*

*"Adre os dwi'n watshad you tube neu rwbeth dwi'n gwrando arno fe yn Saesneg. So os dwi'n troi at brawd fi yn syth wedyn, weithia dwi'n siarad Saesneg."*

*"Weithia os dwi di watshad rhaglen deledu Saesneg nai fynd mewn i'r gegin a siarad Saesneg fo mam. Ond ma hi'n siarad Cymraeg nôl efo fi."*

*"Os ti'n clywed rwbeth mewn un iaith mae wastad yn haws ail adrodd yn yr un iaith na cyfieithu fo. Ond os mai allan o ngheg i mae o'n dod – yna mae o'n dod yn Gymraeg."*

**3. Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Medru cyfathrebu'n dda
- Helpu achub yr iaith sydd yn marw
- Haws i gael swydd
- Haws deall ac ateb
- Gorfod siarad Saesneg yn y byd go iawn
- Rhan o hunaniaeth ni. *"Mae e'n neud i ni deimlo ein bod ni'n rhan o'r wlad – so os da ni'n Saesneg a methu siarad Cymraeg da ni ddim yn teimlo yn rhan o betha."*

4. **Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 5/5 yn dewis gwneud ysgol yn Gymraeg. *"Da ni'n fwy rhugl yn siarad Cymraeg. So mae o'n haws neud o yn Gymraeg. Os sa ni di tyfu fyny yn yr iaith Saesneg yna bydda'n well gynno ni siarad Saesneg. Rŵan da ni di tyfu fyny yn siarad yr iaith Gymraeg a wedyn da ni'n hoffi siarad Cymraeg."*
- *"Swn i'n deud fod y Gymraeg yn haws beth bynnag. Mae o'n ffonetig."*
- *"Dwi ddim yn hoffi sgwennu Saesneg ond dwi'n hoffi siarad Saesneg."*

5. **Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

- *"Ddim yn yr ysgol, ond dwi di gweld leaflets yn y siopa yn deud wrtha chi ddechre bob sgwrs yn Gymraeg."*
  *"Ma'n gwylltio fi yn yr ardal yma pan dwi'n gweld signs a ballu yn uniaith Saesneg. Y Gymraeg sydd fod ar y top. A ti'n gallu deud pan ma nhw di Google translatio fo."*

6. **Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

- Llenwi holiadur unwaith y flwyddyn.
- *"Ma'n trio neud yn siŵr bo ni'n siarad Cymraeg".*
- *"Trio datblygu ni wrth neud gwaith."*
- Y siarter iaith yn edrych fel mynydd ar y wal yn deud lle ti arni.
- Teimlo bod o'n ffordd dda achos os ti ishe neud yn dda cystadlu efo dy ffrindiau
- Teimlo ei fod yn helpu y rhai sydd ddim yn hollol hyderus/rhugl. *"Dim yn ddefnyddiol i rai fel ni sydd yn siarad Cymraeg drwy'r amser."*

## Ysgol Tan y Castell

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 19.6.15 | Ysgol Tan y Castell | 9 o flwyddyn 6 | 5 o gartref uniaith C<br>1 o gartref uniaith S<br>3 o gartref C/S |

**Grŵp Bl. 6 (Tan y Castell)**

**1. Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

**Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

Y plant yn teimlo eu bod wedi rhannu yn ddwy garfan amlwg. Y bechgyn yn dueddol o siarad Saesneg a'r merched yn siarad Cymraeg. Hyn yn effeithio tipyn ar yr atebion. 2 newydd ddyfodwr ymhlith y bechgyn oedd yn amlwg yn cael bron popeth yn Saesneg. Er hyn roedden nhw yn medru cyfrannu yn rhugl Gymraeg i'r sgwrs yma. Roedd tipyn o ddadlau ac roedd yn amlwg bod y ddau grŵp yn defnyddio ieithoedd mewn ffyrdd gwahanol.

- Athrawes - Cymraeg
- Cymorthydd - Cymraeg
- Prifathrawes - Cymraeg
- Cogydd – Cymraeg /Saesneg
- Helpwr amser chwarae - Cymraeg
- Dynes glanhau – Cymraeg /Saesneg
- Athro cerdd – Cymraeg /Saesneg
- Plant – Cymraeg /Saesneg (carfannau penodol)
- Cyngor ysgol – Cymraeg /Saesneg
- Bydi buarth - Cymraeg /Saesneg
- Plant bach - Cymraeg

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Clwb brecwast – Cymraeg
- Amser chwarae – Saesneg yn bennaf
- Cofrestr – Cymraeg
- Darllen – Cymraeg /Saesneg (un o bob un)
- Gwasanaeth – Cymraeg
- Amser chwarae – Saesneg yn bennaf "Hyd yn oed y plant sy'n dod o gartrefi Cymraeg. Ond dim y plant bach."
- Gwersi – Cymraeg yn bennag (eglurhad yn Saesneg)
- Amser cinio – Cymraeg /Saesneg
- Clwb urdd – Cymraeg drwyr' amser (plant sy'n hoffi Cymraeg sy'n dewis mynd yno)
- Amser aur – Cymraeg /Saesneg (dewis y disgybl)

**Iaith gwersi**

- Athro yn siarad Cymraeg gyda'r dosbarth mewn gwersi Gwyddoniaeth / Mathemateg a gwersi eraill
- Athro yn siarad yn ddwyieithog gyda'r unigolion mewn gwersi Gwyddoniaeth / Mathemateg a gwersi eraill
- Disgyblion yn siarad Cymraeg gyda'r athro mewn gwersi Gwyddoniaeth / Mathemateg a gwersi eraill
- Disgyblion yn ddwyieithog gyda'i gilydd mewn gwersi Gwyddoniaeth / Mathemateg a gwersi eraill (dibynnu ar pa garfan)
- Gwerslyfrau a thaflenni gwaith yn Gymraeg mewn gwersi Gwyddoniaeth / Mathemateg a gwersi eraill.
- Pob defnydd o'r we drwy gyfrwng y Saesneg ym mhob pwnc.
- Taflenni gwaith cartref a chyflawni gwaith cartref yn ddwyieithog o safbwynt Mathemateg a gwersi eraill

**2. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 4/9 yn well am siarad Saesneg yn gyffredinol
- 2/9 yn teimlo bod eu sgiliau yn gyfartal yn gyffredinol
- 3/9 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 6/9 yn gyfartal wrth wneud gwaith ysgol
- 3 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 4/9 yn well am siarad Saesneg adref
- 5 /9 yn well am siarad Cymraeg adref
- 9/9 yn gyfartal yn gymdeithasol.

**3. Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- *"Ti'n gallu gwneud dwywaith gymaint o ffrindiau."*
- *"Os ti'n trio cal job."* – (mam wedi sôn)
- Deall pobl
- Cadw'r iaith i fynd
- Rhan ohonoch chi.

**4. Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 3 yn dewis Cymraeg
- 6 yn dewis dwyieithog
- *"Da ni di tyfu fyny efo fo, dan ni ddim isho iddo fo fynd. Tasa pobl yn deud wrtha i bo rhaid fi siarad Saesneg, sa fi dal yn siarad Cymraeg."*

**5. Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

- Trafodaethau ar y cyngor ysgol ar sut allwn ni wella'r iaith. Dyma pam mae'r buddies buarth yn bodoli er mwyn i bl.6 siarad gyda plant bach.

- Cael ffrae am siarad Saesneg ond dim cosb.
- Y merched eisiau gweld mwy o Gymraeg ond y bechgyn yn meddwl 'Na mae'n iawn."
- *"Y ganolfan iaith wedi newid popeth. Dwi'n gallu siarad Cymraeg."* Ddim wedi gweld hi'n anodd dod nol i'r brif ffrwd.

**6. Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

- Ymwybodol o'r mynydd. *"Ond yr athrawon sy'n penderfynu lle ti arni."*
- Gwybod lle roedden nhw arni o ran dringo'r mynydd.

## Ysgol Ardudwy

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 19.6.15 | Ysgol Ardudwy | 3 o flwyddyn 7<br>5 o flwyddyn 9<br>2 o flwyddyn 8<br>10 o flwyddyn 10 | 14 o gartrefi uniaith C<br>3 o gartrefi C/S<br>3 o gartrefi S |

**Grŵp Bl. 7, 8 a 9 (Ardudwy)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

**Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Plant ar y buarth – dwyieithog (yn ddibynnol ar y cylch ffrindiau)
- Athrawon – Cymraeg
- Ymwelwyr – Dwyieithog (Ond Cymraeg fel arfer)
- Aelodau'r Cyngor Ysgol - Cymraeg
- Staff atodol – dwyieithog

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Gwersi – Cymraeg
- Gwasanaeth – Cymraeg
- Y fagloriaeth – Cymraeg
- Clwb sillafu (gwella iaith) – Saesneg (i blant sy'n gweld Saesneg yn anodd)
- Gwaith cartref yn ddwyieithog - (dewis y disgybl – os yw wedi cael caniatâd)
- Posteri a popeth sy'n weledol – dwyieithog.
- Cerddorfa – Cymraeg
- Clybiau clwb gwaith cartref – Cymraeg

*"Ma na lot o Saesneg tu allan i'r dosbarth. Ma na rai yn dewis Cymraeg. Ond mwy o Saesneg. Os oes un yn siarad Saesneg ma pawb yn newid."*

*"Ma pawb yn gallu siarad Cymraeg, ond i bobl sy'n siarad Saesneg adref, mae jest yn haws siarad Saesneg."*

**Iaith gwersi**

Gweler atodiad 3

2. **Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 8/10 yn well am siarad Saesneg yn gyffredinol
- 2/10 yn well am siarad Cymraeg yn gyffredinol
- 6/10 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 4/10 yn gyfartal wrth wneud gwaith ysgol
- 8/10 yn well am siarad Cymraeg adref

- 2/10 yn well am siarad Saesneg adref
- 5/10 yn well yn Gymraeg yn gymdeithasol
- 3/10 yn gyfartal yn gymdeithasol
- 2/10 yn well am siarad Saesneg yn gymdeithasol.

**3. Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Haws dysgu 3ydd neu 4ydd iaith
- Gallu siarad gyda mwy o bobl
- Haws cael swydd
- Gwybod sut i wneud dy waith a dilyn cyfarwyddiadau
- Iaith gyfrinachol pan ti dramor
- Mwy diddorol i bobl ti'n cyfarfod
- Mae'n sgil ychwanegol
- Mae'n agor drysau a rhoi dewis i ti

**4. Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

Ddim wedi gofyn y cwestiwn yn yr ysgol yma (ar gais y prifathro).

**5. Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

- Cael cyflwyniad am yr iaith yn gwasanaeth weithiau
- Athrawon yn 'hoffi' atgoffa ond ddim yn cael llawer o lwc

**6. Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

Na

**Grŵp Bl. 10 (Ardudwy)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

   - Disgyblion - Saesneg yn bennaf ond rhai grwpiau Cymraeg -
   - Gofalwr – dwyieithog (medru siarad Cymraeg ond dibynnu ar iaith cartref y disgybl)
   - Gweithwyr y gegin – Saesneg
   - Athrawon – Cymraeg
   - Pennaeth – Cymraeg
   - Cymorthyddion – dwyieithog (dibynnu ar pwy ma nhw'n helpu)

   **Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

   - Gwasanaeth – Cymraeg
   - Gwersi – Cymraeg
   - Moodle – Cymraeg
   - Eisteddfod ysgol – Cymraeg
   - amser egwyl – Saesneg yn bennaf
   - amser cinio – Saesneg yn bennaf

   **Tabl gwersi –** Gweler atodiad 3

   *"Pan oeddwn i eisiau gwneud fy ngwaith yn Saesneg roedd yr ysgol wedi gwrthod."*

2. **Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

   - 1/10 yn teimlo bod ei siliau siarad yn gyfartal yn gyffredinol
   - 2/10 yn well am siarad Saesneg yn gyffredinol
   - 7/10 yn well am siarad Cymraeg yn gyffredinol
   - 7/10 yn teimlo yn gyfartal wrth wneud gwaith ysgol
   - 3/10 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
   - 1/10 yn well am siarad Saesneg adref
   - 8/10 yn well am siarad Cymraeg adref
   - 1/10 yn gyfartal adref
   - 3/10 yn well am gymdeithasu yn Saesneg
   - 1/10 yn well am gymdeithasu yn Gymraeg
   - 6/10 yn gyfartal wrth gymdeithasu

3. **Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

   - Helpu gyda cael swydd
   - Gwneud ni'n unigryw
   - Hunaniaeth - y teimlad o berthyn

4. **Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

   Ddim wedi gofyn y cwestiwn yn yr ysgol yma (ar gais y prifathro).

5. **Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

   - *"Athrawon yn swnian ac yn gweiddi arnom ni i siarad Cymraeg."*
   - Dadleuon o fewn cylchoedd ffrindiau (hynny yn fwy iach ym marn y disgyblion)
   - Ddim yn hoffi cal gwasanaeth am ddefnyddio iaith. Teimlo bod yr ysgol yn siarad lawr â nhw.

6. **Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

   Na

## Ysgol Nefyn

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 25.6.15 | Ysgol Nefyn | 5 o flwyddyn 2<br><br>5 o flwyddyn 6 | 1 o gartref uniaith S<br>4 o gartref uniaith C<br><br>1 o gartref uniaith S<br>1 o gartref C/S<br>3 o gartref uniaith C |

**Grŵp Bl. 2 (Nefyn)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Pennaeth
- Athrawon
- Cymorthyddion (antis)
- Pobl 'agor y llyfr'
- Dirprwy
- Gwragedd cinio
- Gofalwr

*"Dwi byth yn siarad Saesneg efo'r athrawon neu byddwn i'n cael row!"*

Holl staff yr ysgol hon yn medru siarad Cymraeg. Y disgyblion yn siarad Cymraeg gyda bob aelod o'r staff yn ddiamod.

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Amser chwarae - Cymraeg (weithiau rhai gemau yn Saesneg achos dynwared rhaglenni teledu.
- Clwb brecwast - Cymraeg
- Coginio – Cymraeg
- Amser aur - Cymraeg
- Urdd - Cymraeg
- Amser Aur – Cymraeg
- Addysg gorfforol – Cymraeg
- Cardiau clod – Cymraeg
- Amser darllen – Cymraeg
- Gwasanaeth – Cymraeg
- Siart mynydd – Cymraeg
- Snac – Cymraeg

**Iaith gwersi**

Pob gwers a phob ymwneud ag eraill yn digwydd yn Gymraeg o fewn awyrgylch y dosbarth.
Ychwanegiad Saesneg ar waelod y gwaith cartref i gefnogi rhieni i gefnogi eu plant.
Pob ymwneud â'r we yn digwydd yn Saesneg.

2. **Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 4/5 yn teimlo'n well yn siarad Cymraeg yn gyffredinol
- 1/5 yn teimlo bod ganddo sgiliau cyfartal yn gyffredinol
- 3/5 yn teimlo bod eu sgiliau yn gyfartal wrth wneud gwaith ysgol
- 1/5 yn teimlo ei fod yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 1/5 yn teimlo ei fod yn well am wneud gwaith ysgol yn Saesneg (am ei fod yn darllen llawer yn ei farn ef.)
- Pawb yn teimlo eu bod yn gyfartal adre. (Hyn yn taro'n rhyfedd o ystyried cefndir ieithyddol y grŵp. O holi ymhellach roedd hi'n amlwg fod y plant yn dynwared cymeriadau megis Frozen yn Saesneg ac roedd hynny yn dylanwadu'n drwm ar iaith chwarae adref.
- Yr un fath â'r uchod yn gymdeithasol. Defnyddio Saesneg i 'actio' dynwared.
  *"Gema fath mynd ar gwyliau. Cogio bod ar wylia. Neu siarad fo fi fy hun neu efo'r dolia. Saesneg ma nw'n siarad. Dwi di gweld nhw ar y teledu. Elsa ac Anna*."

3. **Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Mae'n cŵl
- Deall pobl o wledydd eraill
- Braf i siarad gyda ffrindiau o wledydd eraill hefyd
- Dysgu pobl arall sut i siarad Cymraeg

4. **Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 2/5 yn dewis gwneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 3/5 yn dewis dwyieithog

5. **Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

Ddim yn ymwybodol

6. **Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

Cynllun o'r enw Siart Fynydd – y broses o gael lluniau o unigolion ar y llun. Yr athro yn gwobrwyo rhai am siarad Cymraeg wrth eu symud i fyny'r mynydd.

**Grŵp bl.6 (Nefyn)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Pennaeth - Cymraeg
- Athrawon – Cymraeg
- Cogyddes – Cymraeg
- Uned Gymraeg – Cymraeg
- Gofalwraig – Cymraeg
- Help y dosbarth – Cymraeg
- Disgyblion Cymraeg bron bob amser (heblaw gyda pobl newydd i'r ysgol)

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Cofrestr - Cymraeg
- Gwasanaeth – Cymraeg
- Gwersi – Cymraeg
- Chwaraeon – Cymraeg
- Clwb gweu/pêl droed /criced – Cymraeg
- Clwb brecwast – Cymraeg
- Amser chwarae a cinio – Tipyn o Saesneg am bod rhai methu siarad Cymraeg. Y criw Cymraeg yn teimlo drostyn nhw ac yn troi i'r Saesneg.

"*Ma gynnon ni gytundeb amser chware lle dan ni'n gofalu am y plant bach. Ma hynna yn gorfod bod yn Gymraeg. Os na da ni'n neud dydan nhw ddim."*

*"Dwi weithiau yn siarad Saesneg amser cinio achos ma pobl ar bwrdd fi yn siarad Saesneg. Ma nhw'n siarad Saesneg adra."*

**Iaith gwersi**

- Popeth yn Gymraeg heblaw am waith cartref.
- Gwybodaeth o'r we bob amser yn Saesneg. Ond cyfieithu fel arfer neu ateb yn Gymraeg
- Eglurhad o waith cartref Cymraeg ar gael i unigolion penodol

2. **Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 4/5 yn well am siarad Cymraeg yn gyffredinol
- 1/5 sgiliau cyfartal yn gyffredinol
- 1/5 sgiliau cyfartal wrth wneud gwaith ysgol
- 4/5 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 4/5 yn well am siarad Cymraeg adref
- 1/5 yn well am siarad Saesneg adref
- 2 â sgiliau cyfartal wrth gymdeithasu
- 3 yn well am gymdeithasu yn Gymraeg

3. **Beth sy’n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Medru deall pawb
- Helpu i gyfathrebu
- Bod yn wahanol
- *“Da ni’n gallu dewis be i siarad”*
- Dysgu iaith i bobl arall – helpu nhw
- Haws dysgu iaith arall
- *“Ma’n helpu chi i gyfathrebu efo pawb da chi isho gneud efo.”*

4. **Petai gennych ddewis, a fyddech chi’n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- Byddai pawb yn dewis astudio yn Gymraeg
- Un yn meddwl y byddai’n dewis Saesneg yn yr ysgol uwchradd. *“Achos ma sgwennu Saesneg fi’n well medda athro fi. Dwi’n darllen lot o Saesneg.”*

5. **Ydych chi’n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

- Wedi llenwi holiaduron iaith yn flynyddol (i’r cyngor yng Nghaerdydd)
- Cyngor ysgol yn trio datblygu amser chwarae i helpu plant sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg.
- *“Ma na holiadur bob tymor sy’n gofyn i ni faint mor bwysig di’r Gymraeg i ni. A faint da ni’n siarad. Mae o’n mynd i’r cyngor yng Nghaerdydd” .*
- *“Dwi’n deall bod yr ysgol yma yn Gymraeg ac mae’n bwysig yn yr ardal yma. Felly dwi wedi dysgu Cymraeg yn iawn.”*
- *“Mae o’n bentre Cymraeg yng nghanol Cymru. Ma na fwy a mwy o bobl yn siarad Saesneg ac ma angen llefydd fel Llangybi i neud ni ddysgu bob gyda’n gilydd a siarad Cymraeg.”*

6. **Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau’r Siarter Iaith?**

- Y darlun o’r mynydd ar wal yr ystafell ddosbarth
- *“Bob tro ‘ma rhywun yn siarad Cymraeg dan ni’n cal symud ein tocyn ni fyny’r mynydd. Netho ni neud o am flwyddyn ond nawr ma pawb di anghofio amdano fo.”*

## Ysgol Sarn Bach

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 25.6.15 | Ysgol Sarn Bach | 4 o flwyddyn 2<br><br>8 o flwyddyn 6 | 2 o gartref C/S<br>2 o gartref uniaith S<br><br>1 o gartref uniaith C<br>3 o gartref uniaith S<br>3 o gartref C/S<br>1 o gartref C/Hebraeg |

**Grŵp Bl. 2 (Sarn Bach)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

**Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Pennaeth – Cymraeg
- Athrawon – Cymraeg
- Athrawon cyflenwi – Cymraeg
- Cymorthyddion – Cymraeg
- Gofalwraig – Cymraeg
- Plant – ddim yn siarad Cymraeg drwy'r amser wrth chwarae. Hefyd wrth fwyta amser cinio dan ni'n siarad Saesneg.

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Gwasanaeth – Cymraeg
- Amser ffrwyth – Cymraeg
- Chwaraeon – Cymraeg
- Urdd – Cymraeg
- Cinio - Cymraeg yn bennaf ond ychydig o Saesneg
- Amser chwarae - Cymraeg yn bennaf ond ychydig o Saesneg
- Gwersi – Cymraeg
- Amser aur - Cymraeg
- Darllen – dwyieithog

*"Ma plant bl.6 bob amser yn siarad Saesneg. Ond ma'r plant bach yn siarad Cymraeg."*

**Iaith gwersi**

- Popeth yn Gymraeg yn yr ysgol hon.
- Mae help i gael wrth gyflawni gwaith cartref - hynny yw canllawiau i rieni
- Dim defnydd o'r we yn cael ei wneud yn yr ysgol yma.

2. **Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 2/4 yn well am siarad Cymraeg yn gyffredinol
- 2/4 yn well am siarad Saesneg yn gyffredinol
- 4 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 2 yn well am siarad Cymraeg adref
- 1 yn well am siarad Saesneg adref
- 1 yn gyfartal adref
- 2 yn well yn Gymraeg wrth gymdeithasu
- 2 yn gyfartal wrth gymdeithasu .

3. **Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

   Ddim yn gwybod

4. **Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 2 yn dewis astudio'n Gymraeg
- 2 yn dewis astudio'n Saesneg.

5. **Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

   "*Ma'r athrawon wastad yn deud wrtha ni i siarad Cymraeg.*"

6. **Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

   Wedi cal holiadur ynglŷn â Cymraeg a Saesneg – ddim yn gwybod i bwy nac i ba bwrpas.

**Grŵp bl.6 (Sarn Bach)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Athrawon – Cymraeg
- Cymorthyddion - Pawb yn medru Cymraeg ond weithiau yn helpu yn Saesneg os oes rhai yn gweld Cymraeg yn anodd
- Glanhawr -Cymraeg
- Staff cinio – Cymraeg
- Pennaeth – Cymraeg
- Ymwelwyr - Dwyieithog (dibynnu ar y weithgaredd)

**Beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac ym mha iaith?**

- Gwersi – Cymraeg
- Amser cinio – Mwy o Saesneg ond rhai yn siarad Cymraeg
- Athletau – Cymraeg
- Cyfnod darllen – dwyieithog (dewis personol)
- Gwasanaeth – Cymraeg
- Seren yr wythnos – Cymraeg
- Ymarfer corff – Cymraeg
- Tripiau – Cymraeg
- Chware pêl droed – Cymraeg ond lot o eiriau Saesneg. *"Dan ni'n gweiddi petha fel 'free kick."*
- *"Dan ni'n siarad Saesneg gyda'n gilydd weithiau. Ond ma mwy o Gymraeg sŵn i'n deud. Ma'n dibynnu fo pwy dwi'n siarad."*

**Iaith gwersi**

- Popeth yn Gymraeg ym mhob pwnc yma.
- Cefnogaeth ychwanegol gyda gwaith cartref
- Defnydd o'r we yn Saesneg.

2. **Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 1/8 yn well am siarad Cymraeg yn gyffredinol
- 5/8 yn siarad Saesneg yn gyffredinol
- 2/8 yn gyfartal yn gyffredinol
- 1/8 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 5/8 yn well am wneud gwaith ysgol yn Saesneg
- 2/8 â sgiliau cyfartal yn yr ysgol
- 5/8 yn well am siarad Saesneg adre
- 2/8 â sgiliau cyfartal adre
- 1/8 yn well am siarad Cymraeg adre
- 8/8 yn well am siarad Saesneg yn gymdeithasol

**3. Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- haws dysgu iaith arall
- helpu ni fod yn glyfar
- cael ffrindiau gwahanol
- gallu siarad gyda pawb
- teimlo'n ddiogel

*"Dwi ddim yn gwbod, dwi ddim di meddwl llawar. Dwi'n neud o heb feddwl."*

**4. Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 6/8 yn dewis Saesneg
- 2/8 yn dewis Cymraeg

**5. Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

- *"Dan ni'n siarad am y siartar iaith. Etho ni i nôl gwobr arian. Ma'n golygu faint da chi'n siarad Cymraeg yn yr ysgol. Ma rhaid i chi siarad llwyth i gal aur."*
- *"Ma'n bwysig i gadw'r iaith i fyw. Does dim llawer o bobl yn siarad Cymraeg. Ma na bobl yn dod yma a troi'r iaith yn lle bo ni'n troi nhw."*
- Trafod ar y cyngor ysgol hefyd – sut i fynd ati i wella. Ymgyrch amser chwarae a creu syniadau newydd. Sgipio a canu'n Gymraeg ag ati. Neb yn hoffi hynny llawer – teimlad ei bod yn gorfod chwarae mewn ffordd arbennig.

**6. Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

Uchod

## Ysgol Botwnnog

| Dyddiad | Ysgol | Nifer | Iaith |
|---|---|---|---|
| 7.7.15 | Ysgol Botwnnog | 5 o flwyddyn 9<br><br>5 o flwyddyn 10 | 2 o gartref C/S<br>6 yn dod o gartref C<br>2 yn dod o gartref S |

**Grŵp Bl.9 a 10 (Ysgol Botwnnog)**

1. **Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?**

   **Pwy sydd yn yr ysgol a pha iaith mae nhw'n siarad?**

- Athrawon  - pob un yn siarad Cymraeg heblaw am yr adran Saesneg
- Merched cinio – Cymraeg (gwrthod siarad Saesneg)
- Gofalwr – Cymraeg
- Technegydd – Cymraeg
- Nyrs – Cymraeg
- Pennaeth – Cymraeg
- Disgyblion – un Saesneg yn dueddol o droi iaith y lleill. Ond pawb yn medru siarad Cymraeg. Cymraeg yw'r mwyafrif.

**Beth sy'n digwydd o ran y Gymraeg?**

- Gwersi – Cymraeg
- Cofrestri – Cymraeg
- Llyfrgell – Cymraeg
- Amser egwyl – Cymraeg
- Amser cinio – Cymraeg
- Posteri – Cymraeg
- Sgrîn digidol – Cymraeg
- Gweithdai (un neu ddau wedi bod yn Saesneg gan ddarparwr allanol)
- Gwefan yr ysgol – Cymraeg

Mae'r uchod i gyd yn digwydd yn Gymraeg ac mae'r elfennau gweledol e.e. posteri, gwefan yn ddwyieithog.

Mae yna gefnogaeth ychwanegol i newydd ddyfodwyr i dderbyn pecynnau gwaith cyfrwng Saesneg. Ond maent yn cyflwyno gwaith yn Gymraeg.

**Iaith Gwersi**

Gweler atodiad 3

2. **Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?**

- 2/10 yn well am siarad Saesneg
- 6/10 yn well am siarad Cymraeg
- 2/10 yn teimlo bod eu sgiliau yn gyfartal
- 6/10 yn well am wneud gwaith ysgol yn Gymraeg
- 2/10 yn well am neud gwaith ysgol yn Saesneg
- 2/10 yn gyfartal yn yr ysgol
- 6/10 yn well yn Gymraeg adref
- 3/10 yn well adref yn Saesneg
- 1/10 yn gyfartal adref
- 6/10 yn well yn gymdeithasol Gymraeg
- 2/10 yn well yn cymdeithasu yn Saesneg
- 1/10 yn teimlo'n gyfartal wrth gymdeithasu.

3. **Beth sy'n dda/ ddim yn dda am siarad dwy iaith?**

- Gwell cyfle am swyddi
- Medru cyfieithu
- Gallu siarad gyda mwy o bobl
- Bod yn fwy diddorol fel unigolyn
- Agor drysau a rhoi cyfleoedd
- Magu hyder

4. **Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?**

- 4 eisiau astudio yn Gymraeg
- 1 eisiau astudio yn Saesneg
- 5 eisiau astudio yn ddwyieithog.

*"Dwi isho neud o hanner a hanner achos er bo fi'n hoffi siarad Cymraeg dwi'n gweld gwaith yn haws yn Saesneg."*

5. **Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?**

*"Os dach chi'n siarad Saesneg amser egwyl ma'r athrawon yn gofyn i chi pam bo chi'n neud hynny."*

*"Ma na bosteri o gwmpas y lle ond dan nhw ddim yn gweithio. Does neb yn sylwi!"*

6. **Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?**

Na

## Atodiad 2: Cwestiynau grŵp ffocws

1. Beth sy'n digwydd yma o ran defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a ieithoedd eraill?

2. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n well am siarad Cymraeg/ Saesneg/Cyfartal?

3. Beth sy'n dda/ddim yn dda am siarad dwy iaith?

4. Petai gennych ddewis, a fyddech chi'n dewis gwneud eich gwaith ysgol yn Gymraeg/Saesneg?

5. Ydych chi'n siarad am y Gymraeg neu am iaith yn gyffredinol yn yr ysgol?

6. Ydych chi wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Siarter Iaith?

Tabl 5: Defnydd iaith gwersi: Ysgol Tryfan, Disgyblion Bl: 9 (nifer = 5)

| | Gwyddoniaeth | Mathemateg | Gwersi eraill |
|---|---|---|---|
| **Athro gyda'r dosbarth** | 100% | 100% | 100% |
| **Athro gyda unigolion** | 100% | 100% | 40% / 60% |
| **Disgyblion gyda'r athro** | 100% | 100% | 40% / 60% |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | 60% / 40% | 40% / 60% | 60% / 40% |
| **Gwerslyfr / Taflenni gwaith** | 80% / 20% | 100% | 80% / 20% |
| **Gwybodaeth o'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **Defnyddio'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **E-bost** | amh. | amh. | amh. |
| **Mewnrwyd** | 100% | 100% | 100% |
| **Taflenni gwaith cartref** | 60% / 40% | 100% | 80% / 20% |
| **Cyflawni gwaith cartref** | 100% | 100% | 100% |

**Allwedd:** **Cymraeg (piws)** **Saesneg (glas golau)** **Dwyieithog (glas)** **amh: amherthnasol**

Tabl 6: Defnydd iaith gwersi Ysgol Tryfan, Disgyblion Bl: 10 (nifer = 5)

| | Gwyddoniaeth | Mathemateg | Gwersi eraill |
|---|---|---|---|
| **Athro gyda'r dosbarth** | 100% | 100% | 100% |
| **Athro gyda unigolion** | 20% / 80% | 100% | 100% |
| **Disgyblion gyda'r athro** | 100% | 100% | 100% |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | 100% | 100% | 100% |
| **Gwerslyfr / Taflenni gwaith** | 100% | 20% / 80% | 100% |
| **Gwybodaeth o'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **Defnyddio'r we** | 20% / 80% | 100% | 100% |
| **E-bost** | 60% / amh. | 60% / amh. | 60% / amh. |
| **Mewnrwyd** | amh. | amh. | 100% |
| **Taflenni gwaith cartref** | 100% | 100% | 100% |

**Allwedd:** **Cymraeg (piws)** **Saesneg (glas golau)** **Dwyieithog (glas)** **amh: amherthnasol**

Tud. 136

Tabl 7: Defnydd iaith gwersi Ysgol Botwnnog, Disgyblion Bl:9   (nifer = 4)

| | Gwyddoniaeth | Mathemateg | Gwersi eraill |
|---|---|---|---|
| **Athro gyda'r dosbarth** | 25% 75% | 75% 25% | 100% |
| **Athro gyda unigolion** | 100% | 100% | 50% 50% |
| **Disgyblion gyda'r athro** | 25% 75% | 100% | 100% |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | 100% | 75% 25% | 50% 50% |
| **Gwerslyfr / Taflenni gwaith** | 100% | 100% | 50% 50% |
| **Gwybodaeth o'r we** | 75% 25% | 100% | 25% 75% |
| **Defnyddio'r we** | 100% | 100% | 75% 25% |
| **E-bost** | amh. | amh. | amh. |
| **Mewnrwyd** | amh. | amh. | amh. |
| **Taflenni gwaith cartref** | 75% 25% | 100% | 75% 25% |
| **Cyflawni gwaith cartref** | 75% 25% | 100% | 75% 25% |

**Allwedd:** **Cymraeg (piws)** **Saesneg (glas golau)** **Dwyieithog (glas)** **amh: amherthnasol**

Tabl 8: Defnydd iaith gwersi Ysgol Botwnnog, Disgyblion Bl:10   (nifer = 5)

Tud. 137

| | Gwyddoniaeth | Mathemateg | Gwersi eraill |
|---|---|---|---|
| **Athro gyda'r dosbarth** | 80% / 20% | 100% | 80% / 20% |
| **Athro gyda unigolion** | 60% / 40% | 100% | 80% / 20% |
| **Disgyblion gyda'r athro** | 80% / 20% | 100% | 80% / 20% |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | 40% / 60% | 80% / 20% | 60% / 20% / 20% |
| **Gwerslyfr / Taflenni gwaith** | 40% / 60% | 60% / 40% | 60% / 40% |
| **Gwybodaeth o'r we** | 20% / 40% / 40% | 80% / 20% | 100% |
| **Defnyddio'r we** | 80% / 20% | 100% | 60% / 40% |
| **E-bost** | amh. | amh. | amh. |
| **Mewnrwyd** | amh. | amh. | amh. |
| **Taflenni gwaith cartref** | 60% / 40% | 100% | 40% / 60% |
| **Cyflawni gwaith cartref** | 80% / 20% | 100% | 80% / 20% |

**Allwedd:** **Cymraeg (piws)** Saesneg (glas golau) **Dwyieithog (glas)** **amh: amherthnasol**

Tabl 9: Defnydd iaith gwersi Ysgol Ardudwy, Disgyblion Bl:7 (nifer = 3)

| | Gwyddoniaeth | Mathemateg | Gwersi eraill |
|---|---|---|---|
| **Athro gyda'r dosbarth** | 100% | 100% | 100% |
| **Athro gyda unigolion** | 100% | 100% | 100% |
| **Disgyblion gyda'r athro** | 100% | 100% | 100% |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | 33.3% \| 66.6% | 100% | 100% |
| **Gwerslyfr / Taflenni gwaith** | 100% | 100% | 100% |
| **Gwybodaeth o'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **Defnyddio'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **E-bost** | amh. | amh. | amh. |
| **Mewnrwyd** | 100% | 100% | 100% |
| **Taflenni gwaith cartref** | 100% | 100% | 100% |
| **Cyflawni gwaith cartref** | 100% | 100% | 100% |
| **Grwpiau Trafod** | 100% | 100% | 100% |
| **Tasg Llafar** | 100% | 100% | 100% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darllen** | 66.6% | 33.3% | 100% | 66.6% | 33.3% |

**Allwedd:** **Cymraeg (piws)** **Saesneg (glas golau)** **Dwyieithog (glas)** **amh: amherthnasol**

Tud. 139

Tud. 140

Tabl 10: Defnydd iaith gwersi Ysgol Ardudwy, Disgyblion Bl:8   (nifer = 3)

| | Gwyddoniaeth | Mathemateg | Gwersi eraill |
|---|---|---|---|
| **Athro gyda'r dosbarth** | 100% | 66.6% 33.3% | 100% |
| **Athro gyda unigolion** | 100% | 100% | 100% |
| **Disgyblion gyda'r athro** | 100% | 33.3% 66.6% | 100% |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | 100% | 100% | 100% |
| **Gwerslyfr / Taflenni gwaith** | 100% | 100% | 100% |
| **Gwybodaeth o'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **Defnyddio'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **E-bost** | amh. | amh. | 100% |
| **Mewnrwyd** | 100% | 100% | 100% |
| **Taflenni gwaith cartref** | 66.6% 33.3 | 33.3% 66.6% | 33.3% 66.6% |
| **Cyflawni gwaith cartref** | 33.3% 66.6% | 33.3% 66.6% | 33.3% 66.6% |

**Allwedd:** **Cymraeg (piws)** **Saesneg (glas golau)** **Dwyieithog (glas)** **amh: amherthnasol**

Tabl 11: Defnydd iaith gwersi Ysgol Ardudwy, Disgyblion Bl:9 (nifer = 4)

| | Gwyddoniaeth | Mathemateg | Gwersi eraill |
|---|---|---|---|
| **Athro gyda'r dosbarth** | 100% | 100% | 100% |
| **Athro gyda unigolion** | 75%<br>25% | 75%<br>25% | 100% |
| **Disgyblion gyda'r athro** | 100% | 100% | 100% |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | 100% | 100% | 100% |
| **Gwerslyfr / Taflenni gwaith** | 100% | 100% | 100% |
| **Gwybodaeth o'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **Defnyddio'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **E-bost** | amh. | amh. | 100% |
| **Mewnrwyd** | amh. | amh. | 100% |
| **Taflenni gwaith cartref** | 100% | 100% | 100% |
| **Cyflawni gwaith cartref** | 100% | 100% | 100% |
| **Grwpiau Trafod** | 100% | 100% | 100% |
| **Tasg Llafar** | 100% | 100% | 100% |

**Allwedd:** **Cymraeg (piws)** **Saesneg (glas golau)** **Dwyieithog (glas)** **amh: amherthnasol**

Tabl 12: Defnydd iaith gwersi: Ysgol Ardudwy, Disgyblion Bl: 10 (nifer = 10)

Tud. 142

| | Gwyddoniaeth | Mathemateg | Gwersi eraill |
|---|---|---|---|
| **Athro gyda'r dosbarth** | 20% 80% | 40% 60% | 20% 80% |
| **Athro gyda unigolion** | 30% 70% | 90% | 70% 30% |
| **Disgyblion gyda'r athro** | 30% 70% | 30% 70% | 50% 50% |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | 70% 30% | 60% 40% | 60% 30% |
| **Gwerslyfr / Taflenni gwaith** | 90% | 80% 20% | 80% 20% |
| **Gwybodaeth o'r we** | 30% 70% | 30% 70% | 60% 40% |
| **Defnyddio'r we** | 100% | 100% | 70% 30% |
| **E-bost** | 20% 40% 40% | 20% 30% 50% | 20% 80% |
| **Mewnrwyd** | 40% 60% | 40% 60% | 40% 60% |
| **Taflenni gwaith cartref** | 60% 40% | 60% 40% | 60% 40% |
| **Cyflawni gwaith cartref** | 100% | 100% | 100% |

**Allwedd:** **Cymraeg (piws)** **Saesneg (glas golau)** **Dwyieithog (glas)** **amh: amherthnasol**

Tabl 13: Defnydd iaith gwersi Ysgol Friars, Disgyblion Bl:9 a 10 (nifer = 10)

| | Gwyddoniaeth | Mathemateg | Gwersi eraill |
|---|---|---|---|
| **Athro gyda'r dosbarth** | 100% | 20% 80% | 100% |
| **Athro gyda unigolion** | 100% | 60% 40% | 100% |
| **Disgyblion gyda'r athro** | 100% | 40% 60% | 100% |
| **Disgyblion gyda'i gilydd** | 100% | 100% | 100% |
| **Gwerslyfr / Taflenni gwaith** | 100% | 100% | 100% |
| **Gwybodaeth o'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **Defnyddio'r we** | 100% | 100% | 100% |
| **E-bost** | amh. | amh. | amh. |
| **Mewnrwyd** | 100% | 100% | 100% |
| **Taflenni gwaith cartref** | 90% | 90% | 90% |
| **Cyflawni gwaith cartref** | 100% | 100% | 100% |

**Allwedd:** **Cymraeg (piws)** **Saesneg (glas golau)** **Dwyieithog (glas)** **amh: amherthnasol**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **22 Medi 2015** |
| **TEITL YR EITEM** | **YMCHWILIAD CRAFFU GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG – BRIFF DRAFFT** |

**CEFNDIR**

Mae gan yr Awdurdod Addysg gyfrifoldebau eang i ddarparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer prif ddarparwyr addysg y sir ar gyfer ein plant, ein ysgolion cynradd, uwchradd ac arbenigol. Mae hynny mewn meysydd fel gwasanaethau ymgynghorol ar gyfer cynghori a gwella, anghenion addysgol arbennig a chynhwysiad ynghyd â gwasanaethau cefnogol eraill.

Mae gan yr Awdurdod Addysg gyllideb o £17.872m heb ei ddatganoli i ysgolion ar gyfer cyfarfod â'r cyfrifoldebau hyn  ac mae'r cyllidebau hyn o dan bwysau dirfawr o ran y galw am wasanaeth a hefyd y pwysau i grebachu cyllidebau oherwydd yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried gwasanaethau cefnogol addysg eraill oddi fewn y £71.313m sydd wedi'i ddatganoli i ysgolion)

Fe wnaeth yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg adnabod yr angen i ddiffinio'n glir iawn beth yw rôl yr Awdurdod Addysg o ran safon Addysg ac, yn benodol, sefydlu dealltwriaeth glir iawn o'r cyswllt rhwng yr Awdurdod ac ysgolion yn y maes ansawdd.

**PWRPAS YR YMCHWILIAD**

Yn y lle cyntaf, bydd yr ymchwiliad yn ceisio sefydlu ddealltwriaeth ynglyn â :

- Beth yw'r disgwyliadau (statudol ac eraill) ar yr Awdurdod Addysg yn y meysydd cefnogol amrywiol
- Pwy sydd yn darparu'r gwasanaethau yma a sut mae'r cyngor yn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer ein plant ac ysgolion?
- Pa anghenion y mae'r Awdurdod yn ceisio eu cyfarch yn y meysydd hyn ac i ba raddau y mae trefniadau presennol yr Awdurdod yn cyflawni hynny
- Y cyswllt rhwng y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu ac anghenion disgyblion y sir
- Pa heriau y mae'r Awdurdod yn ei wynebu wrth ddarparu'r gwasanaethau cefnogol hyn yn awr ac i'r dyfodol

DRAFT

- Beth yw trefniadau presennol yr Awdurdod yn y meysydd hyn a beth yw'r ymarfer da mewn ardaloedd eraill ar gyfer darparu gwasanaethau yn y meysydd hyn?

Bydd yr Ymchwiliad wedyn yn ceisio ateb y cwestiynau a ganlyn:-

- Pa fath o newidiadau, os o gwbl sydd ei angen yn y gwasanaethau, er mwyn iddynt gyflawni eu pwrpas a bod yn gynaliadwy i'r dyfodol

- Pa fodelau posib eraill sydd ar gael ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn?

**EFFAITH**

Bydd yr Ymchwiliad Craffu yn llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet er mwyn cynnig gwelliannau i'r gwasanaethau hyn i'r dyfodol

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **22 Medi 2015** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol 2014-15** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Gareth Roberts** |
| | |

**1. Cyflwyniad**

Mewn cyfarfod anffurfiol ar 18 Gorffennaf 2015, rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol 2014-15 gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

Yn dilyn y cyfarfod, gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc, Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd a'r Swyddog Cwynion baratoi adroddiad yn ymateb i'r pwyntiau yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu Gofal 22 Medi 2015.

**2. Ymateb i'r materion:**

Gofynnwyd am atebion penodol i'r cwestiynau isod:

2.1 **Mwy o fanylion am y cwynion, ymholiadau a sylwadau a dderbyniwyd ac a gafodd eu datrys.**

Gweler ATODIAD 2 am enghreifftiau mwy manwl

2.2 **Ym mhwynt 2.1 fe nodir 30 cwyn yn hwyr yn derbyn ymateb. A'i dyma gyfanswm y cwynion, ymholiadau a sylwadau hwyr?**

Roedd cyfanswm o 30 cwyn Cam 1 (Plant ac Oedolion) yn hwyr yn derbyn ymateb. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys ymholiadau a sylwadau.

2.3 **O'r cwynion nad ymatebwyd iddynt ar amser, pa mor hir y cymerwyd i ymateb.**

Y targed ar gyfer ymateb yn ysgrifenedig ydy 5 diwrnod gwaith. Os ydym yn rhagweld na fydd yn bosib cwrdd ar targed, rydym yn derbyn cytundeb yr achwynydd i ymestyn yr amserlen. Ar y cyfan, mae'r achwynydd yn fodlon iawn aros am ymateb ac yn deall na fydd bob amser yn bosib ymateb o fewn 5 diwrnod. O'r cwynion hynny oedd yn hwyr, roedd y mwyafrif wedi derbyn ymateb o fewn 10 diwrnod.

2.4 **Nodwch sut rydych chi wedi ystyried delio gyda'r pwysau o safbwynt llwyth gwaith.**

Mae'r Adran yn parhau i fynd drwy cyfnod o ail-strwythuro ac wedi colli 1 swydd Rheolwr, serch hynny mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb i'r cwynion o fewn

yr amserlen.  Yn ddiweddar penodwyd 2 Uwch Reolwraig newydd, byddent yn cychwyn yn eu swyddi cyn bo hir.

2.5 **Gwersi a ddysgwyd** - **Nodwch grynodeb o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau gweithredu a gymerwyd.**

Nodwyd y tueddiadau a gwersi a ddysgwyd yn Adran 2.8 a 2.9 o'r adroddiad.

2.6 **Categoreiddio** - **A oes dadansoddiad manylach ar gael o'r tueddiadau yn 2.8 a 2.9?**

Gweler ATODIAD 2 am enghreifftiau mwy manwl, hefyd gweler Adran 2.8 & 2.9 o'r adroddiad am grynodeb o'r tueddiadau dros y flwyddyn.

2.7 **Darparwyr Allanol** - **Ai'r un drefn sy'n cael ei dilyn ar gyfer darparwyr allanol?**

Mae disgwyl i bob darparwr gael polisi cwynion a dilyn y drefn statudol.  Mae cwynion am ddarparwyr a wneir yn uniongyrchol i'r Cyngor yn cael ei gofnodi gan yr Adran a rydym yn cydlynu ymateb i'r gwyn.  Gall defnyddwyr hefyd gwyno yn uniongyrchol i'r Darparwr.  Ar yr adegau hyn, disgwylir i'r Darparwr ymchwilio ac ymateb yn unol ar drefn statudol. Mae disgwyl i'r Darparwr adrodd i'r Uned Comisiynu a Chontractau ar nifer y cwynion maent wedi derbyn, mae hyn yn amod yn eu cytundeb ac yn cael ei fonitro.

2.8 **De Meirionnydd (2.5)** - **O safbwynt diffyg gweithwyr cefnogol yn Ne Meirionnydd, a ydych wedi ystyried trefniadau gwahanol/amgen i ymateb i'r broblem?**

Mae problemau hanesyddol gyda recriwtio yn Ne Gwynedd, yn enwedig recriwtio siaradwyr Cymraeg digonol.  Mae hyn yn wir ar draws y maes oedolion a phlant.  Mae pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn ymateb i'r problemau hyn, gan gynnwys ymgyrchoedd recriwtio, cydweithio gyda darparwyr addysg a.y.b.

2.9 **Swydd Wag** - **Angen mwy o wybodaeth ar sylw 4 (c) o'r adroddiad sef swydd wag yn dilyn secondiad i swydd arall ac angen gwybodaeth am y trefniant ar gyfer y sefyllfa gyfredol.**

Mae'r swydd wag wedi ei llenwi ers mis Mehefin 2015.

## 3. Argymhellion

3.1 Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.

| Teitl: | Adroddiad Blynyddol - Cwynion 2014/15 |
|---|---|
| Adran / Uned: | Trosolwg o'r meysydd gwaith Gofal Cymdeithasol<br>(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). |
| Dyddiad: | Mai 2015 |

## 1. Cyflwyniad

Bwriad yr adroddiad hwn ydy rhoi trosolwg o'r ystadegau a prif faterion sydd wedi deillio o gwynion yn ystod y flwyddyn 2014 - 2015.

Ar 1af o Awst 2014 daeth trefn gwynion statudol newydd i rym gan ddisodli'r canllawiau cenedlaethol 'Gwrando a Dysgu'. Bu i ni ymateb i'r newidiadau drwy lansio polisi lleol newydd a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau, cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff a rheolwyr a lansio taflen wybodaeth newydd i ddefnyddwyr. Y prif newid ydy bod disgwyl i'r Gwasanaeth gynnig trafod y gwyn wyneb i wyneb neu dros y ffon gyda'r achwynydd a hynny o fewn 10 diwrnod gwaith. Yna'r disgwyliad ydy fod cadarnhad ysgrifenedig o ddeilliant y drafodaeth yn cael ei yrru o fewn 5 diwrnod gwaith o ddiwrnod y drafodaeth.

Mae Cam 2 – Ymchwiliad annibynnol yn parhau, sef penodi ymchwilydd annibynnol i ymchwilio'r gwyn. Mae 25 diwrnod gwaith i gwblhau'r ymchwiliad. Drwy'r drefn newydd, rhaid sicrhau fod yr ymchwilydd yn annibynnol o'r Cyngor. Yn flaenorol, roedd opsiwn i ddefnyddio ymchwilydd mewnol.

Yn ogystal ar uchod, newid arall oedd diddymu Cam 3 o'r drefn sef Panel Annibynnol. Mae'r newid hwn wedi ei groesawu gan mai'r farn oedd bod y Paneli rhan amlaf yn aneffeithiol a heb awdurdod na phŵer i fynnu unrhyw weithrediad mewn perthynas ar gwyn dan sylw. Ar ôl Cam 2, os ydy achwynwyr yn parhau yn anfodlon gallent fynd at yr Ombwdsman.

Ers cyflwyno'r drefn newydd mae lleihad sylweddol wedi bod mewn cwynion cam 2 sydd wedi golygu arbedion ariannol i'r Gwasanaeth. Mae'r cwynion cam 2 yn gallu bod yn gostus iawn (Oddeutu £2,000 y gwyn ond gall gostio cymaint â £3,000) gan fod angen penodi ymchwilydd annibynnol i ymchwilio'r gwyn. Mae'r lleihad mewn cwynion cam 2 yn adlewyrchiad o lwyddiant y Gwasanaethau i ddatrys materion ar y cam cyntaf.

## 2. Prif Faterion yn deillio o'r flwyddyn

### 2.1 Perfformiad Ymateb i Gwynion Statudol Cam 1

- **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** - **Roedd 4 cwyn allan o 30 yn hwyr yn derbyn ymateb, sef 13%**.
- **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** - **Roedd 26 cwyn allan o 101 yn hwyr yn derbyn ymateb**, **sef 26%.**
- Roedd y rhesymau dros ymatebion hwyr yn amrywio ond yn bennaf ymwneud a phwysau gwaith ar y Rheolwr Gwasanaeth (gan gofio hefyd fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi colli 1 swydd Rheolwr). Mae'r amserlen ar gyfer darparu ymateb ysgrifenedig syn cadarnhau deilliant y 'drafodaeth' yn dynn iawn, sef 5 diwrnod gwaith. Mae'n ymateb o fewn yr amserlen yn hollol ddibynnol ar lwyth gwaith y Rheolwr Gwasanaeth ar y pryd a'i bresenoldeb yn y gwaith. Serch hynny mae'r rhan fwyaf o achwynwyr yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen neu wedi cytuno i ymestyn yr amserlen.

### 2.2 Cwynion Cam 1 – Trefn Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

Roedd **101 cwyn cam 1** o dan trefn statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn weddol gyson gyda'r blynyddoedd blaenorol, sef 101 yn ystod 2013-14 a 106 yn ystod 2012-13. Er hynny mae cynnydd sylweddol mewn **ymholiadau a sylwadau, sef 168** o gymharu â 117 llynedd. **Mae nifer o faterion yn cael eu delio a nhw fel ymholiad neu sylwadau** gan nad ydy'r unigolyn wedi datgan un ffordd neu'r llall eu bod yn awyddus i wneud 'cwyn'. Hefyd mae llythyrau gan Aelodau Seneddol a Lleol yn cael eu cofnodi fel 'ymholiad' ac mae elfen o anfodlonrwydd rhan amlaf, ond yn bennaf eisiau ymatebion i gwestiynau penodol ar ran unigolyn

neu deulu mae nhw. Mae llawer iawn o amser swyddogion a Rheolwyr yn mynd ar y materion hyn ond mae'r gwaith caled yn talu gan ei fod yn eu hatal rhag troi yn gwynion.

**2.3 Cwynion Cam 1 - Trefn Gwynion Corfforaethol**

**Roedd 13 cwyn** wedi eu cofnodi yn ystod y flwyddyn o gymharu â 11 llynedd a 17 yn ystod 2012-13. Mae'r rhain yn cynnwys materion Gwasanaeth Tai a materion sydd ddim yn gymwys o dan drefn Gwasanaethau Cymdeithasol e.e. cymydog yn cwyno am y ffordd roedd darparwr gofal yn parcio car; perchennog yn cwyno am dynnu'n ôl Grant Tai Gwag. Mae'n bwysig nodi mai'r cwynion am y Gwasanaeth Tai sydd wedi dod drwy'r Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth sy'n cael eu nodi yma ac nid yw'n cynnwys unrhyw gwynion sydd wedi eu cyfarch yn uniongyrchol gan y gwasanaeth.

**2.4 Ymchwiliadau Cam 2**

**Nid oedd unrhyw gwynion cam 2 i adrodd arnynt yn ystod y flwyddyn**. Mae hyn o gymharu â 2 gwyn cam 2 yn 2013-14 a 7 yn 2012-13. Mae hyn yn adlewyrchiad o lwyddiant yr Adrannau i ddatrys materion yn lleol. O fewn y drefn newydd mae llawer mwy o bwyslais ar y 'trafod' a cheisio datrys materion yn y cam cyntaf, mae hyn i weld yn llwyddo.

Roedd cais am ymchwiliad Cam 2 yn dilyn cwyn am y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd, roedd y Gwasanaeth eisoes wedi cynnal ymchwiliad trylwyr iawn yng Ngham 1 ond yr achwynydd yn parhau yn anfodlon. Penodwyd ymchwilydd annibynnol ond ei farn gychwynnol oedd na fyddai'n addas gwneud ymchwiliad Cam 2 llawn. Penderfynwyd felly y byddai'n adolygu ymatebion y Gwasanaeth i gwynion yr achwynydd a pharatoi adroddiad byr, death i'r canfyddiad canlynol:

*"I formed the view there was nothing new for an investigation to consider and that, even if I were to pursue a formal investigation, I would not succeed in finding anything that had not already been addressed through the comprehensive Stage 1 process…*

*Following this, from our review of the very considerable volume of paperwork, having had sight of the Department's records and met / discussed with Senior Officers, both the Independent Person and I agreed that the comprehensive and thorough nature of the Stage 1 investigations were exemplary. It is my opinion that the investigations undertaken thus far at Stage 1 have been very thorough; indeed amongst the most thorough I have encountered in my eleven years of similar investigations."*

Mae angen canmol ymdrech y Gwasanaeth i gynnal ymchwiliad mor drylwyr, roedd wedi golygu llawer o waith i Reolwyr a Swyddogion.

**2.5 Cwyn Cam 3**

Yn ystod y flwyddyn cafwyd 1 cwyn Cam 3. Bu i'r gwyn gwreiddiol gael ei gwneud nôl yn 2013-14, aeth drwy gam 1 a cham 2 o'r drefn a bu i'r panel Cam 3 gyfarfod ym mis Gorffennaf 2014. Roedd hyn cyn i'r drefn newydd ddod i rym ar 1af Awst lle diddymwyd Cam 3 o'r drefn.

Roedd y gwyn am y Gwasanaeth Derwen ac ar y cyd gydag Iechyd. Roedd yn bennaf ymwneud a diffyg gweithwyr cefnogol yn Ne Meirionnydd, ac yn sgil hyn roedd yn amhosib sicrhau lefelau staffio pan fo'r staff ar wyliau/salwch ayb. Yn dilyn y Panel, cafwyd adroddiad gan Gadeirydd y Panel gydag argymhellion i'w gweithredu arnynt. Mae'r Gwasanaeth eisoes yn ymwybodol o'r problemau recriwtio yn Ne Meirionnydd ac yn gwneud pob dim y gallent i ymateb i'r sefyllfa.

**2.6 Ymchwiliad Ombwdsman**

**Roedd 1 ymchwiliad Ombwdsman yn ystod y flwyddyn**. Cafwyd wybod gan yr Ombwdsman yn ystod chwarter 3 y byddai'n ymchwilio'r gwyn. Nid yw canfyddiadau'r Ombwdsman wedi eu rhannu ar y pwynt hwn. Cafwyd cyfarfodydd mewnol i gytuno ar ein hymateb i'r cwynion a darparwyd tystiolaeth iddynt. Mae'r achos yn ymwneud a materion POVA a'r Ddeddf galluoedd meddyliol. Roedd pryderon am ymddygiad gwr tuag at ei wraig sydd â chyflwr niwrolegol. Adroddodd gweithwyr ar y pryderon, yna yn dilyn gweithredu ar y pryderon diogelu, tynnwyd y wraig o'r cartref heb wneud asesiad o'i chapasiti.

**2.7 Diolchiadau**

Yn ogystal â chwynion a sylwadau, mae hi hefyd yn bwysig cofnodi diolchiadau. Roedd **225** o ddiolchiadau wedi ei logio yn ystod y flwyddyn. Gweler rhan 3.3 am enghreifftiau.

**2.8 Tueddiadau Cwynion - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

- **Materion Ariannol -** Mae hwn yn parhau fel tuedd sydd yn deillio o gwynion a sylwadau ers llynedd ac mae'r duedd wedi parhau drwy'r flwyddyn hon. Y prif duedd oedd bod rhai defnyddwyr a'i theuluoedd ddim yn fodlon talu am eu gofal. Mae hyn yn ymwneud a rheoli disgwyliadau defnyddwyr a'i theuluoedd a sicrhau fod cyfathrebu clir a rhannu gwybodaeth ynglŷn â thalu am ofal o'r cychwyn. Mae cofnodi'r drafodaeth yn hanfodol ac mae angen atgoffa gweithwyr o hyn. Mewn sawl achos rydym wedi methu a phrofi fod y drafodaeth ynglŷn â thalu am ofal wedi cymryd lle gan nad oedd wedi ei gofnodi. Mater arall sydd wedi deillio yn ystod y flwyddyn ydy fod pobl ddim yn deall y cap ariannol ac felly yn disgwyl talu llai os ydy nhw'n derbyn llai o oriau. Mae hyn eto yn amlygu'r angen i sicrhau cyfathrebu clir gyda defnyddwyr ynglŷn ar trefniadau talu am ofal.
  **Enghraifft -** Mab yn honni na ddylai ei fam dalu am arhosiad mewn cartref gofal ar ôl cyfnod gofal canolraddol oherwydd nad oedd yr oblygiadau ariannol wedi eu trafod gyda nhw. Roedd hefyd yn teimlo fod gweithwyr wedi dwyn perswâd ar ei fam i aros yno

- **Newidiadau mewn dulliau o ddarparu gwasanaeth** oedd thema nifer o'r cwynion ac ymholiadau, yn arbennig yn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu. Roedd hyn yn bennaf yn sgil newidiadau i drefniadau cludiant, yn arbennig darparwyr yn codi am gludiant. Hefyd derbyniwyd cwynion a sylwadau yn sgil newid pecynnau gofal o fod yn darparu cefnogaeth un i un i ddarpariaeth grŵp. Mae'n naturiol y bydd peth anfodlonrwydd yn codi o newidiadau i wasanaethau ond mae angen sicrhau fod defnyddwyr a'i theuluoedd yn cael eu paratoi am y newidiadau digon o flaen llaw, yn deall y rheswm dros newid a bod cyfathrebu ac ymgysylltu yn ddigonol.

- **Achwynwyr / Cysylltwyr parhaus -** Er ddim wedi eu nodi yn y ffigyrau 'cwynion' mae nifer fawr o faterion yn cael eu hymdrin â fel 'ymholiadau'. Mae'r materion hyn yn cymryd llawer o amser swyddogion ac yn parhau o un chwarter i'r llall gan fod unigolion yn parhau i ohebu ar yr un pynciau
  **Enghraifft** - Mater yn ymwneud a chludiant i gleientiaid anabledd dysgu, nifer helaeth o lythyrau gan un unigolyn ar ran sawl teulu. Nid yw'r materion hyn wedi eu logio o dan y drefn gwynion statudol gan nad yw'r unigolion yn awyddus i wneud 'cwyn' ond mae wedi golygu llawer iawn o waith i Swyddogion a Rheolwyr.

- **Diffyg darpariaeth gofal cartref a galwadau yn cael eu methu -** Roedd patrwm o gwynion yn ystod chwarter 1 yn deillio o ddiffyg gofalwyr cartref yn Nwyfor a Meirionnydd. Roedd hyn yn bennaf deillio o gwmni penodol yn dod i ben yn sydyn gan adael bwlch annisgwyl yn y ddarpariaeth. Bu i'r Adran gymryd camau brys i ymateb i'r sefyllfa. Dim ond un cwyn am alwadau gofal cartref wedi ei methu a dderbyniwyd, ond bu i'r Uned dderbyn amryw alwad ffôn gan bobl yn holi ynglŷn â'r mater yma. Fel arfer roedd yn bosib i'r rhain gael eu datrys yn syth.
  **Enghraifft -** Mrs W wedi cysylltu gan ei bod wedi methu gadael yr ysbyty oherwydd bod darparwyr preifat wedi tynnu allan o'r cytundeb ar y diwrnod. Tîm Broceriaeth wedi datrys y mater o fewn 2 ddiwrnod.

- **Addasiadau i'r cartref -** Cafwyd sawl ymholiad a chwyn a oedd yn deillio gydag anfodlonrwydd ynglŷn ag addasiadau ar gyfer ymolchi e.e. defnyddiwr eisiau cawod wedi ei osod yn y cartref ond nid oes cyfrifoldeb ar y Cyngor i osod cawod os oes modd i'r defnyddiwr ymolchi drwy ddull arall. Mae hyn eto yn ymwneud a rheoli disgwyliadau defnyddwyr, sicrhau cyfathrebu clir a'i bod yn deall y rhesymeg tu ôl i benderfyniadau.

**2.9 Tueddiadau Cwynion - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

- **Cwynion gan Eiriolwyr** – Mae cynnydd mewn cwynion gan Eiriolwyr ar ran bobl ifanc wedi bod yn ystod y flwyddyn. Mae cwynion gan Eiriolwyr i'w croesawu wrth gwrs, ond mae pryderon wedi eu datgan gan y Gwasanaeth ar Swyddog Gofal Cwsmer fod pobl ifanc wedi eu hannog i wneud cwyn ffurfiol yn syth er ymdrechion y Gwasanaeth i geisio cyfarch a chynnig datrysiad anffurfiol i'r materion. Roedd hefyd pryder nad oedd y cwynion yn wir adlewyrchiad o lais y person ifanc ond yn hytrach cwyn yr Eiriolwr ydoedd, yn ddiddorol iawn mae sawl Sir arall ar draws y Gogledd wedi adrodd ar yr un pryderon.
  **Enghraifft –** Eiriolwr yn gwneud cwyn ar ran berson ifanc mewn gofal. Y person ifanc yn gorfod symud lleoliad ond yn cwyno nad oedd eisiau cael ei symud. Roedd llawer o faterion tu ôl i'r penderfyniad hwn a llawer iawn o drafodaethau gyda'r person ifanc wedi bod. Eiriolwr wedi ysgrifennu ar ei ran yn nodi y byddai'n ei gefnogi i gyflwyno cwyn ffurfiol cam 2, ond hynny heb roi cyfle i'r Gwasanaeth geisio datrys ac ymateb yn anffurfiol.

- **Disgwyliadau Rhieni** - Mae patrwm y blynyddoedd blaenorol wedi parhau sef cwynion yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng disgwyliadau rhieni ar hyn y mae'r Gwasanaeth yn cyflawni o fewn ei gyfrifoldebau. Mae hyn yn bennaf yn y maes amddiffyn plant ble mae anfodlonrwydd ynglŷn â gweithrediad a phenderfyniad y Gwasanaeth o ran achosion eu plant. Mae hyn wedyn yn arwain at gwynion sydd yn cael eu hanelu at staff unigol sydd yn cynrychioli'r Gwasanaeth. Yn aml mae'r cwynion hyn hefyd yn cynnwys cwyn ynglŷn ag agwedd gweithiwr ond mae'r ymchwiliadau i'r cwynion rhan amlaf yn canfod fod y Gweithiwr a Gwasanaeth wedi gweithredu yn gywir yn unol â deddfwriaeth.
  **Enghraifft -** Tad wedi cysylltu eisiau gwneud cwyn, nid yw yn cael cyswllt gyda'i blentyn ar hyn o bryd. Credai'r tad y dylai'r penderfyniad yma gael ei adolygu bob 6 mis, mae hefyd yn gyrru llythyrau at ei blentyn ond nid yw yn derbyn llythyrau yn nol. Mae'r tad yn rhoi bai ar y gwasanaeth am hyn. Teimlai nad yw'r gwasanaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau ar bwrpas er mwyn arbed ef rhag unrhyw gyswllt gyda'i blentyn i'r dyfodol.

- **Cyswllt rhwng rhieni a phlant -** Mae sawl cwyn wedi deillio o ddymuniadau aelodau o'r teulu i dderbyn cyswllt gyda phlant mewn gofal. Mae hyn yn arbennig o wir gyda thadau ac mae patrwm wedi deillio yn ystod y flwyddyn. Mae'r anfodlonrwydd rhan amlaf wedi deillio o ddiffyg cyfathrebu a dealltwriaeth o beth ydy'r trefniadau gan honni nad ydynt wedi derbyn eglurhad.
  **Enghraifft -** Tad yn cysylltu eisiau gwneud cwyn mai dim ond 2 awr y mis mae yn cael cyswllt gyda'i blant a bod y fam yn cael cyswllt wythnosol. Roedd hefyd eisiau gwneud cwyn nad oedd yn cael ei wadd i unrhyw gyfarfodydd sydd yn cael ei gynnal ynglŷn â'r plant.

## 3. Ystadegau Cwynion

**3.1** Mae tabl 1 yn nodi'r ystadegau cwynion am y flwyddyn

| **TABL 1 Cwynion** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Oedolion | Darparu | Plant a Theulu | Busnes | Tai | Darparwr allanol | Traws-wasanaeth | **Cyfanswm** |
| **1.1 Trefn Gwynion Statudol Gwas Cym** | | | | | | | | |
| Anffurfiol cyn Cam 1 | 3 | 6 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | **13** |
| Cam 1 | 43 | 8 | 30 | 15 | 0 | 5 | 0 | **101** |
| Cam 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cam 3 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Ombwdsman | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **46** | **14** | **31** | **19** | **0** | **5** | **0** | **115** |
| **1.2 Trefn Gwynion Corfforaethol** | | | | | | | | |
| Anffurfiol cyn Cam 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cam 1 | 7 | 2 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | **12** |

| TABL 1 Cwynion | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Oedolion | Darparu | Plant a Theulu | Busnes | Tai | Darparwr allanol | Traws-wasanaeth | **Cyfanswm** |
| Cam 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ombwdsman | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **2** | **0** | **0** | **2** | **1** | **0** | **12** |

## 3.2 Ystadegau Ymholiadau a Sylwadau

Mae'r tabl isod yn adrodd ar nifer yr ymholiadau a sylwadau. Mae llawer iawn o faterion yn cael eu hymdrin â hwy fel 'ymholiad' yn hytrach nag fel cwyn o dan y drefn statudol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod yr unigolyn wedi nodi nad ydynt eisiau gwneud 'cwyn' neu fod y materion yn rhai gweithredol lle gellir eu datrys yn rhwydd rhag gorfod mynd drwy'r drefn gwynion. Mae'r Swyddogion yn gweithio yn galed i osgoi ymholiadau rhag troi yn gwynion. Mae'r materion yn cymryd llawer o amser swyddogion ac yn gallu parhau am fisoedd e.e. gohebiaeth ar faterion yn ymwneud a chludiant i ddefnyddwyr anabledd dysgu ers misoedd.

| TABL 2. Ymholiadau a Sylwadau | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Oedolion | Darparu | Plant a Theulu | Busnes | Tai | Darparwr allanol | Traws-wasanaeth | **Cyfanswm** |
| Cyfreithwyr | 14 | | 2 | 2 | 1 | | | 19 |
| Ombwdsman | 3 | | 3 | | | | | 6 |
| Aelodau lleol | 7 | | | | | | | 7 |
| Aelodau Seneddol a Chynulliad | 21 | | 9 | | 1 | | | 31 |
| Defnyddwyr | 6 | | | | | | | 6 |
| Perthynas | 25 | 2 | 12 | 7 | | | | 46 |
| Y Cyhoedd | 8 | 1 | 4 | 2 | 1 | 1 | 1 | 18 |
| Gofalwr Maeth | 1 | | 1 | | | | | 2 |
| Asiant Arall | 3 | | 4 | | | 1 | 1 | 9 |
| Ymgeiswyr Mannau Parcio Anabl | 21 | | | | | | | 21 |
| Sir arall | | | | | | | | |
| Gweithiwr Cymdeithasol | 1 | | | | | | | 1 |
| Comisiynydd Pobl Hyn | 2 | | | | | | | 1 |
| Comisiynydd Iaith | | | | | | | | |
| Comisiynydd Gwybodaeth | | | 1 | | | | | 1 |
| Darparwr | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **112** | **3** | **36** | **11** | **3** | **2** | **2** | **168** |

## 3.3 Diolchiadau a Chyfarchion

| TABL 3. Diolchiadau a Chyfarchion | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | **Darparu** | **Plant a Theulu** | **Busnes** | **Tai** | **Darparwr allanol** | **Traws-wasanaeth** | **Cyfanswm** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 49 | 154 | 17 | 4 | 0 | 1 | 0 | **225** |

## Enghreifftiau

*"I have been involved in private 'child arrangement' proceedings, I attended Court with the family despite not being ordered to attend by the Court. Both the solicitors and guardian thanked me for my attendance stating that my presence had been most helpful and appreciated my time. The Judge on the day made a point speaking to me once the court room was clear, he said he was grateful for my attendance in Court and that the department had been very helpful in this case."*

*"Diolch enfawr i ti am dy holl Gymorth i ni fel teulu ac wrth gwrs XX. Diolch am agor ein llygaid i posibiliadau gwahanol/newydd i XX. Dros y 2 flynedd diwethaf mae XX wedi tyfu i fod yn hogan hyderus a hogan sydd yn mwynhau bywyd! Diolch i ti am dy ran di yn hun…. Dydy'r gair bach 'diolch; ddim yn cyfleu ein diolch go iawn… dwi newydd ddarllen ochr XX o'r cerdyn (cerdyn diolch yma) ac mae'n dod a gwen i'm hwyneb! Diolch!!" (Diolch i Weithiwr Cymdeithasol gan rieni i ddefnyddiwr Gwasanaeth Derwen)*

*"Just nodyn bach i ddweud diolch am eich cymorth dros y blynyddoedd! Dachi'n seren! Diolch am newid fy 'prospective' ar y cyfarfodydd mawr 'scary' ma a gwneud nhw yn hwyl i mi! Yn olaf a'r peth pwysig! Diolch am y 'chats' dani di gael dros y blynyddoedd…. ac mae 'na lot ohonynhw, diolch eto".*
*(Diolch gan ddefnyddiwr gwasanaeth Gwasanaeth Derwen – wedi ei ysgrifennu ar yr un cerdyn a'r diolch uchod gan y rhieni)*

*"It was thanks to you and your team that Mum was able to lead her life independently at home for as long as she did - and all done with the best of humour and care. You were always responsive to any requests we made and always ensured a very high quality of care delivery through the excellent services of your team"* *(*Darparu mewnol)

"*Diolch am bopeth mae gwasanaethau cymdeithasol wedi gwneud i mam*" Gwasanaeth Oedolion

### 4. Materion eraill a Gweithredu yn 2015-16

a. Mewn ymateb i'r tueddiadau sydd wedi deillio, bydd angen sicrhau fod y Timau Rheoli yn cymryd perchnogaeth o'r materion ac yn ymateb drwy gyflwyno newidiadau a fydd yn gwella gwasanaethau a phrofiadau defnyddwyr.
b. Sicrhau fod y gwersi o gwynion yn bwydo mewn i'r drefn sicrwydd ansawdd Adrannol, fel rhan o'r gwaith o fonitro ansawdd gwasanaethau.
c. Penodi i'r swydd Swyddog Gofal Cwsmer Oedolion – swydd yn wag yn dilyn secondiad y Swyddog presennol i swydd arall.
d. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu modiwl e-ddysgu ar gyfer staff rheng flaen er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r drefn a'i chyfrifoldebau nhw.
e. Bydd sesiynau hyfforddiant i Reolwyr ar y drefn gwynion yn cael eu cynnal mis Hydref, yn benodol eu rôl a'i chyfrifoldebau nhw, tips ar sut i ymchwilio cwyn, datrys cwynion, dysgu gwersi a gwella gwasanaethau.
f. Mae 2 dydd o waith gyda chwmni CDC Respond wedi ei drefnu at ddechrau Mehefin er mwyn gwella'r system electroneg o gofnodi cwynion a sylwadau, rheoli a monitro llwyth gwaith a chreu adroddiadau.
g. Bydd yr Uned yn parhau i ymweld â grwpiau a fforymau defnyddwyr i godi ymwybyddiaeth o'r drefn gwynion.
h. Taflen gwynion arbennig i blant a phobl ifanc i'w lansio. Mae'n cael ei datblygu ar y cyd gyda grŵp o ddefnyddwyr.
i. Cryfhau'r berthynas gyda'r Swyddog Gwella Gwasanaeth Corfforaethol gan sicrhau cysondeb mewn trefniadau (lle mae hynny'n bosib) a rhannu arferion da.
j. Datblygu protocol ymateb i Gwynion ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd (Gwaith rhanbarthol).
k. Parhau i gyfrannu i'r Grŵp Gogledd Cymru Swyddogion Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol a chynnal digwyddiad recriwtio ymchwilwyr annibynnol er mwyn denu rhagor o siaradwyr Cymraeg.
l. Cydweithio gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i sefydlu Panel Apêl lle mae anghytundeb ynglŷn â thalu am ofal, newid i becyn gofal neu wasanaeth yn cael ei wrthod. Byddai hyn yn atal materion 'apêl' rhag gorfod mynd drwy'r drefn gwynion.

# ATODIAD 2

| **Enghreifftiau o Gwynion ac Ymholiadau 2014-15** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Disgrifiad Byr** | **Categori** | **Cam** | **Uned/Tîm** | **Canlyniad** |
| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | | | |
| GC/1803-14 | Cwyn ynglŷn â'r diffyg gofal cymdeithasol (gofal ysbaid) ar gyfer eu mab. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Cyfarfod wedi ei gynnal rhwng y teulu a rheolwyr perthnasol o fewn y Gwasanaeth Oedolion. Y Gwasanaeth wedi adolygu'r sefyllfa a'r teulu yn hapus. Teulu ddim eisiau parhau i Cam 2 o'r drefn gwynion. |
| GC/2150-14 | Cwyn yn dilyn damwain a ddigwyddodd yn ystod ymweliad gofal cartref. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gofal Cartref (Darparu Mewnol) | Cyfarfod wedi ei gynnal rhwng y teulu a rheolwyr perthnasol o fewn y Gwasanaeth. Y cyfarfod wedi ei gynnal yn dilyn adroddiad a gafodd ei gynhyrchu gan Uned Iechyd a Diogelwch. Y teulu nawr yn mynd a'r gwyn drwy'r Uned Yswiriant y Cyngor. |
| GC/1923-14 | Cwyn ynglŷn â diffyg staff mewn Cartref Preswyl | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gofal Preswyl (Darparu Mewnol) | Anfonwyd llythyr ymateb i'r achwynydd mewn ymateb i'w cwyn Cam 1. |
| GC/1927-14 | Defnyddiwr Gwasanaeth wedi bod mewn damwain, teulu eisiau cwyno oherwydd diffyg gwybodaeth a ddarparwyd yn dilyn y digwyddiad. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gofal Preswyl (Darparu Mewnol) | Cyfarfod wedi ei gynnal rhwng teulu a'r rheolwyr perthnasol o fewn Darparu Mewnol. Daeth yr Uned Iechyd a Diogelwch i mewn i wneud adroddiad. |
| GC/1965-14 | Cwyn ynglŷn â safon y gofal o fewn cartref gofal a'r diffyg cyfathrebu ynglŷn â symud y preswylydd i ysbyty heb ganiatâd y teulu. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gofal Preswyl (Darparu Mewnol) | Anfonwyd llythyr cynhwysfawr mewn ymateb i'r gwyn ynghyd a ymddiheuriad am unrhyw ofid a achoswyd. |
| GC/1759-14 | Cwyn ynglŷn â galwadau gofal cartref wedi ei methu gan ddarparwr annibynnol. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gofal Cartref (Darparwr Annibynnol) | Ar ôl ymchwiliad, pob galwad wedi derbyn sylw. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth wedi gwrthod y gofalwyr cartref fynediad i'r tŷ. Llythyr wedi ei anfon yn esbonio'r sefyllfa yn llawn i'r defnyddiwr gwasanaeth. |
| GC/2012-14 | Eisiau gwneud cwyn ynglŷn ag anfonebau anghywir. Anfonebau ddim yn nodi'r oriau cywir ar gyfer gofal cartref. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gofal Preswyl (Darparu Mewnol) | Mater wedi cael ei drafod dros y ffon gyda'r rheolwr perthnasol. Achwynydd hefyd wedi derbyn llythyr gydag esboniad llawn o'r sefyllfa. |
| GC/1970-14 | Cwyn yn erbyn aelod o staff. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Anabledd Dysgu (Oedolion) | Mater wedi cael ei ddatrys dros y ffon. |
| GC/2203-14 | Cwyn ynglŷn â chludiant i Ofal Dydd. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Anabledd Dysgu (Oedolion) | Llythyr wedi ei yrru yn esbonio'r sefyllfa yn dilyn sgwrs ffon gyda'r rheolwr perthnasol. |

## ATODIAD 2

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| GC/2204-14 | Cwyn yn sgil newid mewn Gwasanaeth, teulu gyda phryderon ynglŷn â syniadau newydd ar gyfer gwasanaeth e.e. os oes tri unigolyn allan gyda'i gilydd gydag un gweithiwr ac mae un yn disgyn yn sâl, beth ydi'r cynlluniau ar gyfer sicrhau amddiffyn y ddau unigolyn arall? | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Anabledd Dysgu (Oedolion) | Llythyr wedi ei yrru yn esbonio'r sefyllfa. |
| GC/2270-14 | Cwyn am ddileu gwasanaeth gweithiwr cefnogol | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 a Cham 2 | Anabledd Dysgu (Oedolion) | Cwyn wedi bod drwy Cam 2 o'r drefn ymchwilio. Achwynydd mewn cyswllt gyda'r Ombwdsman. |
| GC/2242-14 | Cwyn am ddiffyg Asesiad Adran 47 ac Asesiad Gofal Iechyd Parhaus. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Iechyd Meddwl (Oedolion) | Ymateb llawn wedi ei ddarparu i'r achwynydd drwy lythyr. |
| GC/1836-14 | Cwyn ffurfiol wedi ei dderbyn gan cyfreithiwyr Julie Burton Law ar ran defnyddiwr gwasanaeth. BIPBC yn rhan o'r gwyn hefyd. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Ymateb ar y cyd gyda BIPBC wedi ei wneud. |
| GC/1928-14 | Cwyn am agwedd aelod o staff. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Cyfarfod wedi cael ei gynnal rhwng y teulu a rheolwyr perthnasol. Ymddiheuriad wedi cael ei ddarparu yn ystod y cyfarfod. Teulu wedi derbyn cadarnhad drwy lythyr hefyd. |
| GC/2089-14 | Cwyn ynglŷn ag anfoneb anghywir am ofal a dderbyniwyd | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Teulu wedi derbyn llythyr yn cadarnhau statws yr anfonebau. |
| GC/2218-14 | Cwyn ynglŷn â thoriad yn oriau gofal cartref | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Llythyr yn esbonio'r sefyllfa yn dilyn cyfarfod gyda'r Rheolwr Ardal. |
| GC/2224-14 | Cwyn ynglŷn â'r gwasanaeth a thriniaeth ei brawd gan y Cyngor. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Mater yma gyda'r Ombwdsman. |
| GC/2262-14 | Cwyn ynglŷn â sylwadau a wnaed gan aelod o staff | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Rheolwr Ardal wedi cysylltu gyda'r achwynydd dros y ffon i drafod y gwyn. Llythyr cynhwysfawr wedi cael ei yrru. |
| GC/1744-14 | Unigolyn yn anfodlon gyda chynnydd mewn costau Teleofal. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Teleofal (Oedolion) | Llythyr wedi ei yrru yn esbonio'r sefyllfa. Oherwydd chwyddiant nid oedd gan y Gwasanaeth opsiwn ond i godi'r costau. |
| GC/2135-14 | Cwyn ynglŷn â gosod y system Teleofal. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Teleofal (Oedolion) | Llythyr wedi ei ddarparu gydag esboniad llawn. |
| GC/1684-14 | Defnyddiwr Gwasanaeth wedi derbyn e- | Gwasanaethau | Cam 1 | Gwasanaeth | Llythyr ymddiheuriad wedi ei yrru i'r achwynydd, |

Tud. 159

## ATODIAD 2



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | bost gan y Gwasanaeth mewn Saesneg. Yr holl ohebiaeth blaenorol wedi bod drwy'r Gymraeg. | Cymdeithasol (Cwyn) | | Oedolion | yn ei sicrhau fod aelodau o staff wedi cael eu hatgoffa i ysgrifennu yn dewis iaith yr unigolyn. |
| GC/2013-14 | Ymholiad gan AGGCC ynglŷn ag unigolyn. | Ymholiad | | Darparu Mewnol | Gwybodaeth wedi cael ei rannu gyda AGGCC ynglyn a'r mater. |
| Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | | | | | |
| GC/1730-14 | Unigolyn eisiau gwneud nifer o gwynion yn erbyn y Gwasanaeth Plant e.e. materion SAA, materion lleoliad maeth ac eisiau copi o funudau adolygiad strategaeth. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr cynhwysfawr wedi ei yrru mewn ymateb i'r cwyn. |
| GC/1835-14 | Galwadau wedi methu i gasglu defnyddiwr gwasanaeth, hyn wedi digwydd nifer o weithiau dros gyfnod o 10 mis. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Derwen | Llythyr gydag ymddiheuriad ac esboniad llawn wedi cael ei yrru i'r teulu. Copi o'r llythyr wedi mynd i'r AGGCC. |
| GC/2230-14 | Cwyn fod y Gwasanaeth wedi methu darparu gwasanaeth roedd ei mhab ei angen. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Llythyr wedi ei ddarparu gydag esboniad llawn. |
| GC/1791-14 | Cwyn gan berson ifanc ynglŷn â sesiwn cyswllt a chael ei ailsefydlu. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr ymateb wedi cael ei yrru i'r person ifanc ac Eiriolwr gydag esboniad llawn o'r sefyllfa. |
| GC/1893-14 | Cwyn yn erbyn aelod o staff | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Esboniad llawn wedi ei ddarparu ynghyd a chyngor i adnabod cyngor cyfreithiol annibynnol. |
| GC/1906-14 | Cwyn ynglŷn â'r proses dewis symud person ifanc o Uned Ddiogel i Uned Agored yn y gymuned. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Esboniad llawn wedi cael ei ddarparu ar yr amser. Mater ofnadwy o sensitif; ystyriaeth lawn wedi cael ei roi cyn darparu ymateb. |
| GC/1918-14 | Cwyn yn erbyn aelod o staff | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr gydag esboniad llawn o'r sefyllfa wedi cael ei yrru. Unigolyn a wnaed y gwyn ddim yn rhiant i'r defnyddiwr gwasanaeth felly methu trafod y mater ymhellach. |
| GC/1939-14 | Nifer o faterion wedi codi e.e. materion cyswllt, diffyg cyfathrebu. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr wedi cael ei ddarparu yn rhoi esboniad llawn ar gyfer pob mater sydd wedi codi o fewn y gwyn. |
| GC/1973-14 | Cwyn yn erbyn Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Gweithiwr Cymdeithasol wedi ymweld a'r unigolyn. Cyfarfod wedi mynd yn dda. Teulu ddim eisiau parhau gyda'r gwyn. |
| GC/2025-14 | Cwyn yn erbyn y Gwasanaeth. Anhapus fod y plant wedi cael ei gweld heb rybudd a bod | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr wedi mynd i'r achwynydd gydag esboniad llawn. Llythyr yn esbonio fod gan y Gwasanaeth yr |

## ATODIAD 2

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | yr ymweliad yn ddirybudd. | | | | hawl a'r ddyletswydd i ymweld â phlentyn yn ddi-rybudd os oes angen. |
| GC/2044-14 | Nifer o faterion wedi cael ei godi gan yr achwynydd e.e. materion cyswllt, agwedd gweithiwr cymdeithasol, wedi cael ei chyfeirio heb ganiatâd. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Rheolwr Tîm wedi cysylltu gyda'r achwynydd dros y ffon i drafod y Cwynion. Llythyr wedi dilyn gydag esboniad llawn gan y Rheolwr Gwasanaeth. |
| GC/2049-14 | Cwyn fod gweithiwr cymdeithasol ddim wedi pasio llythyr ymlaen i blentyn. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr wedi cael ei ddarparu gydag esboniad llawn a gyda chyngor ar sut i symud pethau ymlaen. |
| GC/1724-14 | Unigolyn eisiau esboniad pam mai dim ond cyfnod penodol y mis mae'n cael cyswllt gyda'i blant, eisiau esboniad hefyd pam ei fod heb gael gwadd i unrhyw gyfarfod a oedd yn ymwneud a'i blant | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cwyn Anffurfiol | Gwasanaeth Plant | Esboniad llawn wedi ei ddarparu ar lythyr. Hefyd, wedi trafod y materion yn ystod nifer o alwadau ffôn. |
| GC/1749-14 | Cwyn wedi cael ei wneud gan rieni yn dilyn digwyddiad tra roedd y plenty yng ngofal y Cyngor. Rhiant heb gael gwybod am y digwyddiad hyd nes tri diwrnod wedyn. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Tîm Allan o Oriau | Llythyr ymddiheuro wedi cael ei ddarparu gan Reolwr Tîm Tu Allan i Oriau. Llythyr hefyd yn nodi fod y Rheolwr yn fodlon cwrdd gyda'r achwynydd i drafod ymhellach os dymunai. |
| GC/1942-14 | Cwyn yn ymwneud a mynediad at blentyn | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr wedi cael ei yrru gan Uwch Reolwr i'r achwynydd. Llythyr yn cynghori'r achwynydd o'r sefyllfa a'r ffordd orau ymlaen. Copi o'r llythyr wedi cael ei yrru at yr Ombwdsman. |
| GC/2178-14 | Nifer o faterion wedi codi o fewn y gwyn e.e. galwadau ffôn heb eu dychwelyd, anrhegion heb eu danfon i'r plant, treuliau heb eu talu. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr wedi mynd allan yn dilyn sgwrs ffon. Gweithiwr Cymdeithasol wedi cysylltu gyda'r achwynydd i drafod y materion a godwyd o fewn y gwyn. |
| GC/2288-15 | Person ifanc yn anhapus gyda threfniadau cyswllt newydd. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr wedi ei yrru gydag esboniad llawn i'r person ifanc ac yr Eiriolwr. |
| GC/2297-15 | Person ifanc yn anhapus fod rhaid symud lleoliad. Eisiau aros yn y lleoliad presennol. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Llythyr ymateb wedi mynd i'r person ifanc. Person ifanc yn hapus yn ei leoliad newydd a ddim eisiau parhau gyda'r gwyn. |
| GC/2035-14 | Cwyn yn ymwneud ac agwedd gweithiwr cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Rheolwr Tîm wedi cysylltu gyda'r achwynydd i drafod y gwyn. Cadarnhau'r hyn a drafodwyd ar ffurf llythyr. Achwynydd yn hapus gyda hyn. |
| GC/2273-14 | Ymholiad ynglŷn â Mabwysiadu | Ymholiad | | Mabwysiadu | Ymholiad wedi pasio at swyddog perthnasol o fewn yr Adran. |
| GC/1885-14 | Ymholiad ynglŷn â gofalwr maeth | Ymholiad | | Maethu | Ymholiad wedi pasio at swyddog perthnasol o |

# ATODIAD 2

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fewn yr Adran. |
| GC/2121-14 | Unigolyn eisiau llythyr gan y Gwasanaeth yn cadarnhau fod y plant wedi derbyn eu hanrhegion Nadolig. | Ymholiad | | Gwasanaeth Plant | Llythyr wedi cael ei yrru yn cadarnhau fod y plant wedi derbyn yr anrhegion Nadolig. |
| GC/2148-14 | Cwyn yn erbyn aelod o staff. | Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwyn) | Cam 1 | Gwasanaeth Plant | Rheolwr Tîm wedi cysylltu gydag achwynydd i drafod y gwyn. Cadarnhau'r drafodaeth ar lythyr. |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **22 Medi 2015** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ystyried Adroddiad Drafft yr Adolygiad Dechrau i Ddiwedd (ar wasanaethau pobl hŷn)** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Gareth Roberts** |

Cefndir

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ar 4 Mehefin 2015, awgrymwyd y dylai adroddiad ar Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (ar wasanaethau bobl hŷn) fod yn eitem y dylid ei gyflwyno'n 'gynnar' i'r Pwyllgor gael ei graffu yng nghyd-destun trawsffurfio gwasanaethau a siapio ymateb y Cyngor i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

2. Cynhaliwyd yr Adolygiad Dechrau i'r Diwedd, sef adolygiad o wasanaethau i bobl hŷn o fis Ebrill 2014 tan fis Mehefin 2015 a datblygwyd sawl ffrwd yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn yn ystod y cyfnod hwn. Un o'r prif dasgau oedd cydlynu'r rhain a helpu i ddilyn eu cynnydd gyda'r bwriad (erbyn haf 2015) o lunio datganiad strategaeth cydlynol a chyson fyddai'n gosod cyfeiriad ar gyfer y gwasanaethau hyn yn y cyfnod 2015-2018.

3. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Pobl Hŷn yng Ngwynedd yn costio £25m net (£36m gros) bob blwyddyn) yn 2013/14 a disgwylir i hyn ostwng go iawn i £21m net erbyn 2017/18. Mae'r gwariant presennol yn cynrychioli gwariant net blynyddol o thua £3.7m yn uwch na chyfartaledd y grŵp perthnasol o awdurdodau lleol - y 'teulu'. Yn unol ag awdurdodau eraill yng Nghymru, mae Gwynedd yn cydnabod nad yw ei fodelau traddodiadol ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion yn fforddiadwy nac yn ddymunol yn y tymor hwy a bod rhaid datblygu agweddau mwy hyblyg ac ymatebol fel y gellir bodloni anghenion pobl hŷn heb gyfaddawdu ar eu hannibyniaeth.

4. Er mwyn gwneud gwelliannau sylweddol yn y modd yr ydym yn helpu pobl hŷn i gael y deilliannau gorau, mae hefyd yn cael ei gydnabod bod rhaid i ni groesawu cysyniadau newydd nad ydynt efallai wedi'u profi'n llwyddiannus yn llawn. Golyga lleihad mewn adnoddau awdurdodau lleol a newidiadau mewn ffyrdd o fyw ein bod (ynghyd ag awdurdodau lleol eraill) yn canfod ein hunain yn gweithredu ar flaen y gad o ran datblygu a gweithredu polisi cymdeithasol – mae'n her sydd yn gofyn am ymateb

beiddgar, dychmygus a radical o bosib gennym. Rydym angen system iechyd a gofal sydd yn galluogi bobl o gael y gofal iawn ar yr amser iawn yn y lleoliad priodol am y pris gorau.

5. Cynhaliwyd tri darn o ymchwil lleol yn 2014 a cyfeirir atynt yn yr Adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adolygiad Ffeiliau Achos sy'n ceisio sefydlu pa mor dda mae ymarferion gwaith cymdeithasol yn helpu i gael y platfform gorau i reoli'r galw.
- Adolygiad Llwybrau achosion sy'n ceisio sefydlu'r ffactorau sydd wedi arwain at ddefnydd cynyddol o Leoliadau Cartrefi Nyrsio.
- Adolygiad Llwybrau achosion sydd yn ceisio sefydlu'r ffactorau (ymhlith pethau eraill) sydd wedi arwain at dderbyniadau i Ofal Preswyl.

6. Hefyd, cyfeirir sawl tro at Gronfa Gofal Canolraddol yn yr Adroddiad. Defnyddiwyd y rhaglen genedlaethol er mwyn cynorthwyo i drawsffurfio gwasanaethau pobl hŷn yng Ngwynedd, gyda'r amcan o gefnogi pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth am gyn hired â phosib, gan leihau'r angen am ymyrraeth ddiangen gan iechyd a gofal cymdeithasol a rheoli'r galw yn fwy effeithiol.

7. Cynhaliwyd yr Adolygiad Dechrau i'r Diwedd hefyd mewn cyfnod allweddol yng ngweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddeddfwriaeth bwysig hon yn ceisio rhoi llais, dewis a rheolaeth i bobl dros y ffordd y maent yn cael eu cefnogi wrth oresgyn rhwystrau iddynt allu cyflawni eu deilliannau llesiant. Wrth galon y nod hwn y mae egwyddor o gydweithredu wrth gynllunio cefnogaeth gymdeithasol er mwyn grymuso pobl gyda'r hyblygrwydd i benderfynu sut y caiff eu deilliannau eu cyflawni.

8. Ceir gweledigaeth gan y Cyngor i wneud Gwynedd yn le da i heneiddio. Mae'r Cyngor yn anelu i hyrwyddo a chefnogi annibyniaeth drwy alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi am gyn hired â phosib, a chomisiynu gwasanaethau sydd yn:

- Bodloni anghenion yr unigolyn;
- Cyfrannu at gynnal annibyniaeth;
- Atyniadol, priodol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol;
- Cynnig dewisiadau ac opsiynau i'r unigolyn;
- Cynnig gwerth am arian / yn gost effeithiol;
- Bodloni'r safonau disgwyliedig;
- Digon hyblyg i allu newid er mwyn ymdrin ag unrhyw newidiadau i amgylchiadau ac anghenion yr unigolyn.

9. Wrth i'r Cyngor wneud hyn, bydd yn defnyddio'r egwyddorion a ganlyn:

- Hyrwyddo annibyniaeth drwy sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i alluogi i bobl barhau i fyw yn eu cartrefi am gyn hired â phosib;
- Lleihau unigrwydd ac ynysiad cymdeithasol;

- Canolbwyntio ar urddas mewn gofal ac ar ansawdd gwasanaethau;
- Gweithio mewn partneriaeth;
- Cydnabod rôl gofalwyr a sicrhau bod yna gefnogaeth iddynt allu parhau i ofalu.

10. Mae yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn:

- Edrych ar sut mae awdurdodau lleol eraill yn moderneiddio eu gwasanaethau, gan chwilio i ddysgu gwersi gwerthfawr gan eraill am arloesi.
- Ystyried y wybodaeth sydd ar gael ar berfformiad, gan ddefnyddio meincnodau cenedlaethol, y grŵp cymharol o Awdurdodau Lleol (ALl) – y 'teulu', ac unrhyw ddangosyddion perfformiad lleol perthnasol.
- Adlewyrchu ar gynnydd a chyraeddiadau Gwynedd hyd yn hyn, yn enwedig ein datblygiadau (ymarferol a thrawsffurfiol) wrth ymateb i bolisïau/strategaethau cenedlaethol newydd ac i'r newid yn ein canfyddiadau o angen.
- Crynhoi'r newidiadau y mae'r Cyngor yn anelu i'w cefnogi yn y tair blynedd nesaf, o ran ei ddatblygiad sefydliadol strategol ac o ran ei fwriadau comisiynu.

11. Mae'n bwysig cadw mewn cof nad yw y cyfeiriad a osodir gan yr Adolygiad hwn yn gwbl newydd. Mae canran uchel iawn ohono wedi ei seilio ar drefniadau presennol a phenderfyniadau y mae y Cyngor wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Gwnaed ymdrech i dynnu yr elfennau yma at ei gilydd a'u haddasu fel bo yn briodol yng nghyd-destun gofynion deddfwriaethol newydd, blaenoriaethau strategol y Cyngor a'r cyd-destun ariannol heriol a wynebir gan wasanaethau cyhoeddus.

12. Mae ymgymryd â'r dasg o adolygu'r system gyfan wedi bod yn dasg enfawr. Mae natur y system gyfan yn ddeinamig ac yn golygu bod adolygiad dim ond yn dal sefyllfa ar un pwynt mewn amser - mae'r gwaith o reoli'r system i gyd angen bod yn rhan greiddiol o fusnes yr Adran a'r Cyngor. Beth sydd yn glir o'n gwaith ar:

- Llesiant a Rheoli Galw Cychwynnol
- Datblygu ymarfer
- Cefnogaeth i fyw gartref
- Llety
- Integreiddio

yw y gallwn ail-lunio'r system i gyd er mwyn cynnig gwell annibyniaeth, lleihau ynysu cymdeithasol, cynyddu urddas ac ansawdd gwasanaethau a darparu gwell cefnogaeth i ofalwyr.

13. Gwahoddir sylwadau a barn y Pwyllgor Craffu ar yr adroddiad drafft.

**“Gosod Cyfeiriad ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn”**

**(Adroddiad ar Adolygiad Dechrau i Ddiwedd)**

**DRAFFT**

Gorffennaf 2015

CYNNWYS

1. Cyflwyniad a Chefndir

2. Llesiant a Rheoli Galw Cychwynnol

3. Datblygu Ymarfer (gan gynnwys Diogelu)

4. Cefnogaeth i fyw Gartref

5. Llety

6. Integreiddio

7. Casgliad

8. Atodiadau – Perfformiad / Gwybodaeth Gymharol

1. **Cyflwyniad a Chefndir**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r Adolygiad Dechrau i Ddiwedd ar wasanaethau pobl hŷn. Cynhaliwyd yr Adolygiad o fis Ebrill 2014 tan fis Mai 2015 a datblygwyd sawl ffrwd yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn yn ystod y cyfnod hwn. Un o'r prif dasgau oedd cynorthwyo i gydlynu'r rhain a helpu i reoli eu cynnydd gyda'r bwriad (erbyn dechrau haf 2015) o lunio datganiad strategaeth cydlynol a chyson fyddai'n gosod cyfeiriad ar gyfer y gwasanaethau hyn yn y cyfnod rhwng 2015 a 2018.

1.2 Felly, mae'r adroddiad hwn yn:

- Edrych ar sut mae awdurdodau lleol eraill yn moderneiddio eu gwasanaethau, gan chwilio i ddysgu gwersi gwerthfawr gan eraill am arloesi.
- Ystyried y wybodaeth sydd ar gael ar berfformiad, gan ddefnyddio meincnodau cenedlaethol, y grŵp cymharol o Awdurdodau Lleol (ALl) – y "teulu", ac unrhyw ddangosyddion perfformiad lleol perthnasol.
- Adlewyrchu ar gynnydd a chyraeddiadau Gwynedd hyd yn hyn, yn enwedig ein datblygiadau (ymarferol a thrawsffurfiol) wrth ymateb i bolisïau/strategaethau cenedlaethol newydd ac i'r newid yn ein canfyddiadau o angen.
- Crynhoi'r newidiadau y mae'r Cyngor yn anelu i'w cefnogi yn y tair blynedd nesaf, o ran ei ddatblygiad sefydliadol strategol ac o ran ei fwriadau comisiynu.

1.3 Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Pobl Hŷn yng Ngwynedd yn costio £25m net (£36m gros bob blwyddyn) yn 2013/14 a disgwylir i hyn ostwng go iawn i £21m net erbyn 2017/18. Disgwylir i nifer y Bobl Hŷn yn y Sir gynyddu'n raddol o 27,310 yn 2015 i 28,420 yn 2020. Fodd bynnag, mae'r ffigwr cyffredinol hwn yn cuddio gostyngiad o 3% yn y band oedran 65-74, cynnydd o 11% yn y band oedran 75-84 a gostyngiad o 14% yn nifer y bobl hŷn na 85 mlwydd oed yn y cyfnod hwn. Mae'r gwariant presennol yn cynrychioli gwariant net blynyddol o oddeutu £3.7m yn fwy na chyfartaledd y "teulu".

1.4 Yn unol ag awdurdodau eraill yng Nghymru, mae Gwynedd yn cydnabod nad yw ei fodelau traddodiadol ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion yn fforddiadwy nac yn ddymunol yn y tymor hwy, a bod angen modelau newydd i gwrdd â'r angen disgwyliedig sy'n hyblyg ac yn ymatebol fel y gall pobl hŷn gynnal eu hannibyniaeth.

1.5 Er mwyn gwneud gwelliannau sylweddol yn y modd yr ydym yn helpu pobl hŷn i gyflawni'r deilliannau gorau, rydym hefyd yn cydnabod bod rhaid i ni harneisio cysyniadau newydd nad ydynt efallai wedi'u llawn brofi'n llwyddiannus. Golyga lleihad yn adnoddau ALl a newidiadau mewn ffordd o fyw ein bod (ynghyd ag ALl eraill) yn canfod ein hunain yn gweithredu ar flaen y gad o ran datblygu a gweithredu polisi cymdeithasol – mae'n her sy'n gofyn am ymateb beiddgar, dychmygus

a radical o bosib gennym. Rydym angen system iechyd a gofal sydd yn galluogi pobl i gael y gofal iawn ar yr amser iawn yn y lleoliad priodol am y pris gorau.

1.6 Cynhaliwyd yr Adolygiad Dechrau i Ddiwedd mewn cyfnod allweddol yng ngweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddeddfwriaeth bwysig hon yn ceisio rhoi llais, dewis a rheolaeth i bobl o ran y ffordd y maent yn cael eu cefnogi i ddod dros yr hyn sy'n rhwystro eu llesiant. Wrth galon hyn y mae'r egwyddor o gyd-gynhyrchu wrth gynllunio cefnogaeth gymdeithasol er mwyn grymuso pobl a rhoi'r hyblygrwydd iddynt benderfynu sut y caiff eu deilliannau eu cyflawni. Mae cysyniadau ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol yn rhan annatod o'r Ddeddf. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer rolau'r Awdurdod Lleol o ran dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

- Gwell mynediad at wybodaeth ac adnoddau cyffredinol i bawb
- Ymateb cymesur yn y gymuned i'r sawl sydd angen cefnogaeth
- Cymorth sydd wedi'i ddylunio'n dda i ddiwallu anghenion dinasyddion mwy bregus.

1.7 Mae'r tair ffrwd hyn wedi bod yn sail i waith diweddar y Cyngor wrth ailstrwythuro Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Llesiant
- Galluogi
- Anghenion Cymhleth

1.8 Rydym ni eisiau i Wynedd fod yn le da i bobl heneiddio; bydd y Cyngor yn hyrwyddo a chefnogi annibyniaeth drwy alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi am gyn hired â phosib. Rydym yn bwriadu comisiynu gwasanaethau sy'n:

- Bodloni anghenion yr unigolyn
- Cyfrannu at gynnal annibyniaeth
- Atyniadol, priodol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- Cynnig dewisiadau ac opsiynau i'r unigolyn
- Cynnig gwerth am arian / sy'n gost effeithiol
- Bodloni'r safonau disgwyliedig
- Digon hyblyg i allu newid er mwyn ymdrin ag unrhyw newidiadau i amgylchiadau ac anghenion yr unigolyn.

Wrth i ni wneud hyn, byddwn yn defnyddio'r egwyddorion a ganlyn:

- Hyrwyddo annibyniaeth drwy sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i alluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi am gyn hired â phosib;
- Lleihau unigrwydd ac ynysiad cymdeithasol;
- Canolbwyntio ar urddas mewn gofal ac ar ansawdd gwasanaethau;

- Gweithio mewn partneriaeth;
- Cydnabod rôl gofalwyr a sicrhau bod yna gefnogaeth iddynt allu parhau i ofalu.

1.8 Cynhaliwyd tri darn o ymchwil lleol yn 2014 a chyfeirir atynt yn yr Adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adolygiad Ffeiliau Achos sy'n ceisio sefydlu pa mor dda mae ymarferion gwaith cymdeithasol yn helpu i gael y platfform gorau i reoli'r galw.
- Adolygiad Llwybrau achosion sy'n ceisio sefydlu'r ffactorau sydd wedi arwain at ddefnydd cynyddol o Leoliadau Cartrefi Nyrsio.
- Adolygiad Llwybrau achosion sy'n ceisio sefydlu'r ffactorau (ymhlith pethau eraill) sydd wedi arwain at dderbyniadau i Ofal Preswyl.

1.9 Hefyd, cyfeirir at y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) sawl gwaith yn yr adroddiad. Defnyddiwyd y rhaglen genedlaethol hon er mwyn cynorthwyo i drawsffurfio gwasanaethau pobl hŷn yng Ngwynedd, gyda'r amcan o gefnogi pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth am gyn hired â phosib, gan leihau'r angen am ymyrraeth ddiangen gan iechyd a gofal cymdeithasol a rheoli'r galw yn fwy effeithiol.

## 2. Llesiant a Rheoli Galw Cychwynnol

Arferion Gorau

2.1 *“There is broad consensus on what the future needs to be. It is a future that empowers patients to take much more control over their own care and treatment. It is a future that dissolves the classic divide, set almost in stone since 1948, between family doctors and hospitals, between physical and mental health, between health and social care, between prevention and treatment”* (*NHS 5 Year Forward View- Lloegr 2014).*

2.2 Mae cynghorau’n datblygu dulliau llwyddiannus i reoli’r galw am wasanaethau, er gwaethaf y pwysau cynyddol a berir gan ffactorau ddemograffig. Mae tri dull allweddol wedi dod i’r amlwg:

- cyfeirio pobl oddi wrth ofal ffurfiol pan fo hynny’n briodol
- hyrwyddo annibyniaeth a gwytnwch
- cynnig ymyraethau ataliol cyn asesu am ofal tymor hwy.

2.3 Mae’r rhan fwyaf o Gynghorau yn Lloegr wedi mabwysiadu trefniant blaen tŷ sy’n cynorthwyo i gyfeirio pobl nad ydynt angen gofal ffurfiol oddi wrth wasanaethau asesu’r Cyngor a thuag at ddatrysiadau oddi mewn i’w teuluoedd, eu cymdogaethau, eu cymunedau, y sector gwirfoddol neu weithiau hyd yn oed o fewn eu galluoedd eu hunain. Gallai cynghorau ddisgwyl cyfeirio hyd at 75% o bobl tuag at ddatrysiad o’r natur hon cyn y cânt gynnig asesiad neu gymorth ffurfiol (Rhaglen *Adult Social Care Efficiency* y LGA). Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau yn ffafrio gwasanaeth mwy arbenigol sy’n rhoi cyfle gwell i sicrhau bod pobl yn derbyn yr help iawn wrth gysylltu am y tro cyntaf.

2.4 Er enghraifft, caiff pen blaen gwasanaethau Barking a Dagenham ei weithredu gan weithwyr cymdeithasol profiadol sydd wedi cymhwyso’n llawn. Gellir dadlau fod y math hwn o adnodd yn rhoi’r farn orau a’r mwyaf diogel i bennu pryd i gynnig asesiad mwy cyflawn i berson, a pha bryd y mae'n bosib eu cyfeirio at ddatrysiad yn y gymuned. Fodd bynnag, mae nifer llai o Gynghorau eraill (e.e. Swydd Amwythig, Gateshead) wedi bod yn defnyddio gwirfoddolwyr a staff cefnogi busnes yn y pwynt cyswllt cychwynnol, trefniant sy’n lleihau costau ac sy’n galluogi i ben blaen y gwasanaeth gael cymeriad ar wahân, nad yw o reidrwydd yn golygu “gwasanaethau cymdeithasol”.

2.5 Mae Stockport yn comisiynu gwasanaeth gan y sector gwirfoddol o’r enw FLAG sy’n helpu pobl sy’n cael eu cyfeirio oddi wrth dîm cyswllt gofal cymdeithasol y Cyngor. Mae’n cynnig cyngor a gwybodaeth, yn cynnwys cyfeirio pobl at sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Cyflwynir y gwasanaeth trwy CAB, Siop Un Stop y Cyngor a’r Llinell Ofal. Mae modd iddo adnabod a thargedu’r bobl hynny sydd ar ymylon

y meini prawf cymhwysedd a'u cyfeirio tuag at wasanaethau ataliol priodol, am amser penodol. Yn ddiddorol, mae'r Un Pwynt Mynediad (SPOA) o fewn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol yng Ngwynedd yn arddel arfer debyg i hyn, trwy gyfeirio unigolion yr ymddengys bod ganddynt lefel isel o angen a risg ar y pwynt cyfeirio at un sefydliad sy'n darparu therapïau siarad, heb yr angen am asesiad llawn.

2.6 Datgelodd gwaith a wnaed gan Kent a Kingston, er gwaethaf y meini prawf cymhwysedd a gyhoeddwyd yn lleol, fod gwahanol weithiwyr (cymwys neu beidio) yn defnyddio trothwyon a datrysiadau gwahanol ar gyfer pobl gyda phroblemau tebyg. Darganfuwyd bod rhai gweithwyr yn well nag eraill am gyfeirio pobl oddi wrth ddatrysiadau gofal ffurfiol, neu ganfod datrysiadau mwy creadigol i fodloni anghenion pobl.

2.7 Mae sicrhau bod amrediad eang o ddarpariaethau ar gael yn y gymuned yn hanfodol i gynnal annibyniaeth a gwytnwch cymuned. Gellid disgrifio'r gwasanaethau lefel isel a chyffredinol hyn fel rhan o gontinwwm o gefnogaeth, ond nid yw bob amser yn hawdd i oedolion hŷn gael mynediad atynt:

- Llyfrgelloedd
- Canolfannau Hamdden
- Clybiau chwaraeon lleol
- Cymdeithasau lleol ar ddiddordebau arbennig ac ati
- Caffis a thafarndai, eglwysi a chapeli lleol

2.8 Yn dilyn y rhain, ceir cyfleusterau sydd ar gael i oedrannau penodol e.e. Canolfannau Heneiddio'n Dda, lle telir sylw i iechyd a llesiant oedolion wrth iddynt fynd yn hŷn gyda'r bwriad o atal afiechyd a cholli annibyniaeth.

2.9 Fel arfer y ffactorau sy'n effeithio'n negyddol ar allu a hyder pobl i gynnal eu hannibyniaeth yn y lle cyntaf yw'r pethau bychain hynny sy'n ymwneud â bywyd bod dydd (rhain hefyd sy'n aml yn dangos i'r byd ar y tu allan os yw rhywun yn ymdopi ai peidio) e.e.

- Gardd daclus
- Cynnal a chadw cyffredinol yr eiddo
- Ffenestri glân
- Llenni glân
- Taclusrwydd a glendid cyffredinol y cartref
- Siopa
- Coginio

2.10 Mae cred draddodiadol ymysg rhai mai "dyletswydd" gwasanaethau cymdeithasol yw'r ffactorau hyn (yn enwedig glanhau a siopa), ond mewn gwirionedd, nid ydynt wedi bod yn rhan o'r gwasanaeth gofal cartref ers cryn amser. Mae'r rhain i gyd yn wasanaethau sy'n well os nad ydynt yn cael eu darparu yng nghyd-destun "gwasanaethau

cymdeithasol", yn ôl yr arfer orau, gall/dylai'r gymuned leol / y trydydd sector ddarparu'r rhain i gyd.

Crynodeb o enghreifftiau o'r arfer orau

- Teclyn sgrinio ar gyfer y cyswllt sy'n helpu staff i sefydlu barn a rhoi cyngor mewn modd sy'n gyson ac yn adeiladol.
- Menter gymdeithasol annibynnol sy'n cyflwyno gwasanaeth gofal cymdeithasol rheng-flaen i oedolion (e.e. Cyngor Sir Swydd Amwythig).
- Cynnal asesiadau gofal cymunedol yn y swyddfa - dim ond cynnig ymweld â chartrefi'r bobl sydd wir angen hynny.
- 'Gwahanol sgyrsiau' i gyfleu "beth sy'n bwysig".
- Ni chaiff datrysiadau gwasanaeth traddodiadol eu hystyried ond pan fo datrysiadau yn y gymuned wedi cael eu harchwilio'n llawn.
- Datblygu "cronfa arloesi" i annog gweithgareddau cymunedol i gefnogi'r dull hwn.
- Mae hyd at 75% o'r bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn derbyn cymorth heb fod angen asesiad gofal cymdeithasol llawn (mae rhai Cynghorau'n adrodd ar ffigwr o gymaint â 97%, ond mae gwahanol ddiffiniadau'n yn golygu ei bod yn anodd cymharu).
- Staff sydd wedi'u hyfforddi o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio ar y rheng-flaen ar ran y ddwy asiantaeth.
- Canolbwyntio ar ddeilliannau ataliol sy'n helpu pobl rhag mynd i'r system ofal ffurfiol.
- Adeiladu a chynnal cysylltiadau cryf gyda sefydliadau cymunedol a'r sector gwirfoddol lleol.
- Helpu pobl i ddod o hyd i ddatrysiadau lleol sy'n mynd ati'n benodol i atal unigolion rhag gorfod mynd i ofal preswyl
- Hyfforddi staff i fod yn fwy hyderus ac i allu cyfeirio pobl oddi wrth gofal cymdeithasol.

Dadansoddiad ar berfformiad a sylwebaeth ar ddatblygiad Gwynedd

2.11 O ran cefnogi sefydliadau gofal cymunedol, mae Gwynedd yn gwario oddeutu £450,000 y flwyddyn; ffigwr sy'n agos iawn (ar ôl ystyried ffigyrau poblogaeth) i gyfartaledd Cymru a'r "teulu". O ystyried natur

agored iawn y mynediad at y gwasanaethau hyn, mae'n anodd iawn asesu faint o ddinasyddion sy'n elwa ohonynt pob blwyddyn.

2.12 Mae dadansoddiad a gynhaliwyd i gael darlun cryno o'r data am gyfeirio oedolion yn awgrymu y daw'r rhan fwyaf o gyfeiriadau (42%) gan yr unigolion eu hunain / aelodau teulu / cymdogion. Yn ail i hyn mae cyfeiriadau gan y GIG (34%) sy'n cynnwys ysbytai (19%) a gwasanaethau gofal cymunedol a sylfaenol (15%). Mae'r 24% sy'n weddill yn cynrychioli tri chategori fwy neu lai; yr heddlu (7%), gwasanaethau cymdeithasol (5%) ac Eraill (10%). Mae'r olaf o'r rhain yn cynnwys sefydliadau'r sector annibynnol. Dangoswyd gan ddadansoddiad o ddata cyfeiriadau oedolion yn 2014/15 fod oddeutu 15% o'r "cysylltiadau" yn cael eu cyfeirio i asiantaethau / gwasanaethau cymunedol eraill, ac o'r herwydd ni chaiff y rhain eu hystyried yn gyfeiriadau.

2.13 Darganfuwyd gan Adolygiad Ffeiliau Achos Gwynedd, a oedd yn ceisio sefydlu pa mor dda oedd ymarferion gwaith am helpu i wneud y mwyaf o reoli galw:

- Nad oedd deilliannau'n cael eu defnyddio mewn modd strwythuredig, a phrin iawn yr oeddynt yn cael eu cymharu yn erbyn deilliannau dymunol yr unigolyn.
- Nad oedd llesiant, y cysyniad o gyd-gynhyrchu a gofal hunangyfeiriedig wrth wraidd y ffordd yr oedd gwaith cymdeithasol yn gweithredu o fewn gwasanaethau pobl hŷn.
- Bod peth gwaith ataliol yn digwydd, ond nid oedd tystiolaeth ddigonol o hynny bob tro (gweler y cyfeiriad at ddeilliannau)
- Nad oedd digon o amrywiaeth yn y gwasanaethau (na gallu o bosib) i ddiwallu anghenion, yn enwedig mewn sefyllfaoedd argyfyngus.

2.14 Lansiwyd cynllun Ffordd Gwynedd yn gynnar yn 2015 i gyflwyno dull newydd o weithio i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleientiaid. Mae'n gweithredu mewn ardal benodol, mewn modd integredig, trwy gyfrwng tîm o staff Gofal Cymdeithasol a'r GIG, wrth:

- Ddiffinio pwrpas – helpu pobl i fyw eu bywydau yn ôl eu dymuniad.
- Defnyddio cyfres o naw egwyddor (Vanguard);
- Dwyn ynghyd cyfres o fesurau sy'n dangos p'un a ydym yn cyflawni ein pwrpas ai peidio.
- Canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r cleient gyda'r un gweithiwr yn dilyn stori'r dinesydd o'r dechrau i'r diwedd ac yn gallu cynnwys rhoi'r arbenigedd iawn ar yr amser iawn.
- Arwain newid ar sail yr hyn a ddysgir o achosion go iawn ar y rheng-flaen – arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio a dysgu drwy brofiad normadol.
- Defnyddio system TG integredig a chanolbwyntio ar lai o waith papur, treulio mwy o amser gyda'r dinesydd.

- Helpu'r dinesydd i helpu ei hun, gan leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus.

2.15 Yr hyn y mae tîm Ffordd Gwynedd wedi'i ddysgu:

- Ar hyn o bryd mae gan y GIG a Gofal Cymdeithasol wahanol flaenoriaethau, a chyllidebau a strwythurau rheoli sydd gwbl ar wahân. Yn aml, nid yw'r gwahanol ddibenion hyn yn seiliedig ar beth sy'n bwysig i'w cwsmeriaid a gallent weithio'n groes i'w gilydd.
- Mae'r un cleientiaid yn dod yn ôl fwy nag unwaith am nad yw'r gwasanaethau wedi treulio digon o amser i ddeall beth sy'n bwysig iddynt yn y lle cyntaf. Nid yw'r ffordd o weithio ar hyn o bryd bob amser yn amgyffred yn iawn beth sydd o wirioneddol bwys i'r cleient.
- Mae gormod o waith papur e.e. ffurflen ag iddi dros 100 o dudalennau i'w llenwi i gael arian i dalu am ofal nyrsio yn y cartref am bedair awr yr wythnos, er mwyn bodloni paneli'r GIG. Mae ffurflen asesiad sylfaenol Gwasanaethau Cymdeithasol yn 26 tudalen.
- O'r lefel gweddol isel o achosion y mae'r tîm wedi ymdrin â hwy cyn belled, ni chomisiynwyd gofal cartref traddodiadol ond ar gyfer dau o'r achosion hynny. Mae'n ddigon buan ar hyn o bryd, ond mae hyn yn awgrymu y gallai buddsoddi i ddeall 'beth sy'n bwysig' i'r cleient leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau gofal ffurfiol (a chostus) a chael effaith mwy positif ar y cleient yr un pryd.

2.16 Mae amrediad o sefydliadau sy'n cyfrannu at ddiwallu peth gofal sylfaenol ac anghenion domestig, ond mae'r sefyllfa bresennol yn un '*ad hoc'* ar draws Gwynedd ac mae gan rai cymunedau fwy o allu i gefnogi eu hunain tra fod gwasanaethau'r trydydd sector yn gryfach mewn ardaloedd eraill. Dylwn anelu i ddatblygu cymunedau cryf a chefnogol sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaethau trydydd sector addas ac eang, gyda phawb yn gweithio i gefnogi bobl i fyw yn lle y dymunant ac i gynnal eu hannibyniaeth.

2.17 Mae'r prosiect Dementia GO (ICF) yn ymestyn y cynllun NERS (Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff) presennol, gan fagu ymwybyddiaeth ymysg pobl sy'n hŷn na 40 mlwydd oed o'r hyn all helpu i arafu dementia wrth fynd yn hŷn, yn enwedig ymarfer y corff, bwyta'n iach a mynychu gweithgareddau cymdeithasol. Mae hefyd yn ceisio gwella bywydau'r sawl sy'n dioddef o ddementia, gan gynnwys teuluoedd a gofalwyr.

2.18 Mae Age Cymru wedi datblygu Canolfannau Byw'n Dda (ICF) i gynnig cwmnïaeth a rhywle i ddysgu sgiliau newydd a magu hyder mewn amgylchedd sy'n cynnig cefnogaeth gan weithwyr proffesiynol. Mae hefyd wedi datblygu mwy ar weithio mewn partneriaeth gyda grŵp Tai Cymdeithasol Cynefin er lles ei breswylwyr. Mae cyfanswm o 185 o unigolion wedi mynychu'r canolfannau ac mae ganddynt 120 o aelodau gweithredol sy'n parhau i fynychu pob wythnos (cyfradd gadw o 64.9%). Mae ariannu ystafelloedd llesiant (ICF) mewn tair canolfan hamdden wedi rhoi lle i gynnal

gwasanaeth ‘galw heibio’ i flaenoriaethu anghenion ffisiotherapi ac er defnydd y prosiect Dementia Go.

2.19 Mae’r Gymdeithas Strôc wedi ehangu ei wasanaeth ‘adfer yn dilyn strôc’ (ICF) i greu mwy o gyfleoedd cymdeithasu i oroeswyr strôc a’u gofalwyr, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr mewn caffis lleol yn Nwyfor a Meirionnydd. Mae hyn wedi cynyddu eu hyder a'u gallu i gyfathrebu mewn mannau cyhoeddus ac wedi lleihau eu hunigedd. Mae datblygiad y Caffi Parkinson’s (ICF) yn ardal Bangor yn helpu i wella iechyd a llesiant y bobl sy’n mynd iddo ac yn lleihau ynysiad cymdeithasol.

2.20 Trwy weithio gyda Meddygon Teulu, gwasanaethau nyrsio cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau gofalu, mae’r Timoedd Fferylliaeth (ICF) yng ngogledd Cymru wedi medru targedu dinasyddion sy’n gaeth i’w cartrefi neu mewn cartrefi gofal ac sydd yn derbyn nifer o feddyginiaethau, er mwyn cynnal adolygiadau rheolaidd o'u meddyginiaeth yn y cartref. Trwy weithio i wella cydymffurfiaeth meddyginiaeth, nod y rhaglen yw gwella trefniadau rhyddhau o'r ysbyty / atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty'n ddi-angen, miniogi prosesau gweini meddyginiaeth, lleihau camgymeriadau mewn meddyginiaeth a phresgripsiynau nad oes eu hangen. Gwelwyd cyfanswm o 702 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn y 12 mis diwethaf yng ngogledd Cymru, gan greu arbedion o oddeutu £279,800 i’r GIG a’r Awdurdodau Lleol.

2.21 Mae peilot Gwasanaeth Cefnogi Galluogi’r Groes Goch (ICF) yn welliant ar y cynllun Adref o'r Ysbyty i gefnogi pobl hŷn i ail fagu hyder, i wella a chreu mwy o gysylltiadau gyda'r gymdeithas ac i wella annibyniaeth. Mae’r cynllun yn cynnwys cefnogaeth ymarferol ac emosiynol lefel isel, un cam i lawr o’r mewnbwn sydd ar gael gan y sector statudol.

2.22 Mae Adran Ffisiotherapi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chynllun NERS Gwynedd wedi datblygu cynllun sy'n bwriadu canolbwyntio ar broblemau codymu ymysg pobl sy'n 65 mlwydd oed a hŷn. Mae hyn yn cynnwys dosbarth Atal Codymau ac Ymarferion Cydbwysedd sy'n para am 32 wythnos. Dyluniwyd y rhaglen Atal Codymau gan *Later Life Training* ac mae’n glynu at ymchwil sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Gall gynnig cyfleoedd ymarfer corff, ffisiotherapi ac asesiadau diogelwch yn y cartref.

2.23 Mae Cynllun Strategol y Cynghorau'n cynnwys Prosiect Her Gofal; sydd wedi'i ddylunio i sicrhau bod pobl Gwynedd yn llwyr ddeall yr her sy'n ein wynebu ac i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu trwy weithredu. Bydd llwyddiant y prosiect hwn yn hanfodol ar gyfer yr agenda ataliol, a bydd yn sicrhau ein bod ni fel Cyngor (a’n partneriaid) yn ymateb yn rhagweithiol i newid.

<u>Bwriad Gwynedd yn Strategol ac o ran Comisiynu</u>

2.22 Yn y dyfodol, bwriadwn:

- Ailwampio perthynas y Cyngor gyda'i ddefnyddwyr – canolbwyntio ar hwyluso, galluogi ac adfer yn hytrach na 'gwneud ar eu rhan' (fel rhan o'r Prosiect Her Gofal).

- Creu gwasanaeth Tai a Llesiant o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd y Gwasanaeth hwn yn arwain ar weithgarwch Llesiant ac yn datblygu gwead cymunedol sy'n fwy gwydn, cefnogol ac ataliol i leihau'r angen am ofal ffurfiol.

- Creu Gwasanaeth Galluogi o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys Timoedd Galluogi integredig (Gwasanaethau Cymdeithasol/y GIG) fydd yn gweithredu yn y rôl cyswllt cyntaf / rheoli galw i leihau galw sy'n codi fwy nag unwaith.

- Gweithredu cynllun Vanguard / Ffordd Gwynedd. Bydd hyn (yn hwyrach yn 2015) yn cael ei gyflwyno i ardal ddaearyddol ehangach ac i lefel uwch o achosion – byddwn yn defnyddio prosesau ysgafn, yn gweithio'n integredig ac yn canolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' i ddefnyddwyr, gan alluogi diwallu eu hanghenion yn gynt.

- Ailwampio perthynas y Cyngor gyda chymunedau a sefydliadau cymunedol i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o botensial yr holl adnoddau ac asedau cymunedol (fel rhan o'r Prosiect Her Gofal).

- Datblygu strategaeth / cynllun comisiynu llesiant erbyn mis Ebrill 2016 (ar y cyd â phartneriaid) i ddiffinio'r prif gamau i gyflawni amrediad gwell o ymatebion lleisiant yn y gymuned (fel rhan o Brosiect Her Gofal).

## 3 Datblygu Ymarfer (gan gynnwys Diogelu)

Arferion Gorau

3.1 Mae croesawu'r math o newid sydd bellach ei angen yn her sylweddol i bobl sydd ynghlwm ag ymarfer. Nid gorchwyl hawdd yw newid ymarfer staff o asesiad anghenion traddodiadol i ddull sy'n fwy seiliedig ar asedau, un sy'n hyrwyddo annibyniaeth. Mae gwaith ymchwil wedi adnabod gwahaniaethau sylweddol ymysg staff Asesu a Rheoli Gofal unigol o ran cyflawni ymateb llwyddiannus a chost effeithiol i anghenion cleientiaid - tybir gan nifer o gynghorau Lloegr fod yr amrywiaethau hyn yn sail ddilys i ystyried eu perfformiad. Gall hefyd fod yn anodd i ddefnyddwyr a gofalwyr addasu eu disgwyliadau o'r math o ofal sydd ar gael. Mae angen i'r newidiadau diwylliannol/ymddygiadol effeithio ar amrediad o brif bartneriaid sy'n ymwneud â darparu gofal. Mae'r cynghorau hynny sy'n llwyddo i drawsffurfio ymarfer cynhwysfawr yn cydnabod na all hyn fod yn bosib ond o fewn terfyn amser priodol (mae angen 2/3 blynedd i ddiwylliant newydd ennill ei blwyf yn iawn).

3.2 Dengys tystiolaeth fod y Cynghorau hynny sydd wedi llwyddo i leihau dibyniaeth ar ofal preswyl wedi gwneud hynny trwy ganolbwyntio ar newid diwylliannol o fewn ymarfer. Mae llawer wedi llwyddo i newid eu model gofal o un sydd â natur dadol (gydag ymyraethau amddiffynnol) i un sy'n hybu annibyniaeth ac yn rheoli risg yn well. Mae potensial gwasanaethau a strategaethau ataliol i leihau'r angen am wasanaethau prif lif yn bwysig ar yr agenda gwleidyddol a'r agenda polisi, gyda'r posibilrwydd y gall derbyn help yn gynt (gan wasanaethau lefel is) leihau anghenion mwy sylweddol wrth i bobl heneiddio.

3.3 Dyluniwyd cynllun '*Opening Doors for Older People'* Tameside i leihau neu arafu angen pobl hŷn am ofal ysbyty, gofal preswyl neu ofal cartref dwys. Mae dwy ffrwd i'r prosiect - y cyntaf yw adnabod/cysylltu â phobl hŷn a'u gofalwyr sydd fwyaf mewn perygl o golli eu hannibyniaeth, ond nad ydynt eto angen gofal dwys ffurfiol. Cynigir gwiriad ac ymweliad am ddim iddynt o'r enw CORA (*community options for remaining active*) lle rhoddir gwybodaeth a chyngor i'r cleient, gan gynnwys ei gyfeirio at wasanaethau neu ffynonellau eraill o gymorth. Mae'r ail ffrwd yn cynnwys ailwampio gwasanaethau cymunedol trwy ddefnyddio ymweliadau CORA i gasglu barn pobl hŷn a'u gofalwyr am y math o wasanaethau cymunedol sydd angen eu comisiynu/datblygu i gefnogi eu hannibyniaeth a'u lles.

3.4 Gall iechyd neu annibyniaeth pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth ddirywio'n sydyn ar unrhyw adeg, ac mae angen cefnogaeth effeithiol a chyflym gan ymarferwyr sy'n deall eu hamgylchiadau a'u cyflyrau unigol ac sy'n medru cynnig opsiynau effeithiol yn hytrach na gofal sefydliadol. Gall pobl hŷn sy'n fregus, sydd â nam gwybyddol neu sy'n anabl fynd yn ddryslyd neu brofi problemau symudedd yn sydyn, gallent ddioddef codymau, neu fynd o allu dygymod i beidio â gallu dygymod yn sydyn o ganlyniad i fân salwch aciwt neu gyflwr presennol sy'n gwaethygu (*Clegg et al, 2013*). Pan fo pobl hŷn yn

wael, mae’n bosib na fyddant yn ddigon da i reoli eu gofal eu hunain, ond gyda’r ymyrraeth a’r gefnogaeth gywir, fe allant wella tipyn, neu wella’n llwyr.

3.5 Mae data naratif gan bobl hŷn a’u gofalwyr yn awgrymu mai diffyg yn yr hyn sydd ar gael gan wasanaethau eraill yw’r rheswm pam fod pobl yn cael eu derbyn i’r ysbyty ac i ofal preswyl, ac o fewn dyddiau'n unig, gallent ddechrau dibynnu ar eraill, sy'n ei gwneud yn llawer anos i adennill eu hannibyniaeth. Felly mae’n bosib iawn y byddai llai o bobl yn cael eu derbyn i’r ysbyty mewn ymateb i argyfwng pe byddai gwasanaethau eraill ar gael i reoli eu hiechyd a’u lles yn well. Wrth ymdrin ag argyfwng, mae angen i wasanaethau ganolbwyntio ar wellhad ac adferiad. Mae’n rhaid cyflwyno’r mesurau hyn mewn modd amserol, a'r ffordd orau i'w trefnu fel arfer yw trwy fodel integredig gyda’r GIG neu gan weithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd. Ceir gwasanaethau sy’n cael eu hariannu/rheoli ar y cyd yn Milton Keynes a Sandwell. Yn ne Cymru, mae profiad o ddefnyddio cyllidebau wedi’u cronni a rhoi timau amlddisgyblaethol ar waith. Mae tystiolaeth arferion gorau yn tynnu sylw at rôl allweddol Meddygfeydd o ran adnabod a chefnogi bobl sydd ag anghenion yn dod i'r amlwg ac i gynnal bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth mewn lleoliadau yn y gymuned. Gwelir bod rôl cydlynwyr gofal yn gynyddol bwysig i bobl sydd ag anghenion cymhleth.

3.6 Mae’r dystiolaeth yn amlygu y dylai gwasanaethau gofal cymdeithasol fod ar gael tu allan i oriau, ac y dylent alluogi asesiad cyflym o anghenion gofal a chefnogaeth yr unigolyn gyda’r nod o sefydlogi’r sefyllfa a rhoi cynllun gofal at ei gilydd sy’n osgoi derbyniadau clinigol diangen i ysbyty neu ofal tymor hir. Y safon “Llyfr Arian” a argymhellir yw y dylid comisiynu un pwynt mynediad (SPOA) 24/7, gan gynnwys ymateb amlddisgyblaethol o fewn dwy awr (*Kings Fund, 2014*) Mae’r gronfa *Better Care Fund* newydd yn Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a grwpiau comisiynu clinigol ddarparu gwasanaethau saith diwrnod yr wythnos i gefnogi cleifion wrth iddynt gael eu rhyddhau o’r ysbyty ac atal unrhyw dderbyniadau diangen.

3.7 Mae thema sydd i'w gweld yn gyson mewn Cynghorau sy'n perfformio'n dda yn cynnwys gweithredu i leihau nifer y derbyniadau i ofal preswyl - gan sicrhau ymyraethau cynnar effeithiol i atal pobl rhag cael eu derbyn yn y lle cyntaf yn ogystal ag ymyraethau eilaidd priodol, er enghraifft, ar gyfer ymdrin ag unrhyw argyfwng dilynol. Mae argaeledd amrediad o wasanaethau yn hanfodol ar gyfer llwyddo, yn enwedig adnoddau yn y gymuned i helpu pobl i fyw gyda dementia. Yn wir, mae’r pethau cyffredin sy'n peri i bobl symud yn gynt i ofal sefydliadol yn cynnwys codymau niferus, anymataliaeth a symptomau ymddygiadol dementia (*Centre for Policy on Ageing and Bupa 2012*). Felly, mae gan asesu, trin a chefnogi’r cyflyrau hyn yn briodol y potensial i atal derbyniadau costus a diangen i wasanaethau.

3.8 Un mater nad yw wedi cael llawer o sylw o ran gwaith ymchwil yw ffenomenon system gyflawn a “arweinir gan gyflenwad” - yn hytrach na bod galw/angen yn 'gwthio’ siâp a graddfa'r cyflenwad gwasanaeth, mae'r cyflenwad gwasanaeth yn ‘tynnu'r’ galw/angen i ffitio i'w siâp a'i raddfa ei hun (gydag ymarfer yn chwarae rôl gynnil ond yn parhau yn rhan ohono). Yn 2014,

nododd Kings Fund y gall ardaloedd gyda nifer uwch o leoliadau cartrefi gofal brofi trothwy mynediad is, sy'n enghraifft o'r deinameg hwn.

3.9 Mae taliadau uniongyrchol (symiau o arian sydd ar gael i'r Awdurdodau Lleol) i unigolion, neu eu cynrychiolwyr, i'w galluogi i fodloni eu gofynion gofal a chefnogaeth yn fecanwaith pwysig sy'n eu galluogi i gael dewis a rheolaeth. Maent yn rhan hanfodol o ddiwallu anghenion pobl trwy gynllunio eu gofal a'u cefnogaeth, ac ni ddylid ei weld fel ystyriaeth eilradd, ar wahân. Nid peth dewisol yw cynnig Taliadau Uniongyrchol bellach; os yw defnyddiwr gwasanaeth / gofalwr yn dymuno derbyn Taliadau Uniongyrchol, rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth honno ar gael iddo, cyn belled bod y taliadau'n galluogi cyflawni ei ddeilliannau llesiant.

3.10 Yn 2007, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwil i'r rhesymau pam fod niferoedd a oedd yn derbyn Taliadau Uniongyrchol yn amrywio yng Nghymru. Y prif reswm oedd amharodrwydd gweithwyr cymdeithasol i dderbyn y gallai defnyddwyr gwasanaeth reoli Taliadau Uniongyrchol yn effeithiol, ac o ganlyniad, roeddynt yn gyndyn o hyd yn oed trafod TU fel opsiwn. Arweiniodd yr ymchwil at nifer o argymhellion a oedd yn seiliedig ar y canfyddiadau – ymddengys bod y rhan fwyaf o'r rhain wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf newydd a'i Chod Ymarfer.

3.11 Yn ddiweddar, sefydlwyd prosiect grwpiau cydweithredu taliadau uniongyrchol wedi'u harwain gan ddinasyddion, gan Anabledd Cymru a Chanolfan Gydweithredol Cymru. Bydd hyn yn cyflwyno ffordd newydd i oddeutu 4,000 o bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru reoli eu taliadau. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn berchen ar eu grŵp cydweithredu, ac yn ei redeg, gan lywio ei ddatblygiad a darparu cyfle i unigolion ddod ynghyd i gronni adnoddau a dylunio eu gwasanaethau eu hunain. Y grŵp cydweithredu fydd yn rheoli'r materion ariannol, ac felly'n lleihau unrhyw boen meddwl ymysg defnyddwyr unigol. Yn ddiau, pe bai'r prosiect hwn yn llwyddiannus, byddai'r datblygiad hefyd yn annog mwy i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol.

3.12 Crynodeb o enghreifftiau arfer orau:

- Y penderfyniad i godi safonau ymarfer a gwneud datblygu ymarfer yn orchymyn allweddol mewn sefydliadau.
- Newid diwylliannol sylweddol ymysg staff asesu a rheoli gofal ac o fewn y "system gyflawn" ehangach.
- Llwybrau gofal sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n cynorthwyo pobl ar yr amser iawn ac yn cynnig help mewn modd nad yw'n arwain at ddibyniaeth.
- Paneli cymhwyso mwy llym a rheoli perfformiad cryf.
- Integreiddio neu gydweithio'n dda â'r GIG; rhannu cyllidebau a gweithio'n amlddisgyblaethol.

- Gwthio’n barhaus i leihau mynediad i ofal preswyl.

- Defnyddio asesiadau’n seiliedig ar asedau a hyrwyddo adolygiadau annibyniaeth.

- Taliadau Uniongyrchol yn ennill eu plwyf fel agwedd sylfaenol yn ymarfer gwaith cymdeithasol.

Dadansoddiad ar berfformiad a sylwebaeth ar ddatblygiad Gwynedd

3.13 Mae gwariant net Gwynedd ar Asesu a Rheoli gofal ar gyfer y boblogaeth hŷn bellach yn sylweddol uwch na chyfartaledd ‘y teulu’, ond yn nes at y cyfartaledd cenedlaethol. Mae hwn yn duedd diweddar gyda’r gwahaniaeth yn dod i’r amlwg yn 2012/13 ond yn ehangu yn 2013/14. O ganlyniad, rydym yn gwario o leiaf £0.4m yn fwy na chanolrif y “teulu” (gallai’r gwahaniaeth fod cymaint â £1.0m, yn dibynnu ar sut y priodolir y costau rhwng y grŵp Pobl Hŷn a'r grŵp cleientiaid 18-64 gydag Anableddau Dysgu).

3.14 Os defnyddir nifer y cleientiaid gofal cymdeithasol sy’n 65 mlwydd oed a hŷn fel procsi ar gyfer yr angen i wario ar Asesu a Rheoli Gofal, gwariant Gwynedd fesul defnyddiwr gwasanaeth yw’r ail uchaf yn y “teulu”. I’r gwrthwyneb, mae nifer y defnyddwyr gwasanaeth (fesul poblogaeth ) wedi gostwng yn sylweddol ers 2010/11 – mae’r tuedd cenedlaethol a thuedd y “teulu” hefyd wedi bod yn mynd am i lawr, ond mae’r gostyngiad yng Ngwynedd wedi curo'r rhain ac rydym bellach wedi symud o fod mewn sefyllfa ‘uwch na’r cyfartaledd’ i sefyllfa lle’r ydym yn ‘is na’r cyfartaledd’.

3.15 Mae Gwynedd yn perfformio’n dda o ran y prif ddangosyddion perfformiad, sy’n ymwneud â therfynau amser asesu/dechrau gwasanaeth. Mae’r data diweddaraf ar dargedau lleol (2012/13) yn dangos perfformiad da gyda 99.4% o’r cynlluniau POVA yn eu lle'n briodol a 76.8% o adolygiadau achos wedi'u cyflawni'n briodol (o gymharu â tharged o 67%).

3.16 Mae llawer o'r hyfforddiant Diogelu'n cael ei ddarparu'n lleol (ar sail amlasiantaethol, gan gynnwys personél o'r sector annibynnol) gydag ychydig o’r hyfforddiant arbenigol yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau eraill. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Hyfforddiant Sylfaenol Ymwybyddiaeth Diogelu Cymru”, a ddaeth yn lle’r cwrs Ymwybyddiaeth POVA Lefel 2.
- Cynhelir cwrs ‘Sgiliau Ymchwilio wrth Ddiogelu Oedolion’ (wedi’i drefnu ar y cyd ag Ynys Môn) yn rheolaidd, gyda chynulleidfa gymysg o Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a’r Heddlu.
- “Cofnodi cyfarfodydd Diogelu Oedolion” i sicrhau bod staff gweinyddol yn meddu ar y lefelau sgiliau cywir.
- “Deddf Galluedd Meddyliol a Cholli Rhyddid” – sydd wedi arwain ar achredu 17 Aseswyr Budd Gorau o fewn y Cyngor.

3.17 Darganfuwyd gan Adolygiad Ffeiliau Achos Gwynedd, a oedd yn ceisio sefydlu pa mor dda oedd ymarferion gwaith yn helpu i wneud y mwyaf o reoli galw:

- Fod y meini prawf cymhwyster yn cael eu defnyddio mewn modd ymarferol a phriodol ac roedd y broses gyfeirio'n daclus ac yn ymatebol.
- Ar gyfer y rhan fwyaf o achosion, roedd yna lif addas ac amserol trwy gamau asesu, cynllunio gofal a darparu gwasanaeth (yn ôl yr angen).
- Roedd diffyg sylwedd i'r rhan fwyaf o'r asesiadau, ac nid oedd y gwaith amlddisgyblaethol rhwng asiantaethau wedi datblygu digon.
- Nad oedd deilliannau'n cael eu defnyddio mewn modd strwythuredig, a phrin iawn yr oeddynt yn cael eu cymharu yn erbyn deilliannau dymunol yr unigolyn.
- Nad oedd llesiant, y cysyniad o gyd-gynhyrchu a gofal hunangyfeiriedig wrth wraidd y ffordd yr oedd gwaith cymdeithasol yn gweithredu o fewn gwasanaethau pobl hŷn.
- Roedd peth gwaith ataliol yn digwydd, ond nid oedd tystiolaeth ddigonol o hynny bob tro (gweler y cyfeiriad at ddeilliannau).
- Roedd achosion fel arfer yn dangos ymateb a oedd yn gymesur ac yn briodol o ran yr adnoddau a ddefnyddiwyd i ymateb i anghenion unigolion, heb fod yn or-amddiffynnol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn cael eu cyfyngu gan feddylfryd traddodiadol a dibyniaeth ar wasanaethau traddodiadol.
- Roedd diffyg eglurder yn yr ymarfer o ran deilliannau rhaglenni Galluogi (a'r pwrpas hefyd yn sgil hynny), gan eu bod yn aml yn cael eu hadnabod mewn termau cyffredinol iawn.
- Nad oedd digon o amrywiaeth yn y gwasanaethau (na gallu o bosib) i ddiwallu anghenion, yn enwedig mewn sefyllfaoedd argyfyngus.
- Roedd unrhyw symudiad mewn gwasanaethau yn dilyn adolygu achosion yn tueddu i fod yn rhai ychwanegol a oedd yn gaeth i'r gwasanaeth.

3.18 Cynhaliwyd Adolygiad Llwybrau i geisio sefydlu'r ffactorau sy'n arwain at ddefnydd cynyddol Lleoliadau Cartrefi Nyrsio. Roedd y canfyddiadau'n cynnwys:

- Gall diffiniadau gweithwyr unigol o sefyllfaoedd achosion tebyg amrywio'n fawr
- Roedd 47% o'r derbyniadau i ofal nyrsio yn uniongyrchol o ysbyty aciwt - sy'n codi pryder gan na ddylai hyn ddigwydd wrth ddilyn arfer da
- Roedd 23% o'r derbyniadau i ofal cartrefi nyrsio yn uniongyrchol o ysbytai cymunedol
- Roedd 23% o'r derbyniadau i ofal cartrefi nyrsio yn uniongyrchol o ofal preswyl

- Wrth ddadansoddi'r derbyniadau o'r cyfeiriadau parhaol (h.y. wrth ystyried yr arhosiad mewn ysbyty fel cyfnod interim yn unig), canfuwyd bod 43% o'r derbyniadau o'r "cartref, gan dderbyn gofal ffurfiol" a 47% o ofal preswyl.
- Gall leoliadau tu allan i'r sir ystumio'r darlun oherwydd mewn gwirionedd, mewn nifer o'r achosion, roedd y lleoliad yn nes i gartref y defnyddiwr gwasanaeth.
- Gwelwyd gostyngiad bach yn y niferoedd yn gadael gofal nyrsio yn ystod 2013–2014; er na chanfuwyd unrhyw duedd, roedd hyn yn cyfrannu at y cynnydd cyffredinol mewn lleoliadau cartrefi nyrsio
- Trosglwyddwyd 10 achos yn llai i CIC yn 2013-2014 nac yn 2012-2013; er na ellir canfod patrwm eglur dros gyfnod o 5 mlynedd.

3.19 Mae nifer y bobl hŷn sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yng Ngwynedd wedi bod yn isel o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Polisi Taliadau Uniongyrchol newydd sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan. Bydd y broses newydd yn un diffwdan, syml a chynhwysol. Bydd gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth addas ar gael gan ganolbwyntio ar weithio gyda phobl i gyflawni eu deilliannau llesiant. Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo'r opsiwn hwn wrth asesu/adolygu – cam mawr wrth rymuso pobl.

3.20 Mae mentrau ICF sy'n ymwneud ag ymarfer yn cynnwys:

- Gwella Cyfathrebu rhwng gweithwyr Proffesiynol – mae hyn yn cynnwys adeiladu estyniad i gydleoli staff o ofal cymdeithasol a'r GIG yn Ysbyty Gwynedd i gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2016.

- Gweithio'n amlddisgyblaethol saith diwrnod yr wythnos - y nod yw i'r timoedd gofal canolraddol yn y gymuned a'r timoedd rhyddhau uwch (staff GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol) weithio saith diwrnod yr wythnos. Hyd yn hyn (oherwydd problemau recriwtio o fewn y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol), dim ond y cynllun ysbyty sydd wedi mynd yn ei flaen, ond mae hyn wedi profi'r angen am wasanaethau ar benwythnosau. Mae gwaith cynllunio eisoes wedi dechrau ar gyfer newid contractau cyflogaeth ffisiotherapyddion / therapyddion galwedigaethol yn y dyfodol ac ar gyfer staff nyrsio ychwanegol er mwyn cryfhau'r tîm sy'n gweithio ar benwythnosau.

<u>Bwriad Gwynedd yn Strategol ac o ran Comisiynu</u>

3.21 Yn y dyfodol, bwriadwn:

- Wneud asesiadau'n fwy cymesur â'r angen, gan leihau dyblygu ac ailasesu a chreu cyfle i leihau nifer y staff a sicrhau bod ein costau'n agosáu at ganolrif y teulu.

- Atal mynediad i ofal preswyl hirdymor yn uniongyrchol o ysbytai aciwt, oni bai am amgylchiadau eithriadol (2015/16).

- Dechrau trafodaethau gyda BIPBC ar leihau mynediad i gartrefi nyrsio yn uniongyrchol o ysbytai a chael eglurder ar rôl Ysbytai Cymunedol (2015/16).

- Lleihau nifer y lleoliadau preswyl 5% yn 2015/16, 10% yn 2016/17 a 20% yn 2017/18 (wedi'i gyfrifo ar sail 2014/15).

- Symud i fodel deilliannau llawn o asesu, rheoli gofal ac adolygu erbyn diwedd 2016/17, a'i gydlynu â chynllun Ffordd Gwynedd.

- Sefydlu Timoedd Galluogi amlddisgyblaethol yn 2015/16 a dechrau trafodaethau gyda BIPBC gyda'r bwriad o sefydlu Timoedd Anghenion Cymhleth amlddisgyblaethol erbyn 2017/18.

- Lansio rhaglen Datblygu Ymarfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr Adran (yn 2015/16) i gyflawni safonau "arferion gorau" o ran llesiant, cyd-gynhyrchu, gwasanaethau ataliol a rheoli galw erbyn diwedd 2017/18.

- Gweithredu'r Polisi Taliadau Uniongyrchol newydd gan gynnwys newidiadau i ddiwylliant gwaith cymdeithasol a gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth fel partneriaid. Sefydlu targed o 100 o ddefnyddwyr 2016/17.

- Gweithio gyda phartneriaid Rhanbarthol i wella a diweddaru ein gweithgareddau Diogelu erbyn 2016/17.

## 4 Cefnogaeth i Fyw Gartref

Arfer Orau

4.1 Mae 'llesgedd' yn nodwedd gyffredinol mewn pobl hŷn sydd angen gofal a chefnogaeth yn eu cartref, y rhai sy'n gaeth i'r tŷ a'r rhai sydd wedi'u derbyn i'r ysbyty (*British Geriatrics Society 2011*). Weithiau nid yw'n cael ei gydnabod nes fod y bobl yn cael eu cyflwyno i wasanaethau. Yn glinigol, nid yw pobl hŷn sy'n llesg yn medru gwneud gweithgareddau dydd i ddydd yn dda iawn, felly gall salwch gweddol ddibwys beri dirywiad difrifol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, wrth i bobl gyrraedd oedran hen iawn (85 mlwydd oed a hŷn), mae'n debygol iawn y bydd ganddynt lefelau uwch o lesgedd, dementia a chyflyrau cronig, ac yn aml, gyfuniad ohonynt.

4.2 Mae dementia yn fwy cyffredin mewn henaint ac yn aml bydd yn cymhlethu diagnosis sawl cyd-forbidau sy'n gysylltiedig â llesgedd. Dengys ymchwil sy'n gysylltiedig â gofal dementia ei bod yn bwysig mynd i'r afael â'r mythau a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd am y cyflwr a hyfforddi staff sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia. Dylai eiriolaeth annibynnol fod yn ofyn safonol mewn achosion ble nad yw'r unigolyn yn medru siarad drosto'i hun neu heb neb arall i wneud hynny. Ystyrir bod 'dull sy'n rhoi'r person yn ganolog' yn arfer dda o ran holl waith cymdeithasol gydag oedolion ac mae hyn yn wir mewn perthynas â'r rhai sy'n byw gyda dementia. Nodir gan yr Athro Bob Woods fod pedair elfen sy'n hanfodol ar gyfer yr arfer o roi'r person yn ganolog:

- Gwerthfawrogi pobl sy'n dioddef o ddementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt
- Trin pobl fel unigolion
- Edrych ar y byd o safbwynt y person sy'n dioddef o ddementia
- Amgylchedd cymdeithasol cadarnhaol ble y gall y person sy'n dioddef o ddementia brofi llesiant cymharol dda

4.3 Mae Eileen Spencer a Dr Joy Probyn (mewn gwaith ymchwil a gwblhawyd ganddynt ar gyfer Canolfan Gomisynu Gogledd Cymru ar ran NWSSIC (*Supporting People with Dementia and their Carers-Models of Positive Practice*)) yn rhoi manylion ystod o brosiectau yr ystyrir eu bod wedi cyfrannu tuag at ddatblygu arfer dda o ran gofal dementia. Ar hyn o bryd, mae un o bob pump o bobl (dros 80 mlwydd oed) yn dioddef o ddementia a rhagwelir dros y chwe mlynedd nesaf bydd y nifer sy'n byw gyda'r cyflwr yng Nghymru yn cynyddu bron i draean (Llywodraeth Cymru). Mae'r mythau ynglŷn â'r cyflwr (e.e. nad yw ond yn effeithio ar bobl hŷn ac na ellir gwneud dim i helpu'r rhai sy'n dioddef i fyw yn dda), yn peri i rai unigolion/teuluoedd 'guddio' beth sy'n digwydd cyn hired â phosib gyda'r perygl o ynysu'r dioddefwr o ganlyniad. Yn ogystal, mae wedi arwain at wahaniaethu wrth drin pobl sy'n dioddef o ddementia, gan gynnwys diffyg diagnosis a gwasanaethau priodol. Bydd y gwahaniaethu yn gwaethygu gan y ffaith na all y bobl sy'n byw gyda dementia siarad drostynt eu hunain, efallai

eu bod yn dioddef camdriniaeth a'u bod mewn perygl o fod heb "lais, dewis na rheolaeth" (Comisiynydd Pobl Hŷn).

4.4 Mae pobl hŷn a chanddynt anghenion cymhleth angen lefelau uwch o gefnogaeth a gofal gan ystod o ddarparwyr gwasanaeth (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae ymchwil cyhoeddedig a thystiolaeth storïol yn dangos fod gwasanaethau ar gyfer y bobl hŷn hynny sy'n llesg a chanddynt anghenion cymhleth yn ddarniog, a hynny oddi mewn ac ar draws ffiniau sefydliadol a sectorau. Mae canolbwyntio gwasanaethau yn y gymuned i ymateb i'r anghenion cymhleth hyn yn flaenoriaeth uchel i Gynghorau yng Nghymru a'r GIG.

- Yng Ngwent, defnyddir y cysyniad o lesgedd gyda gwasanaethau i dargedu'r boblogaeth "lesg".
- Yn Sir Benfro, mae'r rhai sydd â "chyflyrau cronig cymhleth" wedi cael eu hadnabod a'u targedu, a dyluniwyd darpariaeth y gwasanaeth o amgylch y clwstwr hwn o'r boblogaeth.
- Ym Mhowys ac mewn llefydd eraill yng Nghymru, gwelir y model "ward rhithwir" sy'n defnyddio model rhagweld risg i adnabod cleifion lle mae risg y byddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty, a chânt eu rheoli'n rhagweithiol trwy dimau amlddisgyblaethol yn y gymuned.
- Yng Ngheredigion, ceir enghraifft o wasanaeth sy'n cael ei ddatblygu ar sail cyflyrau byrdymor a hirdymor. Mae'r un yn wir ym Mhen-y-bont ar Ogwr lle mae dwy ffrwd o wasanaeth ar gael i bobl hŷn.

4.5 Mae arfer dda yn dangos y dylai gwasanaethau, gan gynnwys gofal dydd, gael eu teilwra i fod yn addas ar gyfer cryfderau, diddordebau a dyheadau'r unigolyn yn ogystal â'i anghenion. Mae hyn yn newid sylweddol i'r arfer gyfredol. Gellir datblygu model sy'n seiliedig ar ddefnyddio Brocer Gofal Dydd neu Asiant y Pentref (neu gyffelyb). Defnyddiwyd y model yn llwyddiannus yn Nhorfaen rai blynyddoedd yn ôl - ymwelodd swyddogion ac aelodau o Wynedd â'r prosiect ac adrodd yn gadarnhaol ar eu canfyddiadau. Yma, trefnir Gofal Dydd ar ôl trafodaeth gyda'r defnyddiwr gwasanaeth ac mae'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau sydd ar gael yng nghymuned yr unigolyn. Yn ymarferol, gall hyn gynnwys gwneud defnydd o glybiau a chymdeithasau, canolfannau hamdden a phyllau nofio, eglwysi a chapeli lleol ac ati. Yn ogystal, cytunodd caffis, bwytai a thafarndai lleol y byddent yn darparu prydau bwyd (am ddisgownt) ar gyfer pobl hŷn amser cinio. Golygai hyn fod y Ganolfan Gofal Dydd a oedd wedi'i hadeiladu rai blynyddoedd yn ôl wedi peidio â bod yn ddarpariaeth gofal dydd traddodiadol ond roedd yn parhau i weithredu fel 'canolfan adnoddau' leol.

4.6 Mae anymataliaeth yn ffactor bwysig sy'n effeithio ar allu a hyder unigolyn i allu ymdopi gartref ond nid yw anymataliaeth yn rhan anorfod o fynd yn hŷn – gall diagnosis clir ac ymyrraeth feddygol briodol wneud gwahaniaeth mawr yn yr un modd â:

- Chymorth ymarferol – rheiliau yn y toiled, seddi toiledau, cymhorthion cerdded neu lifft grisiau i gyrraedd y toiled mewn pryd.
- Dyfeisiadau hawdd eu defnyddio – comôd neu wrinal llaw (dynion a merched) a ellir eu defnyddio yn y gwely neu wrth eistedd.
- Cyngor ar ddillad priodol (llai o haenau o ddillad, sanau yn hytrach na theits, gwasg gyda lastig a defnyddio felcro yn hytrach na sipiau a botymau.
- Cerdyn Toiled '*Just Can't Wait'* gan y *Bladder and Bowel Foundation* - er mwyn osgoi gorfod bod mewn ciw i rai sydd angen defnyddio'r toiled yn sydyn.

4.7 Dangosodd prosiectau'r GIG yn **Swydd Lincoln a Newcastle** sut y gall asesiadau cynnar a chlir fynd i'r afael ag anymataliaeth y gellir ei osgoi a sut y gellir lleihau derbyniadau i ysbyty oherwydd heintiad i'r llwybr wrinol (rhai ohonynt yn gysylltiedig â chathetr).

4.8 Yn 2005, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ganllawiau er mwyn cynorthwyo ardaloedd i ddatblygu strategaethau Teleofal ac ar ôl hynny yn 2006-2009 cafwyd arian cyfalaf a refeniw i'w gweithredu. Mae Grŵp Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru (NWSSIC) yn arwain ar geisio sicrhau dull gweithredu rhanbarthol ym maes Technoleg Gynorthwyol ac wrth wneud hynny, maent wedi datblygu gwasanaeth Galw Gofal rhanbarthol dan fwrdd partneriaeth rhanbarthol.

4.9 Gall Teleofal fod yn wasanaeth larwm sylfaenol gydag ymateb 24/7 neu gall gynnwys synwyryddion a sbardunwyr megis dyfeisiadau sy'n canfod symudiad neu gwymp a larymau tân a nwy sy'n sbarduno rhybudd mewn canolfan ymateb a gaiff ei staffio 24 awr y dydd, 356 diwrnod y flwyddyn. Yn ogystal, gall gynnwys dyfeisiadau lleoli y gellir eu defnyddio i alluogi unigolyn fod yn ddiogel y tu allan i'w gartref. Gall Teleofal weithredu fel teclyn ataliol hefyd drwy gynorthwyo i ganfod dirywiad yn iechyd neu les yr unigolyn. 4.10 Yn dilyn lansiad proffil uchel a ariannwyd yn dda yng Nghymru, mae Teliechyd wedi datblygu'n gyflym ac wedi cynyddu ei amrediad o gyfleoedd ble gellir defnyddio technolegau – fodd bynnag mae datblygiad Teleofal wedi bod yn arafach. Cafodd llawer o bapurau ymchwil a phapurau arfarnu eu cyhoeddi ar Teleiechyd tra bod ymchwil diweddar o ran effeithiolrwydd Teleofal yn llawer mwy prin. Mae'r Alban yn wlad sydd ar y blaen gyda theleiechyd a theleofal gyda'r pwyslais ar gydlynu'r GIG, gofal cymdeithasol, tai, y sector annibynnol a'r Gwasanaeth Ambiwlans Gwelwyd lleihad yn nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty ar frys drwy ddefnyddio'r dulliau hyn.

4.11 Mae'r ymchwil cyfyngedig a wnaed i ba mor gost-effeithiol yw teleofal yn dangos canlyniadau cymysg. Roedd proses treialu ar hap *Whole Systems Demonstrator (British Geriatrices Society 2014*) yn archwilio pa mor gost effeithiol oedd 'ail genhedlaeth' y ddarpariaeth teleofal fel rhywbeth a oedd yn ychwanegol igefnogaeth a gofal sylfaenol a allai gynnwys ffurfiau 'cenedlaeth gyntaf' teleofal. Daeth i gasgliad (trwy

ddefnyddio teclyn maint ac ansawdd bywyd) nad oedd teleofal 'ail genhedlaeth' yn ymddangos yn gost effeithiol fel ychwanegiad i ofal arferol.

4.12 Dechreuwyd ar ymchwil pellach yn 2014, "*Does Telecare prolong community living in dementia*", i chwilio am dystiolaeth gadarn ei fod yn gost-effeithiol neu ei fod o fudd; dylai'r canlyniadau fod ar gael yn 2016. Mae dau wahanol ddull gweithredu yn ymwneud â'r defnydd o Teleofal yn dod i'r amlwg. Gwelir un fel rhan o gynnig cyffredinol ataliol (h.y. symud pobl oddi wrth wasanaethau gofal ffurfiol). Mae'r dull arall yn canolbwyntio arno fel rhan o becyn gofal i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf. Mae'r lleihad yng nghostau'r cyntaf yn anodd i'w darganfod ond honnir bod yr olaf yn llwyddiannus wrth gyflawni arbedion sylweddol (mewn rhai Awdurdodau Lleol), yn enwedig pan y'i defnyddir yn lle gwasanaethau traddodiadol.

4.13 Dengys yr arfer orau y gall teleofal gynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth ac mae dadl dros ei gael mewn pecynnau cyffredinol (pecyn sylfaenol) a phecyn wedi'i dargedu (mynd i'r afael ag anghenion unigol).

4.14 Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd (ar draws y DU) er mwyn i Deleofal gyflawni'r perfformiad gorau posib yn cynnwys:

- Partneriaeth gyda sefydliad masnachol
- Hyfforddiant a newid diwylliant ymhlith gweithwyr rheng flaen
- Gwella'r broses o ddefnyddio/cynnal a chadw offer
- Amnewid staff nos sy'n aros mewn sefydliadau AD
- Annog nifer mwy i gyllido eu hunain.

4.15 Darganfu ymchwil a gomisiynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y gellid fod wedi atal rhyw 2,916 o godymau bob blwyddyn yng ngogledd Cymru gan wneud arbediad a amcangyfrifwyd o fwy na £4 miliwn. Mae cysylltiad amlwg rhwng codymau a derbyniadau i'r ysbyty, cartref gofal neu gartref nyrsio. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg p'un a yw derbyniadau i gartrefi gofal a chartrefi nyrsio yn digwydd am fod pobl hŷn yn dewis hynny am eu bod wedi colli hyder yn eu gallu i ymdopi gartref, diffyg ymyraethau priodol ac amserol yn y gymuned neu bwysau yn cael ei roi arnynt gan staff meddygol a staff gwaith cymdeithasol ac aelodau'r teulu er mwyn sicrhau eu 'diogelwch'. Dengys ymchwil lleol (i dderbyniadau mewn cartrefi nyrsio) bod y mwyafrif wedi mynd yno yn syth o'r ysbyty.

4.16 Darganfuwyd mewn ymchwil ar draws cynghorau yn Lloegr (John Bolton), bod Awdurdodau Lleol wedi gor-ddefnyddio ymyraethau galluogi (gweddol ddrud) – gan gynnig y gwasanaeth i rai ddefnyddwyr

nad oeddynt ei angen neu ei ddarparu am amser rhy faith. Roedd llawer o hyn o ganlyniad i ddefnyddio model derbyn (a gafodd ei hyrwyddo yn y lle cyntaf fel yr arfer orau) a darparu gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Golygai hyn nad oedd fawr neb yn cael eu targedu a gellir gweld y gwasanaeth gan ddefnyddwyr a phobl broffesiynol eraill (staff meddygol yn bennaf) fel gwasanaeth gofal cartref am ddim ar gael am gyfnod o chwech wythnos o leiaf.

4.17 Daeth ymwybyddiaeth o gost uned pob cyfnod o alluogi yn ffactor bwysig, gan ddefnyddio'r wybodaeth honno i benderfynu p'un a yw'n gost effeithiol ai peidio. Yn ddiweddar, mae gwasanaethau o'r fath wedi gallu canolbwyntio llawer mwy drwy fodelu gwell, eithrio'r rhai sy'n gwella neu'r rhai sy'n mynd allan o'r system ofal/iechyd heb fod angen y fath wasanaeth, bod yn fwy dethol o ran y bobl sy'n dod i mewn a bod yn fwy manwl ynghylch y deilliannau. Y waelodlin yw nad yw cyfradd o 60% o'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau galluogi angen unrhyw ofal ffurfiol wedyn.

4.18 Yn Torbay, canfuwyd (yn gyffredin â rhaglenni galluogi mewn llefydd eraill), bod y cyfeiriadau yn aml i gleientiaid a oedd yn gofyn am becyn gofal newydd neu becyn gofal ychwanegol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Yn aml, roedd y rhain yn bobl oedd wedi derbyn llawdriniaeth ar ôl torri gwddf neu dorri asgwrn y forddwyd neu gael clun newydd. Dangosodd archwiliad dilynol o'r defnyddwyr gwasanaeth hyn, o'u cymharu â grŵp meincnod, bod 'lleihad' neu 'ddim gofal pellach' yn digwydd er gwaethaf ymyrraeth galluogi – hynny yw, byddai'r bobl wedi gwella beth bynnag. O ganlyniad, cymerwyd penderfyniad yn Torbay i stopio cyfeiriadau awtomatig a sicrhau bod galluogi yn cael ei dargedu. Mae mewnbwn ffisiotherapydd yn y broses asesu yn rhoi'r darlun gorau posib ynglŷn â photensial pob unigolyn i wella (Rhaglen Effeithlonrwydd Gofal Cymdeithasol Oedolion LGA). Nodweddion allweddol eraill o arferion da o ran galluogi yw:

- Dylai fod yn seiliedig ar ddeilliannau – dylai gweithwyr a defnyddwyr fod yn glir ynglŷn â'r deilliannau a ragwelir a dylai'r deilliannau hynny fod yn fesuradwy.
- Gall dull integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol osgoi dyblygu a dod ag ystod o wasanaeth gyda mwy o ardrawiad at ei gilydd.
- Gellir darogan y galw yn y dyfodol am ofal hirdymor a gellir rhoi cefnogaeth ar sail cyfeiriad gwasanaethau sy'n seiliedig ar alluogi.

4.19 Mae rhai Cynghorau, fel Coventry, wedi lleihau eu costau drwy gontractio eu gwasanaeth galluogi. Mae eraill wedi allanoli'r gwasanaeth yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Er enghraifft, yng Nghilgwri, mae tîm bychan mewnol yn darparu canllawiau i ddarparwyr allanol er mwyn sicrhau deilliannau o ansawdd a deilliannau cadarnhaol. Yn Wiltshire, nid oes unrhyw wasanaeth galluogi penodol gan fod yr holl ofal cartref wedi'i gomisiynu yn y fath fodd fel ei fod yn cyflawni deilliannau sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac yn disodli'r swyddogaeth fewnol oedd yn bodoli cynt. O ganlyniad, mae Wiltshire yn galluogi

60% o bobl hŷn sy'n cael eu cyfeirio i wasanaethau adfer eu hannibyniaeth (ddim angen gwasanaeth pellach) o fewn chwech wythnos iddynt dderbyn gofal cartref.

Dadansoddiad ar berfformiad a sylwebaeth ar ddatblygiad Gwynedd

4.20 Ers 2011/12, mae nifer ein defnyddwyr gofal cartref (o gymharu â'r boblogaeth) wedi lleihau ychydig. O ganlyniad, mae nifer defnyddwyr gofal cartref Gwynedd yn y boblogaeth ychydig yn uwch ond yn agos at ganolrif y 'teulu' a'r canolrif cenedlaethol. Yng Ngwynedd mae'r gwariant net ar ofal cartref i bob person hŷn yn y boblogaeth yn adlewyrchu hyn - mae ychydig yn uwch na chanolrif y 'teulu' (Gwynedd yw'r trydydd uchaf yn y categori hwn), ac mae'n gwario £0.5m yn fwy na chanolrif y 'teulu'.

4.21 I'r gwrthwyneb, mae gwariant Gwynedd ar gyfer pob defnyddiwr gofal cartref yn arwyddocaol llai na chyfartaledd y 'teulu' a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r duedd hon wedi dod yn arwyddocaol ers 2011/12 gan fod cyfartaledd gwariant 'y teulu' a gwariant cenedlaethol i bob defnyddiwr gofal cartref wedi cynyddu o gymharu â'n gwariant sefydlog i bob defnyddiwr. Awgryma hyn efallai ein bod yn darparu pecynnau llai i nifer mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth o'i gymharu â'r patrwm cyffredinol o fewn y 'teulu' a Chymru yn gyffredinol.

4.22 Ar ddiwedd 2014/15, roedd oddeutu 860 o bobl hŷn yn derbyn gwasanaeth gofal cartref ac roedd y mwyafrif ohonynt dros 85 mlwydd oed. Yng Ngwynedd, darperir oddeutu 10,000 awr o wasanaeth gofal cartref yr wythnos, gydag oddeutu 42% yn cael ei ddarparu gan y gwasanaeth mewnol a 58% yn cael ei ddarparu gan y sector annibynnol (er bod y gymhareb hon yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd daearyddol).

4.23 Yn ystod y flwyddyn bydd oddeutu 500 o bobl yn rhan o raglen alluogi; ymateb dwys a byr sy'n hyrwyddo sgiliau byw'n annibynnol ac sy'n osgoi creu dibyniaeth. Bu'n gweithredu'n llwyddiannus yng Ngwynedd ers 2010 gydag oddeutu 58% o ddefnyddwyr yn osgoi gorfod cael gwasanaethau eraill am o leiaf blwyddyn. Yn unol â tgystiolaeth genedlaethol ynglŷn â bod yn gost-effeithiol, mae dull gweithredu sy'n targedu'r rhai sy'n cael cynnig y gwasanaeth yn dod i'r amlwg.

4.24 Mae gwariant Gwynedd i bob defnyddiwr gwasanaeth ar Offer ac Addasiadau yn sylweddol yn uwch na chyfartaledd 'y teulu' a'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ei dro, golyga hyn fod y gwariant net ar Offer ac Addasiadau (i'r boblogaeth hŷn) yn uwch na chyfartaledd 'y teulu' a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer y defnyddwyr gwasanaeth (i'r boblogaeth) yng Ngwynedd yn agos at gyfartaledd 'y teulu'. Ni lwyddwyd i gyrraedd y targedau lleol yn llawn i gynyddu'r defnydd o teleofal.

4.25 Comisiynir Gwasanaethau Gofal Dydd mewn pedair haen o ofal, gyda thair o'r rhain wedi'u dylunio i fodloni anghenion gofal a deilliannau'r boblogaeth hŷn gan gynnwys gofal ysbaid i'w gofalwyr.

| | |
|---|---|
| Lefel 4 | Anghenion lefel uchel neu ymddygiad heriol |
| Lefel 3 | Anghenion Cymdeithasu a Gofal Personol – datblygu sgiliau a chynnal annibyniaeth |
| Lefel 2 | Ddim yn berthnasol i bobl hŷn |
| Lefel 1 | Cefnogaeth i gymryd rhan mewn cyfleoedd cymdeithasu |

4.26 Ar hyn o bryd, mae'r Trydydd Sector yn darparu cyfleoedd cymdeithasi i bobl 50+ mlwydd oed drwy'r Canolfannau Heneiddio'n Dda a Chlybiau Cinio. Darperir y ddarpariaeth Gofal Dydd traddodiadol sy'n ymgorffori cyfleoedd cymdeithasu a gofal personol neu oruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Darparu mewnol. Datblygwyd darpariaeth Gofal Dydd arbenigol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mae'n darparu gofal dydd arbenigol i bobl sy'n byw gyda Dementia neu Alzheimers.

4.27 Mae Canolfannau Heneiddio'n Dda (Cymru) ar agor i bawb dros 50 blwydd oed ac nid oes angen asesu anghenion mynychwr unigol; eu cylch gorchwyl yw cynorthwyo pobl hŷn i gynnal iechyd a llesiant da a gwella ymateb yn hytrach na darparu 'gofal' am amser penodol. Nid yw'r canolfannau hyn yn darparu gofal personol (e.e. ymolchi) ond mae'n cael ei ystyried fel datblygiad ar gyfer y dyfodol.

4.28 Mae'r mathau eraill o Ofal Dydd yng Ngwynedd yn rhai traddodiadol ac fe'u darperir yn dilyn asesiad angen. Lleolir y cyntaf o fewn sefydliadau preswyl (cartrefi gofal preifat a mewnol). Mae'r gofal fel arfer (ond nid bob tro) yn cynnwys rhoi sylw i ofal personol gan gynnwys ymolchi ac mae'n cynnwys ymuno â phreswylwyr i gael prydau bwyd.

4.29 Mae'r Gofal Dydd a leolir mewn 'canolfannau' yn seiliedig ar grwpiau gyda digwyddiadau wedi'u trefnu i ddarparu adloniant i'r mwyafrif ac mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'n seiliedig ar grefftau. Darperir prydau bwyd. Bydd mynediad yn seiliedig ar asesiad angen. Agorwyd un cyfleuster gofal cartref arbenigol newydd ym Mangor ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n dioddef o ddementia.

4.30 Tra bod model Gofal Dydd traddodiadol yn gwasanaethu angen o ran bod prydau bwyd yn cael eu darparu a bod y defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cymdeithasu. Nod pellach yw darparu cyfnodau o ysbaid i ofalwyr. Er mwyn datblygu'r model hwn, byddai'n rhaid i weithwyr cymdeithasol/broceriaid fod yn ymwybodol o adnoddau lleol a byddai'n rhaid cael trafodaethau er mwyn cael cydweithrediad lleol. Gellir cyflawni hyn ar gost isel.

4.31 Darperir Gwasanaeth Cynghori ar Anymataliaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r Gwasanaeth hwn ar gael i bob oedolyn dros 18 oed ac mae'n cynnwys tîm o nyrsys cofrestredig sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar reoli anymataliaeth. Mae'r

gwasanaeth ar gael ar draws gogledd Cymru a gall cleifion gael eu cyfeirio gan Feddygon Teulu a phobl broffesiynol eraill ym maes iechyd neu gallant gyfeirio eu hunain. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynghori, asesu, trin a rheoli problemau'r bledren a'r coluddion gyda'r bwriad o gael iachâd neu wella'r symptomau.

4.32 Bu i Grŵp Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru (drwy ddefnyddio arian Cydweithio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru) lansio prosiect dementia gogledd Cymru '*Inspiring Action'* gyda'r bwriad o wella gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o ddementia a'u gofalwyr. Fel rhan o hwn, bydd Datganiad Rhanbarthol ar Sefyllfa'r Farchnad Ddementia yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a pha fylchau sy'n bodoli mewn gofal cymdeithasol, gofal sylfaenol a gwasanaethau cefnogol cymunedol (gan gynnwys gwasanaethau i ofalwyr).

4.33 Lansiwyd gwasanaeth COCH Dementia (wedi'i gomisiynu gan Gymdeithas Alzheimers Gogledd Cymru) yn gynharach yn y flwyddyn. Recriwtiwyd a hyfforddwyd Rheolwr Cefnogol a dau Swyddog Gwybodaeth COCH Dementia ynghyd â dros 20 o Wirfoddolwyr COCH Dementia. Mae'r Rhaglen Addysg a Chefnogaeth Dementia Ranbarthol (mewn partneriaeth â thîm Seicoleg Glinigol BIPBC) yn bwriadu gwella lefelau sgiliau a byddant yn cynnal cynllun peilot er mwyn darparu'r rhaglen yn ystod misoedd yr haf eleni.

4.34 Yn 2014/15, roedd gwariant Cefnogi Pobl ar bobl hŷn yng Ngwynedd yn £416,609, ac mae hyn yn llai y pen nac awdurdodau cyffiniol. Mae hwn yn cynnwys 319 uned o ddarpariaeth warden/larwm a 279 uned o wasanaethau larwm a ddarperir gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Cynllunnir newidiadau er mwyn cydymffurfio â'r argymhellion a geir yn Arolwg Aylward sy'n datgan ei bod yn ofynnol "*bod y meini prawf cymhwyso i bobl hŷn .... yn seiliedig ar angen yn hytrach nac ar oed neu ddaliadaeth."*

4.35 Mae mentrau ICF sy'n berthnasol i Gefnogaeth yn y Cartref yn cynnwys:

- Addasiadau i'r Stoc Tai - erbyn hyn mae pump uned llety dros dro ychwanegol wedi'u haddasu ar gael (o fewn y stoc tai cymdeithasol) ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth gydag anabledd. Mae'r eiddo hyn wedi'u dosbarthu ar sail ddaearyddol, yn seiliedig ar ardaloedd lle bu galw yn y gorffennol, dosbarthiad y boblogaeth a chyfleusterau eraill. Rhoir ystyriaeth i wasanaethau cefnogol cysylltiedig gydag adnoddau wedi'u dyrannu i gefnogi'r lleoliadau a chefnogi'r broses adfer – er y gall argaeledd llety sy'n hawdd ei gyrraedd wneud cyfraniad gwerthfawr, ond ni wnaiff hynny ar ben ei hun ddatrys heriau gofal cymdeithasol neu heriau iechyd.

- Gofal a Thrwsio Gwynedd – addasiadau lefel ganolradd (rhwng £1,000 a £5,000) i berchnogion preswyl a'r rhai mewn tai rhent

preifat/tai cymdeithasol. Wedi'i dargedu at bobl hŷn ar 'restrau aros', sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ond bydd amgylchiadau unigol yn pennu'r ymyrraeth er mwyn hwyluso rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty neu'r rhai sy'n dymuno byw adref a byw mor annibynnol ac mor ddiogel â phosib. Hyd yma, mae 31 achos wedi'i gwblhau ac mae cyfanswm gwerth y gwaith yn £113,482 (cost cyfartalog y gwaith yw £3,660).

- Cefnogaeth i Ofalwyr – adolygu'r strwythurau a'r gwasanaethau presennol ac adnabod arfer dda mewn ardaloedd eraill y gellid eu mabwysiadu yng Ngwynedd. Rydym erbyn hyn yn y broses o greu cynllun gweithredu ar gyfer Partneriaethau Gofalwyr Gwynedd i'w weithredu yn 2015/16. Crëwyd taflen wybodaeth yn nodi gwasanaethau ysbaid y sector annibynnol ac mae prosiect allgymorth ar gyfer gofalwyr gwrywaidd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Nwyfor a Meirionnydd yn:

  - Annog cyd-gynhyrchu
  - Gweithio ar draws ffiniau mewn partneriaeth â'r trydydd sector
  - Grymuso gofalwyr i gynnal eu hiechyd eu hunain i'r safon gorau
  - Helpu i rwystro sefyllfaoedd rhag torri i lawr, os oes modd ei osgoi, a derbyniadau i ysbyty

4.36 Cyfleusterau Camu i Fyny/Camu i Lawr – mae'r prosiect hwn yn cynyddu capasiti gofal ysbaid, galluogi a gofal canolradd mewn 25 gwely mewn cartrefi preswyl presennol gan hwyluso rhyddhau o ysbytai a lleihau'r amser y mae pobl yn aros mewn gofal eilaidd. Hyfforddir staff ar egwyddorion gofal canolradd/galluogi ac mae offer teleofal ar gael i'r preswylwyr ymgyfarwyddo â'r dechnoleg at pan gânt eu rhyddhau i fynd adref. O fis Medi 2014 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2015, mae'r unedau wedi cefnogi cyfanswm o 116 o bobl. O'r rhain cafodd 27 eu rhyddhau o'r ysbyty i'r uned a chafodd 89 eu hanfon i'r uned o'u cartrefi. Amcangyfrifir bod hyn wedi arbed cyfanswm o 2009 o ddyddiau/gwelyau ysbyty sy'n gyfystyr â chost o £719,997.

4.37 Mae gan y Cyngor Raglen Byw'n Annibynnol fel rhan o'i fenter llywodraethu a newid er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol.

<u>Bwriad Gwynedd yn Strategol ac o ran Comisiynu</u>

4.38 Yn y dyfodol, bwriadwn:

- Fabwysiadu dull gweithredu wedi'i strwythuro'n dda o ran Gofal Dydd sy'n wasanaeth ar sail anghenion y cleient – datblygir strategaeth newydd.

- Targedu ein gweithgareddau galluogi ymarferol i'r rhai sy'n cael y mwyaf o fudd ohonynt, defnyddio canfyddiadau cynllun

Vanguard/Ffordd Gwynedd i benderfynu ar raddfa'r gweithredu yn y dyfodol.

- Symud y farchnad mewn Gofal Cartref gyda'r Cyngor yn mynd yn ddarparwr gwasanaeth llai amlwg ac mewn rhai ardaloedd daearyddol bydd hyn yn galluogi eraill i ehangu eu busnes neu ddechrau busnes newydd.

- Defnyddio ein Rhaglen 'Byw'n Annibynnol' er mwyn mireinio ein dull gweithredu o ran:

    - Gwasanaethau Anymataliaeth
    - Teleofal
    - Gwasanaethau ymateb cyflym ac mewn argyfwng
    - Gwasanaethau cefnogol gofal/ gofal cartref
    - Cymhorthion ac addasiadau ar gael yn amserol
    - Cefnogaeth ar ôl gadael yr ysbyty
    - Cefnogaeth arbenigol yn eu cartrefi i bobl sy'n dioddef o ddementia a'u teuluoedd.

## 4 Llety

Arferion gorau

5.1 Mae consensws cyffredinol na ddylai pobl hŷn symud i ofal hirdymor yn uniongyrchol o ysbyty aciwt, pan fo'r unigolion ar eu mwyaf bregus.

Mae llawer o Gynghorau bellach yn gweithredu polisi lle na ellir derbyn rhywun i ofal preswyl parhaol yn syth o wely ysbyty. Dim ond pan fo'r holl opsiynau eraill wedi cael eu harchwilio a chanfod nad ydynt yn addas, y dylid ystyried gofal preswyl. Mae'r Cynghorau hynny sy'n llwyddo i wneud y gostyngiad mwyaf yn y nifer sy'n cael eu derbyn i ofal preswyl yn sôn am bwysigrwydd newid diwylliant yn y gweithle (Rhaglen Effeithiolrwydd Gofal Cymdeithasol i Oedolion y Gymdeithas Awdurdodau Lleol).

5.2 Gwnaeth yr IPC (*Institute of Public Care 2003*) ymchwiliad i garfan o bobl a dderbyniwyd i gartrefi preswyl, gan geisio amcangyfrif faint ohonynt allai fod wedi manteisio ar lety Gofal Ychwanegol fel dewis arall. Mewn dros dri chwarter yr achosion hynny, gwnaed penderfyniad i fynd i gartref gofal yn dilyn digwyddiad arwyddocaol megis codwm a/neu gyfnod yn yr ysbyty. Gan nad oedd gofal 24 awr yn y gymuned ar gael, ystyriwyd mai gofal preswyl oedd yr opsiwn â lleiaf o risg ym marn y perthnasau a'r timau proffesiynol, a chydsyniodd y cleientiaid â'r penderfyniad er mwyn osgoi bod yn faich.

5.3 Amcangyfrifwyd y gallai dau draean o'r garfan fod wedi cael budd gweithredol o ddarpariaeth Gofal Ychwanegol, naill ai ar y pryd neu ar adeg symudiad cynharach.

5.4 Mae De Tyneside wedi ceisio lleihau nifer y bobl hŷn sy'n cael eu derbyn i ofal preswyl trwy ddefnyddio cyfuniad o newid diwylliant a rheolaethau llym, gan gyflawni lleihad o 30% rhwng 2011/12 a 2013/14, drwy:

- Hyfforddiant yn ymwneud ag ymarfer asesu gwaith cymdeithasol gan ddatblygu dealltwriaeth rhwng ymarferwyr ynghylch beth sy'n "dda" wrth helpu pobl i gyflawni eu deilliannau personol.

- Cynnwys y comisiynwyr yn yr holl hyfforddiant i sicrhau bod dealltwriaeth o fath/amrediad/capasiti'r gwasanaethau yn y gymuned a'r llety sydd ar gael, ynghyd â'u haddasrwydd.

- Symudiad diwylliannol, o fodel gofal tadol i un a oedd yn canolbwyntio ar ddymuniadau pobl hŷn, gan hyrwyddo adferiad ac annibyniaeth.

- Comisiynu ar y cyd gyda'r GIG i ddatblygu gwelyau camu i lawr neu gamu i fyny.

- Cynyddu'r help i ofalwyr.

- Buddsoddi mewn tai arbenigol i bobl hŷn

- Gwneud mwy o ddefnydd o deleofal a theleiechyd

5.5 Mae’r dogfennau a’r ymchwil a gyhoeddwyd yn dangos fod y rhyng-berthynas rhwng tai ac amgylchfyd yr unigolyn yn ffactor critigol i ansawdd bywyd yr unigolyn. Casgliad yr ymchwil yw bod angen modd o addasu tai pan fydd pobl yn heneiddio a'u hanghenion yn newid.

5.6 Mae “Cartrefi Gwell i Bobl Cymru” yn nodi bod angen ar bobl hŷn am dai y gellir eu haddasu, a mynediad da at adnoddau. Mae “Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru” yn amlinellu’r gwahanol ddulliau o gyflawni'r her:

- Darparu mwy o dai o’r math cywir
- Gwella tai a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni mewn tai newydd a thai presennol
- Gwella’r gwasanaethau cefnogol sy’n gysylltiedig â thai

5.7 Mae ein ymgynghoriad (a’r ymgynghoriad gan Iechyd Cyhoeddus) yng Ngwynedd ar lety yn dangos fod pobl hŷn eisiau:

- Cartrefi sy’n hawdd i ofalu amdanynt
- ac sy’n ddiogel
- Mynediad i gludiant a chyfleusterau
- Cymdogaeth dda
- Cartrefi sy’n ddeniadol ac yn addas i’w pwrpas
- Aros yn eu cartref eu hunain yn hytrach na gorfod symud i ofal preswyl

5.8 Mae hyn yn arwain at y galw am dai sy’n addas i oedran (yn cynnwys llety gwarchod a thai gofal ychwanegol) a’r capasiti cywir

<u>Dadansoddiad ar berfformiad a sylwebaeth ar ddatblygiad Gwynedd</u>

5.9 Mae gwariant net Gwynedd ar ofal preswyl ymysg y boblogaeth pobl hŷn yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol, sy’n gyfystyr â gwariant o £0.9m yn fwy na chyfartaledd y ‘teulu’.

5.10 Mae’n anodd dadansoddi i ba raddau yn union y mae’r gwariant uchel hwn ar ofal preswyl o ganlyniad i'r gwariant uchel fesul y defnyddiwr gofal preswyl, neu nifer uchel y defnyddwyr preswyl yn y boblogaeth hŷn. Mae hyn yn sgil yr anghysonderau ymddangosiadol yn y broses o gofnodi cleientiaid sy’n talu drostynt eu hunain ar draws yr awdurdodau (sy’n cael effaith benodol ar safle gymharol Gwynedd gan fod gennym gyfran uchel o gleientiaid mewn cartrefi sy’n cael eu rhedeg gan yr ALI, ac felly rydym yn fwy “ymwybodol” o’r cleientiaid sy’n talu eu hunain).

5.11 Mae’r ffigurau swyddogol a adroddir yn awgrymu fod y gwariant fesul cleient yng Ngwynedd yn is na’r cyfartaledd, a bod cyfradd y defnyddwyr gofal preswyl yn y boblogaeth yn sylweddol uwch na’r cyfartaledd.

5.12 Fodd bynnag, wrth addasu'r ffigurau ar gyfer amcangyfrif nifer yr unigolion sy'n talu drostynt eu hunain ar gyfer pob awdurdod lleol, mae'r sefyllfa yn newid yn sylweddol. Wedyn, amcangyfrifir mai gwariant Gwynedd fesul cleient yw'r uchaf yn y "teulu", a bod cyfradd y defnyddwyr gwasanaeth yn y boblogaeth yn agos at y canolrif ar gyfer y "teulu".

5.13 Gan ein bod yn dibynnu ar amcangyfrifon a ddarparwyd drwy gysylltu ag awdurdodau eraill yn hytrach na ffigurau swyddogol, mae'n anodd bod yn fanwl-gywir, ond mae'n eglur mai'r prif reswm dros wariant uchel Gwynedd ar ofal preswyl yw bod y gost fesul cleient yn gymharol uchel.

5.14 Mae gwariant net Gwynedd ar ofal mewn cartrefi nyrsio hefyd £0.9m yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer y 'teulu' (Gwynedd sy'n gwario fwyaf yn y categori hwn). Gan fod gwariant Gwynedd fesul defnyddiwr gofal nyrsio yn agos iawn at gyfartaledd y 'teulu' a'r cyfartaledd cenedlaethol, mae'n glir fod y gwariant gwahaniaethol yn deillio o nifer sylweddol uwch y defnyddwyr gofal mewn cartrefi nyrsio (yn y boblogaeth hŷn) o gymharu â chyfartaledd y 'teulu' a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r gwahaniaeth wedi digwydd ers 2010/11 gan fod dangosydd Gwynedd wedi cynyddu, sy'n groes i'r tuedd am i lawr a gafwyd yng nghyfartaledd y 'teulu' a'r cyfartaledd cenedlaethol.

5.15 Cynhaliwyd Adolygiad Llwybrau i geisio sefydlu'r ffactorau a arweiniodd at y defnydd cynyddol o Leoliadau Cartrefi Nyrsio. Ymysg y canfyddiadau oedd:

- Gostyngiad bach yn y niferoedd yn gadael gofal cartrefi nyrsio yn ystod 2013 – 2014; er na chanfuwyd unrhyw duedd roedd hyn yn cyfrannu at y cynnydd cyffredinol mewn lleoliadau cartrefi nyrsio
- Trosglwyddwyd 10 achos yn llai i'r CIC yn 2013-2014 nag yn 2012-2013; er na ellir canfod patrwm eglur dros gyfnod o 5 mlynedd
- Roedd 47% o'r derbyniadau i ofal nyrsio yn uniongyrchol o ysbyty aciwt – sy'n codi pryder gan na ddylai hyn ddigwydd wrth ddilyn arfer dda
- Roedd 23% o'r derbyniadau i ofal cartrefi nyrsio yn uniongyrchol o ysbytai cymunedol
- Roedd 23% o'r derbyniadau i ofal cartrefi nyrsio yn uniongyrchol o ofal preswyl
- Fodd bynnag, wrth ddadansoddi'r derbyniadau o'r cyfeiriadau parhaol (h.y. wrth ystyried yr arhosiad mewn ysbyty fel cyfnod interim yn unig), canfuwyd bod 43% o'r derbyniadau o'r "cartref, gan dderbyn gofal ffurfiol" a 47% o ofal preswyl

5.16 Rhai o ganfyddiadau'r Adolygiad Llwybrau i geisio sefydlu'r ffactorau a arweiniodd at ddefnydd cynyddol o Ofal Preswyl oedd:

- Dros gyfnod 6 mis, bu 50 o geisiadau am ofal preswyl hirdymor, wedi'u dosbarthu'n gyfartal ledled y Sir

- Roedd tua 80% yn fenywod. Cyfartaledd oedran y garfan oedd 85 (cyfartaledd menywod yn 87, a dynion yn 79). Canfuwyd bod 38% yn dioddef problemau Dementia / Alzheimers / Cof.

- Treuliodd 44% o'r rhain gyfnod yn yr ysbyty cyn symud i ofal preswyl. Derbyniwyd 32% o'r rhain i'r ysbyty ar fwy nag un achlysur yn dilyn codwm yn y cartref. Roedd ambell enghraifft o unigolion a aseswyd yn yr ysbyty, lle penderfynwyd bod angen lleoliad preswyl hirdymor arnynt.

- Nid oedd yn bosib i 10% symud i Gartref Preswyl o'u dewis, gyda 6% o'r rhain yn ardal Meirionnydd. Arweiniodd hyn at ddarparu gofal all-sirol i'r 6% hynny.

5.17 Yng Ngwynedd, ar ddiwedd 2014/15, roedd:

- 72 o aneddiadau gofal ychwanegol pwrpasol (gyda 40 ychwanegol wedi'u comisiynu ar gyfer 2017)
- 539 o welyau preswyl, 248 yn cael eu darparu gan y Cyngor
- 95 o welyau EMI preswyl, 37 yn cael eu darparu gan y Cyngor
- 356 o welyau nyrsio
- 118 o welyau nyrsio EMI

5.18 Mae'r Gofrestr Tai Hygyrch, a ariennir gan ICF, yn nodi'r eiddo wedi'u haddasu sydd ar gael, ynghyd â rhestr o bobl y mae angen addasiadau arnynt, ac yn ceisio cyfateb eiddo addas i ofynion yr unigolion. Yn ogystal, mae'r cynllun Canllaw, 'Symud Ymlaen', yn hwyluso'r broses o symud pobl hŷn i dai addas. Mae'r cynllun peilot wedi canolbwyntio ar adleoli pobl i gyfleuster gofal ychwanegol ym Mangor, ond mae hefyd wedi negodi disgownt gyda Gwerthwyr Tai a chyfreithwyr trawsgludo ac wedi gwirio cwmnïau gwagio a chlirio tai.

5.19 Mae ein gwaith ar strategaeth llety wedi nodi ardaloedd daearyddol allweddol i'w blaenoriaethu ar gyfer datblygu ac ehangu'r opsiynau llety. Yr ardaloedd yw:

- Dyffryn Ardudwy a Llanbedr

- Tywyn ac Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel

- Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog a Llanbedr ac Abersoch

- Gorllewin Porthmadog

5.20 Mae Grŵp Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru (NWSSIC) wedi cynhyrchu manyleb yn seiliedig ar ganlyniadau er mwyn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw gyda

dementia mewn lleoliadau preswyl / gofal nyrsio. Mae'n canolbwyntio ar gyflawni deilliannau positif i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n byw gyda dementia a'u Gofalwyr / Darparwyr, fydd yn cyfoethogi ansawdd bywydau a hyrwyddo lles y preswylwyr.

5.21 Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda'r cynlluniau ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog, a daw'r prosiect yn weithredol yn ystod haf 2017.

Bwriad Gwynedd yn Strategol ac o ran Comisiynu

5.22 Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu:

- Symud pwyslais y farchnad Gofal Preswyl, gan gynyddu cyfran darpariaeth y sector annibynnol a lleihau cyfraniad Gwasanaethau Mewnol y Cyngor.

- Lleihau cyfanswm nifer y gwelyau Preswyl o 10% erbyn diwedd 2016/17 a chyflawni lleihad o 20% erbyn diwedd 2017/18 (wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio gwaelodlin 2014/15).

- Cadarnhau (gyda'n partneriaid yn BIPBC) rôl Ysbytai Cymunedol yn y dyfodol, a chynyddu'r ddarpariaeth ofal nyrsio gyffredinol a gofal nyrsio EMI yn unol â hynny.

- Cynyddu nifer yr aneddiadau Gofal Ychwanegol i 160 erbyn 2020.

- Gyda'n partneriaid, chwilio am welliannau yn addasrwydd y llety ar draws y farchnad tai preifat a chymdeithasol, gan sicrhau y gwneir defnydd llawn ac addas o dai gwarchod.

- Datblygu cynlluniau penodol ar gyfer ardaloedd daearyddol allweddol (fel nodir yn yr adroddiad), i roi blaenoriaeth i ehangu'r opsiynau llety.

- Sicrhau bod dinasyddion yn fwy ymwybodol o'r dewisiadau llety sydd ar gael, drwy wella ansawdd y wybodaeth iddynt.

## 5 Integreiddio gyda Gwasanaethau'r GIG

Arfer Orau

6.1 "Gall gofal integredig gyflawni deilliannau positif, er nad yw bob amser yn eglur pa gyfuniad o strategaethau, a pha amgylchiadau, sy'n arwain at y canlyniadau gorau" (Kings Fund, 2012).

6.2 Pan fo Cynghorau yn manteisio'n llwyddiannus ar gyfleoedd i integreiddio gyda'r GIG, mae'n seiliedig ar rannu amcanion allweddol ar gyfer y dyfodol, megis yr angen i gadw annibyniaeth pobl hŷn a lleihau'r derbyniadau hirdymor i ofal sefydliadol. Mae tystiolaeth fod integreiddio o'r math hwn yn fuddiol i'r defnyddwyr gwasanaeth, gyda'r gwasanaeth cydlynol yn cynnig profiad mwy positif. Dangoswyd hefyd mai integreiddio yw'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau'n well yn y dyfodol, gan alluogi asiantaethau i ddatrys eu gofynion ariannu hirdymor. Mae'n anodd canfod tystiolaeth bendant o hyn, ac ar sail profiad, mae awgrym fod y GIG mewn gwell sefyllfa i fanteisio'n ariannol na'r Cynghorau. Mae'n bosib fod angen arian ymlaen llaw er mwyn cyflawni integreiddio effeithiol, cyn i'r gwasanaethau wireddu arbedion gwirioneddol.

6.3 Mae tystiolaeth o Loegr wedi amlygu rhai modelau integreiddio llwyddiannus, megis y cynlluniau gofal canolraddol/ail-alluogi yn Swindon, Torbay a Richmond, a'r "Gateway to Care" yn Calderdale. Un o'r camau integreiddio mwyaf poblogaidd yw gweithio mewn timau aml-ddisgyblaethol.

6.4 Gellir defnyddio enghraifft Northumberland hefyd, lle mae trefniant ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod ar waith ers y 1990au. Yn fwy diweddar, cyflawnwyd arbedion o £5m y flwyddyn ym maes gofal i oedolion o ganlyniad uniongyrchol i'r model integredig. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy gyfrwng timau aml-ddisgyblaethol a lwyddodd i gynnal y galw am ofal cartref ar gyfradd gyson, tra'n lleihau'r niferoedd mewn gofal preswyl o 12%.

6.5 O safbwynt y GIG, mae'r gwaith gan Gyd-ffederasiwn y GIG yn dangos fod integreiddio, pan fo'n llwyddiannus, yn lleihau gwasanaethau darniog ac yn osgoi dyblygu prosesau. Os yw'r fframwaith ariannol yn gadarn, gall integreiddio fynd i'r afael â'r elfennau gwrth-anogaeth sydd yn y system, a chyfrannu at leihau'r pwysau cyllidebol. Mae integreiddio yn cynnig profiad mwy llyfn, a gwell deilliannau o ran iechyd a gofal yn nes at adref.

6.6 O safbwynt Gofal Cymdeithasol / All (ADASS), un o'r ffactorau allweddol i sicrhau llwyddiant yw arweiniad, gydag arweinwyr gwleidyddol yn annog trafodaeth ar bob lefel am ddyfodol y gwasanaethau iechyd a gofal, gan ganolbwyntio ar gael y deilliannau

gorau gyda chyllid cyfyngedig. Law yn llaw rhaid i arweinwyr y system symud o bersbectif trefniadol yn unig a gwneud penderfyniadau ar sail sicrhau gwelliannau yn iechyd a lles y boblogaeth leol. Mae'n bwysig nad yw'r drafodaeth am wleidyddiaeth a pholisi yn cael ei gyrru gan argyfwng nac yn cael ei gweld yn ormodol drwy lygaid y GIG.

6.7 Bydd atebolrwydd ar y cyd yn cael ei wella drwy gyfrwng fframwaith symlach a mwy unedig ar gyfer deilliannau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ariannol, bydd mecanweithiau talu cyfochrog sy'n cefnogi integreiddio, ac yn annog gofal sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, hefyd yn fodd o ddatblygu integreiddio. Mae cronfeydd trawsnewid yn hanfodol er mwyn symud i fodelau newydd o ofal, ac i alluogi cynllunio ariannol hirdymor.

6.8 Mae "Gofal Canolraddol" yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio amrediad o wasanaethau sy'n ymddangos eu bod yn syrthio rhwng y GIG a Gofal Cymdeithasol traddodiadol, ac mae'n deitl ar raglen bwysig gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o drawsnewid gwasanaethau (ICF). Fodd bynnag, mewn adolygiad o Ofal Canolraddol gan Kings Fund, (*Intermediate Care - Models in Practice, B. Vaughan and J. Lathlean*), mae'r awduron yn nodi bod diffyg eglurder a chonsensws ynglŷn â natur y gwasanaethau hyn. Eu diffiniad gwreiddiol o Ofal Canolraddol oedd:

*Amrediad o wasanaethau wedi'u cynllunio i hwyluso'r symud o ysbyty i'r cartref, o fod yn ddibynnol yn feddygol i fod yn weithredol annibynnol, lle nad yw'r prif amcanion gofal yn rhai meddygol, lle gellir rhagweld lleoliad rhyddhau'r claf, a lle y dymunir deilliant clinigol o wellhad (neu adfer iechyd).*

6.9 Fodd bynnag, wrth i'r adolygiad ddatblygu, cafodd y diffiniad ei ehangu i gynnwys:

*Gwasanaethau fydd yn cynorthwyo i osgoi derbyniadau i leoliadau gofal aciwt drwy gyfrwng ymyraethau therapiwtig, gyda'r amcan o osgoi argyfwng ffisiolegol, neu gynnig gwasanaethau adferol yng nghartref y person, neu'n agos.*

6.10 Yn aml mae dwy brif elfen i ofal canolraddol; ymyrraeth ymateb brys (i sefydlogi, ateb yr angen uniongyrchol a rhwystro dirywiad) ac ymyrraeth alluogi (i gynorthwyo gyda'r adferiad).

6.11 Fodd bynnag, y defnyddwyr, nid strwythurau a theitlau, ddylai fod yn fan cychwyn ar y drafodaeth ar Integreiddio, gan mai'r bobl eu hunain sydd â'r brif fudd mewn canfod yr atebion cywir. Yn ôl y dystiolaeth, gyda'r gefnogaeth gywir, pobl eu hunain yw'r gorau am integreiddio gofal. (Forder et al 2012). Roedd Rhaglen Beilot Cyllideb Iechyd Bersonol (Prifysgol Kent) yn dangos fod ansawdd bywydau unigolion a'u gofalwyr yn gwella'n sylweddol wrth ddatblygu gwasanaethau mwy hyblyg, ac hefyd yn lleihau'r derbyniadau i ysbytai.

6.12 Enghreifftiau o arferion da:

- Gwasanaeth ymateb cyflym/argyfwng ar ôl rhyddhau o'r ysbyty neu ddigwyddiad argyfwng - gan gynnwys nyrsys, therapi a gofal personol, yn cael eu rhedeg o fewn tîm amlddisgyblaethol yn unol ag egwyddorion galluogi.

- Dull sy'n seiliedig ar strategaeth risg – wedi'i weithredu gan Feddygon Teulu i adnabod cleifion bregus a'u cyfeirio at dîm aml-ddisgyblaethol er mwyn rhwystro unrhyw gynnydd yn eu hanghenion, ac i'w cefnogi i aros yn eu cymunedau.

- Arbenigedd cyflyrau hirdymor wedi'i integreiddio - gan ganolbwyntio ar bobl â chanddynt anghenion cymhleth.

- Comisiynu ar y Cyd – symud adnoddau tuag at wasanaethau wedi'u lleoli yn y gymuned.

- Timau Aml-ddisgyblaethol a chyllidebau wedi'u rhannu.

<u>Dadansoddiad ar berfformiad a sylwebaeth ar ddatblygiad Gwynedd</u>

6.13 Derbyniodd Gyngor Gwynedd £1.9m gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) yn 2014/15.

6.14 Amcanion y rhaglen:

- Symud y rhaglen newid ymlaen mewn modd integredig.
- Cefnogi a hyrwyddo trawsnewid trwy ddatblygu a phrofi modelau gwasanaeth newydd fydd yn gynaliadwy i'r dyfodol ac yn cynnig gwell canlyniadau i bobl hŷn.
- Gwerthuso ac adolygu'r system waith gyfredol.
- Ymchwilio i arferion da a dysgu ohonynt.
- Cynnal trosolwg o'r llwybrau ar gyfer pobl hŷn a'u gwerthuso.
- Newid diwylliant.
- Cyflawni'r canlyniadau gorau i bobl hŷn, gan sicrhau bod system gywir mewn lle i gefnogi ac i wasanaethu, drwy alluogi pobl i aros yn ddiogel yn eu cartrefi neu gymunedau gyn hired â phosib.

  Ceir enghreifftiau o fentrau ICF ym mhenodau'r Adroddiad hwn.

6.15 Mae gan y rhaglen bedair thema:

- Gwella Integreiddio a chael gwared ar y rhwystrau rhag gweithio'n integredig ar draws Awdurdodau Lleol, y Sector Iechyd, y Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol

- Cryfhau ethos Galluogi a gwella amrediad y gwasanaethau yn y gymuned.
- Darparu gwasanaethau mwy ymatebol.
- Osgoi derbyniadau i'r ysbyty/gwasanaethau gofal diangen.

6.16 Fel rhan o Gynllun Strategol y Cyngor, rydym am geisio ailgynllunio ein dulliau gweithio cyfredol i integreiddio gyda gwasanaethau'r GIG. Mae'r Fforwm Sirol wedi'i sefydlu fel elfen hanfodol o'r gwaith integreiddio yng Ngwynedd, sy'n cynnwys y trydydd sector yn ogystal â'r asiantaethau statudol. Sefydlwyd y grŵp ar lefel uchel, gyda'r gallu i ddileu'r rhwystrauo i weithio integredig ym maes pobl hŷn, i osgoi derbyniadau diangen i ysbytai ynghyd â hyrwyddo diwylliant a rhwydwaith o gefnogaeth gymunedol.

<u>Bwriad Gwynedd yn Strategol ac o ran Comisiynu</u>

6.17 Yn y dyfodol, bwriadwn:

- Gomisiynu gwasanaethau ar y cyd er mwyn cyflawni'r canlyniadau iechyd a lles gorau.
- Sefydlu Timau Galluogi Aml-ddisgyblaethol (i gynnwys staff y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol).
- Datblygu cydweithio agos rhwng timau eraill, a sefydlu rhagor o wasanaethau integredig, gyda phwyslais ar ddatblygu llwybrau gofal llyfn i bobl hŷn.
- Sicrhau gwell dealltwriaeth o faterion ariannol ymysg partneriaid ym maes pobl hŷn, a sicrhau bod y gweithlu a'r system reoli yn addas at y dyfodol.
- Sicrhau bod y systemau swyddfa gefn yn cysylltu'n hawdd gyda'i gilydd (gan gynnwys system wybodaeth a rennir gan Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol).
- Gweithredu'r Fframwaith i Ddarparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig (i bobl hŷn ag anghenion cymhleth).
- Sicrhau bod y mentrau ICF allweddol yn parhau, gyda dyraniad o £744,000 i'w cefnogi yn ystod 2015/16.

## 7. <u>Casgliadau</u>

7.1 Mae ymgymryd â'r dasg o adolygu'r system gyfan wedi bod yn dasg enfawr. Mae natur y system gyfan yn ddeinamig ac yn golygu bod adolygiad dim ond yn dal sefyllfa ar un pwynt mewn amser - mae'r gwaith o reoli'r system i gyd angen bod yn rhan greiddiol o fusnes yr Adran a'r Cyngor. Beth sydd yn glir o'n gwaith ar:

- Llesiant a Rheoli Galw Cychwynnol
- Datblygu ymarfer
- Cefnogaeth i fyw gartref
- Llety
- Integreiddio

yw y gallwn ail-lunio'r system i gyd er mwyn cynnig gwell annibyniaeth, lleihau ynysu cymdeithasol, cynyddu urddas ac ansawdd gwasanaethau a darparu gwell cefnogaeth i ofalwyr.

Atodiad 1 – Pecyn Perfformiad a Data Cymharol

## Maes gwasanaeth: GOFAL PRESWYL AC YSBAID

### Y Gwasanaeth

Cynnal lleoliadau preswyl yng nghartrefi preswyl y Cyngor, cartrefi annibynnol cofrestredig gydag o leiaf 4 gwely, a chartrefi deuol-gofrestredig. Y cartrefi yn cael eu staffio 24 awr y dydd. Yn cynnwys gofal ysbaid yn y cartrefi yma.

**Sefyllfa 2013/14:**


£ Gwariant gros: **£15.332m** Gwariant net: **£8.878m**

Nifer staff: **293.2 FTE**

Nifer cleientiaid: **463** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **1.7%**

### Perfformiad cymharol 2013/14

Mesuryddion Lleol (Haen 1)




Mesuryddion Cenedlaethol

| Mesurydd | Perthnasol i | Safle yn y teulu o 9 |
|---|---|---|
| Cyfradd pobl hŷn mewn cartrefi gofal, fesul 1000 poblogaeth pobl hŷn | Oedran 65+ | **9fed** (h.y. cyfradd uchaf) *(21ain drwy Gymru)* |


Gwybodaeth gymharol arall

| | |
|---|---|
| Nosweithiau gofal ysbaid yng nghartrefi Llywodraeth Lleol | Ar ganolrif y teulu |
| Nosweithiau gofal ysbaid yng nghartrefi annibynnol ar gytundeb | **9fed** yn y teulu |

### Lefel staffio cymharol 2013/14


| | |
|---|---|
| Fesul poblogaeth | **1af** (uchaf) yn y teulu *(+ yr uchaf drwy Gymru)* |
| Fesul cleient | Ar ganolrif y teulu |

### Gwariant cymharol





**Safle Gwynedd 2013/14:**

- **2il** uchaf yn y teulu
- **£0.935m uwch** na'r canolrif




- Gwynedd **6ed** uchaf yn y teulu




- Gwynedd **2il** uchaf yn y teulu

### Gwybodaeth arall berthnasol

- Gwynedd yr uchaf yn y teulu (a'r uchaf drwy Gymru) o ran y cyfran o gleientiaid preswyl sydd mewn cartref awdurdod lleol (yn hytrach na cartref sector breifat / annibynnol).
- Nid yw data cleientiaid pob awdurdod yn cynnwys cleientiaid hunan-gyllidol - ac mae mwy o'r rhain yn 'wybyddus' i ni p'run bynnag oherwydd darpariaeth fewnol. O addasu ar gyfer hyn amcangyfrifir y byddai'n gwariant fesul cleient yr uchaf yn y teulu a'r nifer cleientiaid fesul poblogaeth ar y canolrif.

### PRIF GANFYDDIADAU

- ❖ **Lefel uchel o ddarpariaeth fewnol (a felly lefel staff uchel)**
- ❖ **Gwario £0.9m uwch na'r 'teulu' ar sail poblogaeth**
- ❖ **Anodd defnyddio'r data nifer cleientiaid (fel ag y mae) oherwydd anghysondebau wrth gofnodi 'hunan-gyllidwyr'. Ond ymddengys mai ein gwariant fesul cleient sy'n uchel, ac nid y nifer sydd mewn gofal preswyl.**

# Maes gwasanaeth: GOFAL CARTREF

## Y Gwasanaeth

Gwasanaethau yng nghartref y cleient:
- Gofalwyr cartref, ac eraill sy'n darparu cefnogaeth 'non-therapeutic'
- Gofal personol mewn tai gwarchodol; cynlluniau cymorthydd gofal
- Goruchwylio a gweinyddu'r gwasanaethau yma
- *(yn y data nifer cleientau)* Ail-alluogi a gofal canolraddol os yn digwydd yng nghartref y cleient ei hun

**Sefyllfa 2013/14:**


£ Gwariant gros: **£8.710m** Gwariant net: **£6.674m**

Nifer staff: **279.8 FTE** *(yn cynnwys gofal cartref Oedolion Iau hefyd)*

Nifer cleientiaid: **957** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **3.6%**

## Perfformiad cymharol 2013/14

Mesuryddion Lleol (Haen1)





Mesuryddion Cenedlaethol

| Mesurydd | Perthnasol i | Safle yn y teulu o 9 |
|---|---|---|
| Cyfradd pobl hŷn gefnogir i fyw adref fesul 1000 poblogaeth | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal dydd, cyfarpar ac addasiadau, prydau | 9fed *(22ain drwy Gymru)* |
| Cyfradd cleientiaid oed 65+ a gefnogir yn y gymuned | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal dydd, cyfarpar ac addasiadau, prydau | 9fed *(22ain drwy Gymru)* |

## Lefel staffio cymharol 2013/14


| | |
|---|---|
| Fesul poblogaeth | **1af** (uchaf) yn y teulu *(+ yr uchaf drwy Gymru)* |
| Fesul cleient | **1af** (uchaf) yn y teulu *(+ yr uchaf drwy Gymru)* |
| Fesul awr o ddarpariaeth gofal | **1af** (uchaf) yn y teulu *(+ yr uchaf drwy Gymru)* |

## Gwariant cymharol





**Safle Gwynedd 2013/14:**

- **3ydd** uchaf yn y teulu
- **£0.541m uwch** na'r canolrif




- Gwynedd **6ed** uchaf yn y teulu




- Nifer cleientiaid Gwynedd **yn gyson uwch**
- **3ydd** uchaf yn y teulu

## Gwybodaeth arall berthnasol

Gwynedd yr 2il uchaf yn y teulu (a'r 4ydd uchaf drwy Gymru) o ran y cyfran o oriau Gofal Cartref ddarparwyd gan y Cyngor ei hun (yn hytrach na gan y sector breifat / annibynnol). *(holl Ofal Cartref 18+ oed)*

## PRIF GANFYDDIADAU

- ❖ **Gwario £0.5m uwch na'r 'teulu' ar sail poblogaeth**
- ❖ **Hyn yn deillio o nifer gymharol uchel o gleientiaid (yn hytrach na chost uchel fesul un)**
- ❖ **Lefel uchel o ddarpariaeth fewnol. O ganlyniad, lefel staffio cymharol uchel**

## Maes gwasanaeth: GOFAL NYRSIO

### Y Gwasanaeth

- Darparu lleoliadau yng nghartrefi nyrsio gofrestrwyd gan y GIG
- Darparu gwelyau gofal nyrsio mewn cartrefi deuol-gofrestredig

**Sefyllfa 2013/14:**

Gwariant gros: **£5.491m** Gwariant net: **£3.563m**

Cyngor yn comisiynu cartrefi nyrsio annibynnol


Nifer cleientiaid: **193** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **0.72%**

### Perfformiad cymharol 2013/14

Gwybodaeth gymharol arall


| | |
|---|---|
| Nosweithiau gofal ysbaid dan gofal nyrsio | **8ed** yn y teulu |

### Gwariant cymharol





**Safle Gwynedd 2013/14:**

- **Uchaf** yn y teulu
- **£0.904m uwch** na'r canolrif




- Gwynedd **ar ganolrif** y teulu




- **Uchaf** yn y teulu

### Gwybodaeth arall berthnasol

### PRIF GANFYDDIADAU

- **Gwario £0.9m yn uwch na'r 'teulu' ar sail poblogaeth**
- **Hyn yn deillio o nifer gymharol uchel o gleientiaid: yr uchaf yn y teulu**
- **Y patrwm cyffredinol yn y teulu a drwy Gymru yw bod niferoedd y defnyddwyr yn disgyn. Ond ni fu hyn yn wir yng Ngwynedd.**

## Maes gwasanaeth: ASESU A RHEOLI GOFAL

### Y Gwasanaeth

Comisiynu gwasanaethau i bobl hŷn:
- Derbyn cyfeiriadau, diffinio cymhwysedd ac asesu anghenion
- Trefnu pecynnau gofal a'u hadolygu

**Sefyllfa 2013/14:**


Gwariant gros: **£2.718m** Gwariant net: **£2.560m**

Nifer gweithwyr cymdeithasol: **84.6 FTE**

Cyfanswm cleientiaid 65+ Gwas Cym : **1,840** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **6.9%**

### Perfformiad cymharol 2013/14

Mesuryddion Cenedlaethol





- Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion (18+ oed) a gwblhawyd lle cafodd y risg ei reoli - **6ed** yn y teulu
- Canran y gofalwyr sy'n gofalu am oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain – **9fed** yn y teulu

### Lefel staffio cymharol (gweithwyr cymdeithasol) 2013/14


| | |
|---|---|
| Fesul poblogaeth | **3ydd** yn y teulu |
| Fesul cleient | **1af** (uchaf) yn y teulu<br>*(+ uchaf drwy Gymru)* |

### Gwariant cymharol





**Safle Gwynedd 2013/14:**

- **3ydd** uchaf yn y teulu
- **£0.402m uwch** na'r canolrif




- Gwynedd **2il uchaf** yn y teulu




- Gwynedd **8fed** yn y teulu

*Defnyddir cyfanswm cleientiaid fel procsi bras o'r "galw" am asesu a rheoli gofal. Dim data dibynadwy am nifer cyfeiriadau / adolygiadau ar gael fesul cleientiaid 65+ oed, i allu gwneud gwell cymhariaeth*

### Gwybodaeth arall berthnasol

Mae'r gwasanaeth yng Ngwynedd yn cael ei redeg fel tîm ar y cyd ar gyfer Pobl Hŷn ac Anabledd Corfforol 18-64 oed, ac mae cwestiwn a yw dyraniad y costau rhwng y ddau yn gywir. O gyfuno'r ddau grŵp cleient a chymharu'r cyfanswm costau gyda phoblogaeth dros 18, byddai Gwynedd yr 2il uchaf yn y teulu; £0.980m uwchlaw'r canolrif.

### PRIF GANFYDDIADAU

- **Yn gwario rhwng £0.4m a £1.0m uwch na'r 'teulu' ar sail poblogaeth, a lefel staffio cymharol uchel**
- **Anodd dod i gasgliad am wariant fesul 'galw' am y gwasanaeth oherwydd diffyg data**
- **Perfformio'n dda ar y cyfan ar sail y prif fesuryddion**

## Maes gwasanaeth: LLETY - CEFNOGOL AC ARALL

### Y Gwasanaeth

Darparu llety gyda chefnogaeth:
- Lleoliadau oedolion
- Cartrefi heb staff/ wedi eu staffio'n rhannol
- Llety gwarchodol

**Sefyllfa 2013/14:**

Gwariant gros: **£0.976m** Gwariant net: **£0.962m**

Nifer staff: Ddim yn cael ei adnabod ar wahân mewn data swyddogol

Nifer cleientiaid: **21** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **0.08%**

### Perfformiad cymharol 2013/14


Mesuryddion Lleol (Haen 1)

| Mesurydd | Perthnasol i | Targed 13-14 | Perfformiad 13-14 |
|---|---|---|---|
| Nifer o unedau Tai Gofal Ychwanegol ar gael yng Ngwynedd | Oedran 18+ | **30** | **30** |

Mesuryddion Cenedlaethol


| Mesurydd | Perthnasol i | Safle yn y teulu o 9 |
|---|---|---|
| Cyfradd pobl hŷn gefnogir i fyw adref fesul 1000 poblogaeth | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal dydd, cyfarpar ac addasiadau, prydau | **9fed** *(22ain drwy Gymru)* |
| Cyfradd cleientiaid oed 65+ a gefnogir yn y gymuned | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal dydd, cyfarpar ac addasiadau, prydau | **9fed** *(22ain drwy Gymru)* |

### Gwariant cymharol





**Safle Gwynedd 2013/14**:

- **Uchaf** yn y teulu
- **£0.948m uwch** na'r canolrif




- Gwynedd **uchaf** yn y teulu




- Gwynedd **4ydd** yn y teulu

### PRIF GANFYDDIADAU

- **Gwynedd yr uchaf yn y teulu o ran gwariant fesul poblogaeth; £0.9m uwch na'r 'teulu'**
- **Gwariant fesul cleient yr uchaf yn y teulu**
- **Hyn yn awgrymu un ai gwahaniaeth sylfaenol yn narpariaeth gwasanaeth Gwynedd yn y maes yma (lleoliadau Anabledd Dysgu yn bennaf), neu wahaniaethau cyfrifo.**

## Maes gwasanaeth: GOFAL DYDD

### Y Gwasanaeth

Gweithgareddau rheolaidd yn cynnwys cludiant a phrydau mewn lleoliad ar wahân i gartref y cleient:

- Cefnogaeth bersonol, gymdeithasol a therapiwtig
- Hyfforddiant
- Gweithgareddau hamdden


**Sefyllfa 2013/14:**

£ Gwariant gros: **£1.000m** Gwariant net: **£0.906m**

Nifer staff: **8.2 FTE**


Nifer cleientiaid: **150** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **0.56%**

### Gwariant cymharol





**Safle Gwynedd 2013/14:**

- **Ar ganolrif** y teulu




- Gwynedd **2il** uchaf yn y teulu




- Gwynedd **8fed** yn y teulu

### Perfformiad cymharol 2013/14

Mesuryddion Cenedlaethol

| Mesurydd | Perthnasol i | Safle yn y teulu o 9 |
|---|---|---|
| Cyfradd pobl hŷn gefnogir i fyw adref fesul 1000 poblogaeth | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal cartref, cyfarpar ac addasiadau, prydau | **9fed** *(22ain drwy Gymru)* |
| Cyfradd cleientiaid oed 65+ a gefnogir yn y gymuned | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal cartref, cyfarpar ac addasiadau, prydau | **9fed** *(22ain drwy Gymru)* |

### Lefel staffio cymharol 2013/14

| | |
|---|---|
| Fesul poblogaeth | **7ed** yn y teulu |
| Fesul cleient | **4ydd** yn y teulu |

### PRIF GANFYDDIADAU

- **Gwario ar ganolrif y 'teulu' ar sail poblogaeth**
- **Hyn yn deillio o nifer gymharol isel o gleientiaid (a'r nifer yn gostwng)**
- **Cost fesul defnyddiwr i'w weld yn gymharol uchel**
- **Felly: pecynnau mwy ond i lai o gleientiaid?**

## Maes gwasanaeth: OFFER AC ADDASIADAU

### Y Gwasanaeth

Darparu cyfraniadau tuag at gostau offer ag addasiadau:
- Addasiadau i gartrefi
- Offer anabledd
- Teleffonau, offer larwm ag offer cyfathrebu arall

**Sefyllfa 2013/14:**

£ Gwariant gros: **£0.620m** Gwariant net: **£0.498m**

Nifer staff: *Ffigyrau ddim yn cael eu hadrodd fel rhan o'r data swyddogol*


Nifer cleientiaid: **515** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **1.93%**

### Perfformiad cymharol 2013/14

Mesuryddion Lleol (Haen 1)


| Mesurydd | Perthnasol i | Targed 13-14 | Perfformiad 13-14 |
|---|---|---|---|
| Nifer o becynnau teleofal arbenigol a ddarperir o'r newydd | Oedolion 18+ | **100** | **80** |
| Nifer o becynnau teleofal sylfaenol a ddarperir o'r newydd | Oedolion 18+ | **700** | **406** |

### Gwariant cymharol





**Safle Gwynedd 2013/14:**

- **Uchaf** yn y teulu
- **£0.248m uwch** na'r canolrif




- Gwynedd **2il uchaf** yn y teulu




- Gwynedd **7fed** yn y teulu

### Gwybodaeth arall berthnasol

Offer ac addasiadau yn rhan o gynlluniau sydd wedi cyflawni arbedion sylweddol; cynllun Galluogi £568k ers 2012/13

### PRIF GANFYDDIADAU

- **Gwariant fesul cleient Gwynedd yr 2il uchaf yn y teulu**
- **Hyn yn achosi gwariant o £0.2m uwch na'r teulu ar sail poblogaeth**
- **Nifer cleientiaid gymharol isel; 7fed yn y teulu**
- **Targedau lleol Haen 1 heb eu cyrraedd**

## Maes gwasanaeth: TALIADAU UNIONGYRCHOL

### Y Gwasanaeth

Gweinyddu a dosbarthu taliadau uniongyrchol i bobl hŷn ar gyfer prynu gwasanaethau gofal.

**Sefyllfa 2013/14:**

£ Gwariant gros: **£0.314 m** Gwariant net: **£0.291m**

Nifer staff: *Ffigyrau ddim yn cael eu hadrodd fel rhan o'r data swyddogol*


Nifer cleientiaid: **16** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **0.06%**

### Perfformiad cymharol 2013/14

Mesuryddion Cenedlaethol


| Mesurydd | Perthnasol i | Safle yn y teulu o 9 |
|---|---|---|
| Cyfradd a gefnogir yn y gymuned fesul 1000 poblogaeth | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal cartref, cyfarpar ac addasiadau, prydau | **9fed** *(22ain drwy Gymru)* |
| Cyfradd cleientiaid a gefnogir yn y gymuned | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal cartref, cyfarpar ac addasiadau, prydau | **9fed** *(22ain drwy Gymru)* |

### Gwariant cymharol





**Safle Gwynedd 2013/14:**

- **6ed** uchaf yn y teulu
- **£0.178m is** na'r canolrif




- Gwynedd **uchaf** yn y teulu




- Gwynedd **isaf** yn y teulu

### Gwybodaeth arall berthnasol

£74k o arbedion "Pecyn Gofal personol" wedi eu hadnabod rhwng 2012/13 a 2014/15

### PRIF GANFYDDIADAU

- **Gwario llai na'r canolrif; lefel gwariant Gwynedd yn ymddangos yn gyson er gwaethaf twf mewn gwariant yng Nghymru yn gyffredinol**
- **Gwariant fesul cleient yr uchaf yn y teulu a'r pedwerydd uchaf yng Nghymru. Cwestiwn p'run ai yw'r diffiniad o 'gleient' yn gyson?**

## Maes gwasanaeth: PRYDAU

### Y Gwasanaeth

Darparu prydau i'r oedran 65+:
- Pryd ar glud
- Prydau coginio-oeri
- Clybiau cinio

**Sefyllfa 2013/14:**

£ Gwariant gros: **£5k** Gwariant net: **£5k**

Nifer staff: *Ffigyrau ddim yn cael eu hadrodd fel rhan o'r data swyddogol*


Nifer cleientiaid: **64** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **0.24%**

### Perfformiad cymharol 2013/14

Mesuryddion Cenedlaethol


| Mesurydd | Perthnasol i | Safle yn y teulu o 9 |
|---|---|---|
| Cyfradd a gefnogir yn y gymuned fesul 1000 poblogaeth | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal cartref, cyfarpar ac addasiadau | **9fed** *(22ain drwy Gymru)* |
| Cyfradd cleientiaid a gefnogir yn y gymuned | Oedran 65+; cynnwys gwasanaethau eraill hefyd e.e. gofal cartref, cyfarpar ac addasiadau | **9fed** *(22ain drwy Gymru)* |

### Gwariant cymharol





**Safle Gwynedd 2013/14:**

- 7fed yn y teulu
- £0.068m is na'r canolrif




- Gwynedd 7fed yn y teulu




- Gwynedd 7fed yn y teulu

### PRIF GANFYDDIADAU

- **Nifer cleientiaid fesul poblogaeth, a gwariant fesul cleient yn gymharol isel**
- **Fel canlyniad gwariant fesul poblogaeth Gwynedd y 7fed isaf yn y teulu**
- **Yn ymddangos fod defnydd o'r gwasanaeth yma, a gwariant arno, yn disgyn yn gyson ar draws Cymru. Gweddill Cymru i weld yn "dal i fyny" gyda sefyllfa Gwynedd ar y gwasanaeth yma**

**Maes gwasanaeth: GWASANAETHAU ERAILL**

**Y Gwasanaeth**

Amryw o wasanaethau yn ymwneud a phobl hŷn na ellir eu dosbarthu i bennawd penodol, yn cynnwys:

- Cefnogaeth i ofalwyr
- Cefnogaeth galluogi
- Grantiau i fudiadau gwirfoddol (cyffredinol – ddim ar gyfer unrhyw wasanaeth penodol)
- Cefnogaeth yn y gymuned heb fod yn ofal cartref

**Sefyllfa 2013/14:**


£ Gwariant gros: **£0.491m** Gwariant net: **£0.451m**

Nifer staff: *Ffigyrau ddim yn cael eu hadrodd fel rhan o'r data swyddogol*

Nifer cleientiaid (ail-alluogi) : **42** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **0.16%**

**Perfformiad cymharol 2013/14**

**Gwariant cymharol**




**Safle Gwynedd 2013/14:**

- **7fed uchaf** yn y teulu
- **£0.015m is** na'r canolrif

**PRIF GANFYDDIADAU**

- **Gwariant Gwynedd yn is na chanolrif y teulu fesul poblogaeth; er hyn dim llawer o wahaniaeth mewn termau ariannol**
- **Cymariaethau 'fesul cleient' ddim yn ystyrlon iawn ar gyfer y pennawd yma, gan fod yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn y gwariant yn gallu amrywio**
- **Mae'r ffaith nad oes llawer o wahaniaeth ariannol rhwng Gwynedd a'r canolrif yn rhoi rhywfaint o hyder yn ffigyrau gwariant y penawdau eraill**

## CRYNODEB POBL HŶN (Cyfanswm)

### Y Gwasanaeth

Holl wasanaethau cymdeithasol i bobl 65 oed a throsodd, beth bynnag yr angen / rheswm.


**Sefyllfa 2013/14:**

Gwariant gros: **£35.658m** Gwariant net: **£24.789m**

Nifer staff: Data swyddogol ddim yn cael ei gyhoeddi ar gyfer gwasanaethau oed 65+ ar wahân


Nifer cleientiaid: **1,840** Cleientiaid fel % o'r boblogaeth 65+ oed: **6.9%**

### Gwariant cymharol





### Perfformiad cymharol 2013/14

Mesuryddion Lleol (Haen 1)




Mesuryddion Cenedlaethol




### Gwybodaeth arall berthnasol

Yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant â tharged arbedion effeithlonrwydd o £6.8m dros y cyfnod 2015 -2018. Cyfran 'damcaniaethol' Pobl Hŷn o'r swm yma yn £4.2m.

### PRIF GANFYDDIADAU

- **Ar sail gwariant fesul poblogaeth, Gwynedd yn gwario £3.7m yn uwch na'r 'teulu' wrth ddod â chyfanswm pob maes gwasanaeth at ei gilydd.**
- **Mae lefel perfformiad (yn nhermau'r prif fesuryddion lleol a chenedlaethol) yn weddol gymysg**

| ENW'R PWYLLGOR CRAFFU | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
|---|---|
| DYDDIAD Y CYFARFOD | 22 Medi 2015 |
| TEITL YR EITEM | Prosiect yr 'Her Gofal' |
| AELOD CABINET | Cyng. Gareth Roberts |
| | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Prosiect 'Her Gofal' yn un o brosiectau Cynllun Strategol y Cyngor ac yn allweddol i'r newidiadau yr ydym yn ceisio rhoi yn eu lle yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Yr 'Her' ydy trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar agenda ariannol heriol yr ydym yn ei wynebu. Mae'r prosiect hwn yn anelu i hwyluso'r gwaith o drawsnewid.

1.2 Daw'r Ddeddf newydd i rym yn Ebrill 2016. Mae pwyslais o fewn y Ddeddf ar 'lesiant' a chefnogi unigolion bregus o fewn y gymuned, felly mae'n anorfod y bydd raid trawsnewid os am gwrdd ar gofynion. Rhan allweddol o'r prosiect ydy codi ymwybyddiaeth o'r angen dros newid, adnabod cryfderau cymunedau ac ymateb i unrhyw fylchau.

1.3 Yn Atodiad 1 a 2, cyflwynir Briff a Chynllun Prosiect. Mae'r Briff yn amlinellu nod, amcanion a phrif gerrig milltir ar gyfer y prosiect ac mae'r Cynllun Prosiect yn manylu ar y rhaglen waith. Byddwn yn adeiladu ac ychwanegu at y rhaglen waith fel mae'r gwaith yn datblygu.

1.4 Mae cynnwys budd-ddeiliaid yn y gwaith hwn yn allweddol os yw'r trawsnewid am lwyddo. Rydym wedi ffurfio grwpiau ffocws staff i'n cynorthwyo gyda'r gwaith ac mae bwriad i gynnal **grŵp ffocws gydag Aelodau ar 29 Medi 2yh - 4yh ym Mhorthmadog**. Mae gwaith ar y gweill hefyd i ymgysylltu gyda defnyddwyr, partneriaid allweddol a chymunedau.

## 2. Argymhellion

2.1 Gofynnir am sylwadau Aelodau ar y Briff a Chynllun Prosiect
2.2 Gofynnir am fewnbwn Aelodau i'r prosiect drwy gymryd rhan yn y Grŵp Ffocws Aelodau ar 29 Medi 2015.

## Enw'r Prosiect – Yr Her Gofal

## Teitl y Ddogfen – Briff Prosiect

| | |
|---|---|
| **Rheolwr Prosiect:** | Caryl Elin Lewis, Rheolwr Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth |
| **Arweinydd Prosiect:** | Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |

---

### Newidiadau i'r ddogfen

| Dyddiad | Rhif fersiwn y ddogfen | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 29/07/15 | 0.01 | Drafft cyntaf |
| 14/9/15 | 1.0 | Cymeradwyo'r drafft fel fersiwn derfynol . |
| | | |

### Cymeradwyo'r ddogfen

| Cymeradwywyd gan | Llofnod | Dyddiad | Fersiwn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

### Dosbarthiad y ddogfen

| Enw | Teitl Swydd | Dyddiad | Fersiwn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 1. Cefndir y Prosiect

Mae'r prosiect 'Yr Her Gofal' wedi ei adnabod fel un o'r cynlluniau yng Nghynllun Strategol y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion yn y maes Gofal.

Mae'r prosiect hwn yn allweddol er mwyn galluogi'r Adran a'r Cyngor i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol a chyflawni eu hamcanion, yng nghyd-destun y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y sefyllfa ariannol a newidiadau demograffig.

Pwrpas y prosiect ydy ceisio sicrhau fod ein budd-ddeiliaid, gan gynnwys pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r angen i newid ar her sydd yn ein hwynebu o fewn y maes gofal. Drwy godi a gwella ymwybyddiaeth o'r her, byddwn yn ceisio ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithredu'n gymunedol. Bydd llwyddiant y prosiect hwn yn allweddol o ran yr agenda ataliol a sicrhau ein bod fel Cyngor (ynghyd â'n partneriaid) yn ymateb yn rhagweithiol i'r newid.

## 2. Amcanion y prosiect

Mae'n allweddol sicrhau bod ein prif fudd-ddeiliaid sef defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr, y cyhoedd, aelodau etholedig, staff a phartneriaid yn deall beth yw'r dasg sydd yn ein hwynebu o ran trawsnewid gwasanaethau a sicrhau ymateb i anghenion pobl Gwynedd.

Ar ddiwedd y prosiect y nod yw y bydd gan ein budd-ddeiliaid ddealltwriaeth o'r maes a bod gallu cymunedau i gefnogi'r rhai mwyaf bregus yn fwy cadarn.

Erbyn Ebrill 2016 rydym yn anelu i sicrhau y bydd y prosiect wedi cyflawni'r canlynol:-

| Cerrig Milltir | Targed |
|---|---|
| Creu'r 'stori' am y newidiadau yn y maes gofal ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. | Medi 2015 |
| Sefydlu a chynnal grwpiau ffocws gyda staff ac Aelodau er mwyn eu cynnwys yn y gwaith, derbyn syniadau a sicrhau perchnogaeth. | Medi 2015 |
| Mapio budd-ddeiliaid allweddol a datblygu rhaglen digwyddiadau, ymgysylltu a chyfathrebu. | Medi 2015 |
| Datblygu gweledigaeth a gwerthoedd mewn cydweithrediad gyda staff ac Aelodau | Hydref 2015 |
| Datblygu adnoddau ar gyfer codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a defnyddwyr, rhyddhau datganiadau i Newyddion Gwynedd a phapurau lleol. | Hydref 2015 |
| Penodi Rheolwr Llesiant | Hydref 2015 |
| Cynnal cyfres o sesiynau ymgynghori gyda chymunedau a fforymau defnyddwyr er mwyn adnabod cryfderau, adnoddau, cyfleoedd anffurfiol a bylchau o fewn cymunedau. | Ionawr 2015 |
| Datblygu cynllun hybu llesiant sy'n ymateb i'r bylchau o fewn cymunedau ac sy'n ysgogi gweithredu cymunedol | Chwefror 2015 |
| Gweithio hefo cymunedau a phartneriaethau allweddol i weithredu'r cynllun hybu llesiant. | Mawrth 2015 |

## 3. Strwythur y tîm prosiect

Bydd **Grŵp craidd yn cyfarfod yn wythnosol**, mae ei aelodaeth yn cynnwys:
Caryl Elin Lewis - Rheolwr Prosiect
Bethan Eluned Jones, Swyddog Comisiynu
Sandra Jones-Parry, Uwch Ymarferydd
Sarah Scott / Sion Gwynfryn Williams, Uned Gyfathrebu Gorfforaethol
Gill Paul, Uned Datblygu Gweithlu

Bydd y **Bwrdd Prosiect yn cyfarfod yn fisol,** yn cynnwys aelodau'r Grŵp Craidd ac yr isod yn ychwanegol:
Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Arweinydd Prosiect
Janet Roberts, Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi Newid
Arwel Owen, Uwch Reolwr Tai a Llesiant

## 4. Amserlen ac Adnoddau

Mae’r prosiect hwn i’w gwblhau erbyn Ebrill 2016.

Mae cyllideb ar gael gan y Pennaeth Adran er mwyn cyflawni'r pecynnau gwaith. Mae’r rhaglen waith yn darparu gwybodaeth fanwl am y pecynnau gwaith unigol.

# Enw’r Prosiect – Yr Her Gofal

## Teitl y Ddogfen – Cynllun Prosiect

| | |
|---|---|
| **Rheolwr Prosiect:** | Caryl Elin Lewis, Rheolwr Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth |
| **Arweinydd Prosiect:** | Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |



## Newidiadau i’r ddogfen

| Dyddiad | Rhif fersiwn y ddogfen | Crynodeb o’r newidiadau |
|---|---|---|
| 29/07/15 | 0.01 | Drafft cyntaf |
| 02/09/15 | 0.02 | Ail ddrafft |
| 14/9/15 | 1.0 | Cymderadwyo’r drafft fel fersiwn derfynol ond gan gydnabod y bydd angen ychwanegu/addasu wrth fynd ymlaen. |

## Cymeradwyo’r ddogfen

| Cymeradwywyd gan | Llofnod | Dyddiad | Fersiwn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

## Dosbarthiad y ddogfen

| Enw | Teitl Swydd | Dyddiad | Fersiwn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| TASG | PWY | PRYD | ADNODDAU |
|---|---|---|---|
| **1. Cyffredinol** | | | |
| 1.1 Ffurfio **Bwrdd Prosiect** (Misol) a **Grŵp Craidd** (wythnosol) | Caryl Lewis | Cyfarfodydd cyntaf yn Awst 2015 | Amser staff a stafell addas |
| 1.2 Creu **strategaeth ymgysylltu** adrannol. | Caryl Lewis | Medi 2015 | Amser staff |
| 1.3 Creu **Briff prosiect a chynllun prosiect** | Caryl Lewis | Medi 2015 | Amser staff |
| 1.4 Adnabod a mapio pwy ydy'r **budd-ddeiliaid** | Bethan Jones | Medi 2015 | Amser staff |
| **2. Gweledigaeth a Gwerthoedd** | | | |
| 2.1 Mewn cydweithrediad a staff - **Llunio gweledigaeth a gwerthoedd** (cryno ac i'r pwynt) gan sicrhau fod y neges hon yn treiddio trwy bob dim rydym yn ei wneud a'i gyhoeddi. | Caryl Lewis & Bethan Jones | Medi 2015 | Amser staff |
| 2.2 I gyd-fynd ar uchod - **creu 'sgript'** fel bod pawb yn defnyddio'r un negeseuon a chyfres o brif ffeithiau trawiadol o ran y gwasanaethau rydym yn eu darparu, sy'n cefnogi'r angen dros newid. | Caryl Lewis & Bethan Jones | Medi 2015 | Amser staff |
| | | | |
| **3. Staff** | | | |
| 3.1 Creu a rhyddhau **newyddlen staff** chwarterol - Gorffennaf, Hydref, Ionawr, Ebrill | Angharad Hywel | Gorffennaf 2015 Chwarterol wedi hynny | Amser staff |
| 3.2 Trefnu a chynnal **grŵp ffocws gyda staff** rheng flaen i dderbyn eu mewnbwn i'r gwaith a syniadau. Darparu adborth i staff yn dilyn y sesiwn. | Caryl Lewis & Bethan Jones | Misol (cyntaf ar 10 & 11 Awst) | Amser staff, cost lleoliad a lluniaeth |
| 3.3 **Ymateb** i'r materion sydd yn codi o **grwpiau ffocws staff** a **rhoi adborth**. | Caryl Lewis & Bethan Jones | O fewn mis o gynnal y grŵp ffocws | Amser staff |
| **3.4 Cynllun Ffordd Gwynedd – Alltwen**<br>3.4.1 Gyrru nodyn briffio i staff - egwyddorion, pwrpas y prosiect, lle wedi cyrraedd, amserlen ayb<br>3.4.2 Creu cyfres o astudiaethau achos o unigolion sydd wedi bod drwy'r tîm gan nodi beth oedd y deilliannau.<br>3.4.3 Creu clip fideo byr gyda'r prif negeseuon i'w ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth staff<br>3.4.4 Gyrru bwletin misol i staff yn rhannu gwybodaeth ar ddatblygiadau'r mis.<br>3.4.5 Trefnu a chynnal gweithdai staff misol yn Alltwen fel y gallent ddysgu mwy am y cynllun. | Caryl Lewis<br>Teleri Toohill<br>Gill Paul | Medi<br>Medi/Hyd<br>Hydref<br>Medi ymlaen<br>Hydref ymlaen | Amser staff a chostau lleoliad |
| **3.5 Grŵp ffocws gyda thîm ffordd Gwynedd** | Caryl Lewis & Bethan Jones | Medi 2015 | Amser staff |
| 3.6 **Cynhadledd staff** | Caryl Lewis, | 30 Tachwedd & 1 | Amser staff, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bethan Jones, Ulla Jones Webber | Rhagfyr | costau lleoliad, lluniaeth a chreu deunyddiau |
| 3.7 Trefnu sesiynau **hyfforddiant Rheoli Newid i staff** rheng flaen a rheolwyr – wedi ei deilwra i'r maes gofal drwy Carey Cartwright. | Gill Paul, Steve Barnard & Carey Cartwright | Ionawr – Mawrth 2015 | Amser staff |
| 3.8 Hyfforddiant ar y Ddeddf a Chod Ymarfer i staff rheng flaen | Gill Paul | Ionawr – Mawrth 2015 | |
| 3.9 Pennaeth i ymweld ar ardaloedd - dilyniant i'r gynhadledd | Aled Davies | Ionawr/Chwefror | Amser staff a lleoliad o bosib |
| | | | |
| **4. Y Cyhoedd a defnyddwyr presennol** | | | |
| 4.1 Creu **taflen newydd 'Mae Gwasanaethau Oedolion yn Newid'** - sy'n egluro'r rheswm dros newid a beth mae hyn yn golygu i bobl Gwynedd. | Caryl Lewis | Medi 2015 | Amser staff a chostau argraffu tua £3k |
| 4.2 Defnyddio **tudalen Twitter** y Cyngor neu greu **tudalen facebook 'Gwasanaeth Oedolion'** – Hysbysu o'r ymgyrch – 'Mae Gwasanaethau Oedolion yn Newid', y Ddeddf newydd ayb. | Angharad Hywel | Medi/Hydref 2015 | Amser staff |
| 4.3 Creu ac archebu **'banner system'** newydd | Caryl Lewis | Hydref 2015 | Tua £1k - £2k |
| 4.4 Creu **cyfres o ffilmiau** byr sy'n cyfleu'r 'Her Gofal' ac yn codi ymwybyddiaeth pobl Gwynedd. | Eleth Peate, Caryl Lewis & Bethan Jones | Rhagfyr 2015 | I'w gadarnhau |
| 4.5 **Newyddion Gwynedd** – Erthygl 'Mae Gwasanaethau Oedolion yn Newid' | Sarah Scott | Mawrth 2016 | Amser staff |
| 4.6 **Cynnal cyfres o sesiynau ymgynghori gyda chymunedau a fforymau defnyddwyr** , cynghorau cymuned, partneriaethau cymunedau'n gyntaf ayb. Cynnal sesiynau galw mewn cyhoeddus, ymweld â gwahanol grwpiau sydd eisoes yn bodoli | Caryl Lewis & Bethan Jones | Ionawr – Mawrth 2016 | Amser staff |
| **5. Aelodau Etholedig** | | | |
| 5.1 **Erthygl yn Rhaeadr** - Codi ymwybyddiaeth o'r Prosiect Her Gofal a'i gwahodd i Grŵp Ffocws. | Sarah Scott | Awst 2015 | Amser staff |
| 5.2 Trefnu a chynnal **grŵp ffocws gydag Aelodau Etholedig** i dderbyn eu mewnbwn, cynyddu eu dealltwriaeth a rhannu a derbyn syniadau ar sut i ymgysylltu gydag gweddill Aelodau ac etholwyr. | Caryl Lewis & Bethan Jones | 28 Medi 2015 | Amser staff |
| 5.3 Creu **papur briffio i Aelodau** - 'Trawsnewid Gwasanaethau i Oedolion - Rôl Aelodau Etholedig' | Caryl Lewis | Medi/Hydref 2015 | Amser staff |
| 5.4 Trefnu **sesiynau hyfforddiant Rheoli Newid** i Aelodau fel dilyniant i'r hyfforddiant ar y Ddeddf – wedi ei deilwra i'r maes gofal drwy Gill Paul a Carey Cartwright | Caryl Lewis | Ionawr – Mawrth 2015 | Amser staff |